

ARWEINIAD

Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: Ysgolion



Comisiwn
Cydraddoldeb a
Hawliau Dynol

**Equality and
Human Rights**
Commission

Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

www.equalityhumanrights.com

Cynnwys

Cynnwys.....	1
Cyflwyniad.....	4
Canllawiau eraill a ffurfiau amgen.....	4
Statws cyfreithiol y canllaw hwn.....	5
Adran 1: Cyflwyniad.....	6
1.1 Darpariaethau'r Ddeddf ar gyfer ysgolion.....	6
1.2 Ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg bellach.....	6
1.3 Ar bwy y mae rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y darpariaethau ar gyfer ysgolion?.....	7
1.4 Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw ysgol yn torri Deddf Gydraddoldeb 2010?.....	7
1.5 Pwy sy'n cael eu gwarchod?.....	8
1.6 Beth yw gwahaniaethu?.....	8
1.7 Beth arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf?.....	8
1.8 Gweithredu cadarnhaol.....	9
1.9 Dyletswyddau sector cyhoeddus.....	10
1.10 Oes yna eithriadau i'r darpariaethau ar gyfer ysgolion?.....	10
1.11 Beth sy'n digwydd os ydyw disgybl yn credu bod ysgol wedi gweithredu'n anghyfreithlon?.....	11
Adran 2: Cysyniadau allweddol.....	12
2.1 Beth yw gwahaniaethu?.....	12
2.2 Aflonyddu.....	19
2.3 Fictimeiddio.....	21
2.4 Rhwymedigaethau i gyn-ddisgyblion.....	22
2.5 Pryd ydych chi'n gyfrifol am weithredoedd pobl eraill?.....	23
Adran 3: Derbyng Disgyblion.....	26
3.1 Cyflwyniad.....	26
3.2 Beth ddywed y Ddeddf?.....	26
3.3 Sut y mae hyn yn cyd-fynd â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill ysgolion mewn perthynas â derbyn disgyblion.....	26

3.4	Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu o ran y trefniadau a wnewch wrth benderfynu pwy gaiff ei dderbyn fel disgybl i'ch ysgol.....	27
3.5	Rhaid i chi beidio â gosod telerau gwahaniaethol wrth benderfynu a ydych yn derbyn person i'ch ysgol.....	29
3.6	Rhaid i chi beidio â gwrthod derbyn person fel disgybl am resymau gwahaniaethol.....	30
3.7	Eithriadau	31
Adran 4: Darparu addysg a mynediad i unrhyw fudd, gwasanaeth neu gyfleuster		34
4.1	Cyflwyniad.....	34
4.2	Beth ddywed y Ddeddf?	34
4.3	Beth mae hyn yn ei olygu?	34
4.5	Sut ydw i'n osgoi gwahaniaethu wrth ddarparu addysg (a buddiannau, gwasanaethau a chyfleusterau)?	35
4.6	Eithriadau	40
Adran 5: Eithrio o'r ysgol		42
5.1	Cyflwyniad.....	42
5.2	Beth ddywed y Ddeddf?	42
5.3	Sut y mae hyn yn cyd-fynd â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill ysgolion mewn perthynas ag eithrio o'r ysgol.....	42
5.4	Rhaid i chi beidio a gwahaniaethu yn erbyn disgybl drwy ei eithrio o'r ysgol.....	43
5.5	Sut ydw i'n osgoi gwahaniaethu mewn perthynas ag eithrio disgyblion o'r ysgol?.....	45
Adran 6: Datrys anghydfod a gorfodi		47
6.1	Cyflwyniad.....	47
6.2	Datrys anghydfod	47
6.3	Cymodi/cyfryngu	48
6.4	Yn lle y mae cychwyn hawliad?.....	48
6.5	Yr egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i achosion o wahaniaethu a ddygir gerbron llys, tribiwnlys neu banel apêl.....	49
6.6	Hawlio yn y llys sirol	50
6.7	Hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd yn yr Alban	51
6.8	Hawliadau Tribiwnlys yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail Anabledd yng Nghymru a Lloegr.....	52

6.9	Hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn penderfyniadau derbyn disgyblion i ysgolion yng Nghymru a Lloegr a gynhelir.....	53
6.10	Hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn eithrio parhaol o ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr	54
	Adran 7: Ysgolion sy'n darparu addysg bellach.....	56
7.1	Cyflwyniad.....	56
7.2	Beth ddywed y Ddeddf?	56
7.3	Beth mae hyn yn ei olygu?	57
	Adran 8: Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus.....	58
8.1	Cyflwyniad.....	58
8.2	Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol.....	61
8.3	Ymgysylltiad	65
8.4	Asesu effaith	68
8.5	Relevant Information	71
8.6	Gwybodaeth cyflogaeth.....	75
8.7	Caffael.....	79
8.8	Adrodd yn flynyddol a chyhoeddi	83
8.9	Enghraifft gyfuno	86
	Atodiad A: Nodweddion gwarchoddedig.....	90
	Atodiad B: Cyrff cyfrifol ysgolion	95
	Atodiad C: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus	96
	Cysylltiadau	99

Cyflwyniad

Mae'r canllaw hwn yn un o gyfres a ysgrifennwyd gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i egluro'r hyn y mae'n rhaid i chi ei wneud i gwrdd â gofynion cyfraith cydraddoldeb. Bydd y canllawiau hyn yn ategu cyflwyno Deddf Gydraddoldeb 2010. Mae'r Ddeddf hon yn crynhoi nifer o ddeddfau cydraddoldeb gwahanol, lawer ohonynt wedi bodoli ers amser maith. Drwy hyn, mae'r Ddeddf yn gwneud cyfraith cydraddoldeb yn symlach ac yn haws ei deall.

Mae dau ganllaw yn rhoi cyngor ar eich cyfrifoldebau o dan gyfraith cydraddoldeb fel rhywun a chanddo/i ddisgyblion, myfyrwyr a rhieni sy'n cael mynediad i'r gwasanaethau addysg a ddarperir gennych. Mae'r canllawiau yn edrych ar y canlynol:

1. Ysgolion
2. Addysg Bellach ac Uwch

Canllawiau eraill a ffurfiau amgen

Yr ydym hefyd wedi cynhyrchu:

Pedair cyfres o ganllawiau ar wahân sy'n:

- egluro'r hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi os ydych yn darparu gwasanaeth, yn cyflawni swyddogaethau cyhoeddus neu'n cynnal rhyw gymdeithas;
- egluro'r hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi os ydych yn gyflogwr;
- egluro'r hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i unigolion sy'n defnyddio gwasanaethau ac sy'n dymuno gwybod beth yw eu hawliau i gydraddoldeb; ac
- egluro'r hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i unigolion sy'n gweithio ac sy'n dymuno gwybod beth yw eu hawliau i gydraddoldeb

Os ydych angen y canllaw hwn ar ffurf amgen ac/neu mewn iaith wahanol cysylltwch os gwelwch yn dda y Comisiwn i drafod eich anghenion.

Statws cyfreithiol y canllaw hwn

Mae'r canllaw hwn yn berthnasol i Gymru. Er bod y canllaw hwn yn anstatudol, gallasai ei ddilyn eich cynorthwyo i gyflawni eich dyletswyddau o dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010.

Mae'r canllaw hwn yn seiliedig ar gyfraith cydraddoldeb fel y saif ar Fawrth 2014. Bydd unrhyw newidiadau pellach yn y gyfraith yn cael eu hadlewyrchu mewn argraffiadau newydd.

Cafodd y canllaw hwn ei ddiweddarau diwethaf ym mis Mawrth 2014. Dylech ofyn i'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol os yw'r canllaw hwn wedi ei ddisodli gan fersiwn mwy diweddar.

Adran 1: Cyflwyniad

1.1 Darpariaethau'r Ddeddf ar gyfer ysgolion

Mae'r canllaw hwn yn ymdrin â darpariaethau Deddf Gydraddoldeb 2010 ar gyfer ysgolion, sy'n gwahardd ysgolion rhag gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu fictimeiddio:

- darpar ddisgyblion
- disgyblion yn yr ysgol
- mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, cyn-ddisgyblion (esbonnir hyn yn fanylach yn Adran 2).

Mae gan ysgolion hefyd rwymedigaethau o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 fel cyflogwyr, cyrff sy'n ymgymryd â swyddogaethau cyhoeddus a darparwyr gwasanaeth. Ni gynhwysir y rhwymedigaethau hyn yn y canllaw hwn gan fod y canllaw hwn yn ymwneud â'u rhwymedigaethau i ddisgyblion (a darpar ddisgyblion). Roedd gan ysgolion rwymedigaethau i beidio â gwahaniaethu yn erbyn pobl â nodweddion gwarchoddedig o dan ddeddfwriaeth cydraddoldeb flaenorol. Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 yn darparu fframwaith cyfreithiol sengl, modern a chyfraith symlach, eglurach a fydd yn fwy effeithiol wrth daclo anfantais a gwahaniaethu.

Mae osgoi gwahaniaethu a hyrwyddo cydraddoldeb yn ategu'r agenda o wella cyrhaeddiad a chynnydd pob disgybl. Mae addysg a sgiliau da yn allweddol wrth agor cyfleoedd a chynyddu'r cyfle o wireddu bywyd llwyddiannus. At hynny, yn Lloegr, ffactorau penodol yw cydraddoldeb a hawliau dynol sydd raid eu cymryd i gyfrif o ran arolygon Ofsted. Felly os na roddir mesurau cydraddoldeb ar waith yn effeithiol gallai cyfyngu ar y radd arolygu gyffredinol.

1.2 Ysgolion a gynhelir sy'n darparu addysg bellach

Lle bo ysgol a gynhelir yn darparu:

- addysg ran amser i bobl (heblaw disgyblion) hŷn nag oed ysgol gorfodol, neu
- addysg amser llawn i bobl 19 oed neu hŷn bydd ganddynt hefyd rwymedigaethau o dan Ddeddf Gydraddoldeb fel darparwyr addysg bellach.

Esbonnir y rhwymedigaethau hyn yn fanylach yn [Adran 7](#).

1.3 Ar bwy y mae rhwymedigaethau cyfreithiol o dan y darpariaethau ar gyfer ysgolion?

Mae gan bob ysgol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, ni waeth sut y cânt eu hariannu neu eu rheoli, rhwymedigaethau o dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010.

Mae gan awdurdodau lleol (yng Nghymru a Lloegr) ac awdurdodau addysg (yn yr Alban) rhwymedigaethau o dan ddarpariaethau'r ysgolion pan y nhw yw'r corff sy'n gyfrifol am yr ysgol, er enghraifft, pan y nhw yw'r awdurdod sy'n ymwneud â derbyniadau i'r ysgol.

Mae gan awdurdodau lleol ac awdurdodau addysg hefyd rhwymedigaethau fel darparwyr gwasanaeth ac fel cyrff sy'n cyflawni swyddogaethau cyhoeddus ac fe geir canllaw ar wahân ar gyfer y rhwymedigaethau hyn.

O dan y Ddeddf, mae gan ddarparwyr addysg bellach ac uwch rhwymedigaethau a esbonnir mewn canllaw ar wahân. Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg – bellach ac uwch

<http://www.equalityhumanrights.com/private-and-public-sector-guidance/education-providers/higher-education-providers-guidance>

Nid oes gan ddarparwyr blynyddoedd cynnar preifat (megis meithrinfeydd dydd preifat, gwarchodwyr plant, rhwydweithiau gwarchod plant achrededig, cyn ysgolion, grwpiau chwarae a Chanolfannau Plant Dechrau'n Deg) sy'n darparu gofal plant i blant cyn ysgol rhwymedigaethau o dan y darpariaethau ar gyfer ysgolion ond mae ganddynt rhwymedigaethau o dan ddarpariaethau'r darparwr gwasanaeth ac fe esbonnir y rhain mewn canllaw ar wahân.

1.4 Pwy sy'n gyfrifol am sicrhau nad yw ysgol yn torri Deddf Gydraddoldeb 2010?

Corff cyfrifol ysgol sy'n atebol os torrir y Ddeddf Gydraddoldeb mewn unrhyw ddull neu fodd. Mae'r tabl yn Atodiad B yn amlinellu'r corff cyfrifol ar gyfer pob math o ysgol.

Mae corff cyfrifol ysgol yn atebol am weithredoedd ei gyflogeion ac asiantau'r ysgol oni all ddangos iddo gymryd 'pob cam rhesymol' i atal y gwahaniaethu, yr aflonyddu neu'r fictimeiddio rhag digwydd. Nid yw'r cyfrifoldeb hwn yn ymestyn i gynnwys gweithredoedd disgyblion y tu hwnt i'r cyfrifoldeb sydd eisoes gan ysgol am weithredoedd ei disgyblion. Mewn rhai amgylchiadau gall cyflogai neu asiant ysgol fod yn bersonol atebol am weithredoedd o wahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio. Esbonnir hyn yn fanylach yn [Adran 2](#).

1.5 Pwy sy'n cael eu gwarchod?

Mae'r Ddeddf yn gwarchod disgyblion rhag gwahaniaethu ac aflonyddu ar sail 'nodweddion gwarchodedig'.

Y nodweddion gwarchodedig o ran y darpariaethau i ysgolion yw:

Anabledd

Ailbennu rhyw

Beichiogrwydd a mamolaeth

Hil

Crefydd neu gred

Rhyw

Cyfeiriadedd rhywiol

NID yw oed a phriodas neu bartneriaeth sifil yn nodweddion gwarchodedig ar gyfer y darpariaethau ysgol.

Esbonnir nodweddion gwarchodedig yn fanylach yn [Atodiad A](#).

Y categorïau o bobl sy'n dod o dan y darpariaethau ar gyfer ysgolion yw:

- Darpar-ddisgyblion (mewn perthynas â threfniadau derbyn).
- Disgyblion yn yr ysgol (gan gynnwys y rhai hynny sy'n absennol neu wedi eu heithrio dros dro)
- Cyn-ddisgyblion (os yw eu perthynas â'r ysgol yn parhau ar y sail iddynt fod yn ddisgyblion yn yr ysgol)

1.6 Beth yw gwahaniaethu?

Diffinnir gwahaniaethu anghyfreithlon yn y Ddeddf yn nhermau:

- Gwahaniaethu uniongyrchol (gan gynnwys gwahaniaethu oherwydd canfyddiad neu gysylltiad)
- Gwahaniaethu anuniongyrchol
- Gwahaniaethu yn codi o anabledd
- Methu gwneud addasiadau rhesymol (ar gyfer pobl anabl).

Esbonnir gwahaniaethu yn llawnach yn [Adran 2](#).

1.7 Beth arall sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf?

Aflonyddu

Mae Deddf Gydraddoldeb 2010 hefyd yn gwahardd ysgolion rhag aflonyddu:

- ar ddarpar ddisgyblion
- ar ddisgyblion yn yr ysgol
- mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, ar gyn-ddisgyblion mewn perthynas â'r nodweddion gwarchoddedig a ganlyn:
- anabledd
- hil
- rhyw

Fictimeiddio

Mae Deddf Gydraddoldeb 2010 yn gwahardd ysgolion rhag fictimeiddio:

- darpar ddisgyblion
- disgyblion yn yr ysgol
- mewn rhai amgylchiadau cyfyngedig, cyn-ddisgyblion.

Rhaid i ysgolion beidio chwaith â fictimeiddio rhieni sy'n cwyno, er bod hyn yn dod o dan Adran 3, nid Adran 6.

Diffinnir fictimeiddio yn y Ddeddf fel:

Trin rhywun yn wael oherwydd iddynt gyflawni 'gweithred warchoddedig' (neu oherwydd bod yr ysgol yn credu bod person wedi cyflawni neu'n mynd i gyflawni gweithred warchoddedig).

'Gweithred warchoddedig' yw:

- Hawlio neu gwyno bod gwahaniaethu wedi digwydd (o dan y Ddeddf).
- Cynorthwyo rhywun arall i hawlio drwy ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth.
- Honni bod yr ysgol neu rywun arall wedi torri'r Ddeddf.
- Gwneud unrhyw beth arall yn gysylltiedig â'r Ddeddf.

Ceir hefyd warchodaeth i ddisgyblion a gaiff eu fictimeiddio oherwydd bod rhiant neu frawd neu chwaer wedi cyflawni gweithred warchoddedig.

Esbonnir aflonyddu a fictimeiddio yn fanylach yn [Adran 2](#).

1.8 Gweithredu cadarnhaol

Gall disgyblion a chanddynt nodweddion gwarchoddedig fod o dan anfantais am resymau cymdeithasol neu economaidd neu am resymau yn ymwneud â gwahaniaethu yn y gorffennol neu yn y presennol. Mae'r Ddeddf yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi ysgolion i weithredu i fynd i'r afael ag anfantais benodol, anghenion gwahanol neu gyfranogi anghymesur o isel grŵp penodol o ddisgyblion, cyn belled ag y cyflawnir rhai amodau.

Gelwir y rhain yn ddarpariaethau gweithredu cadarnhaol ac fe ganiatânt i ysgolion (heb fod hynny'n ofynnol) weithredu'n gymesur er mwyn mynd i'r afael â'r anfantais sy'n dod i ran grwpiau penodol o ddisgyblion. Gallasai gweithredu o'r fath gynnwys targedu darpariaeth neu adnoddau, neu osod darpariaeth ychwanegol neu ddarpariaeth wedi ei theilwra'n arbennig yn ei lle er budd grŵp penodol o ddisgyblion sy'n dioddef anfantais.

Bwriedir i weithredu cadarnhaol fod yn foddion fydd yn caniatáu i ysgolion ddarparu buddiannau ychwanegol i rai disgyblion er mwyn mynd i'r afael ag anfantais ac nid yw yr un peth â gwahaniaethu cadarnhaol. Byddai gwahaniaethu cadarnhaol yn darparu triniaeth ffafriol i grŵp penodol o ddisgyblion sy'n dioddef anfantais a fyddai'n mynd y tu hwnt i'r amodau gweithredu cadarnhaol

Nid yw byth yn anghyfreithlon trin disgyblion (neu ymgeiswyr) anabl yn fwy ffafriol na disgyblion (neu ymgeiswyr) nad ydynt yn anabl. Hynny yw, caniateir i ysgol weithredu'n gadarnhaol o blaid disgyblion (neu ymgeiswyr) anabl.

1.9 Dyletswyddau sector cyhoeddus

Awdurdodau cyhoeddus yw ysgolion a gynhelir, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion (yn Lloegr) ac Academiâu, a byddant yn ddarostyngedig i ddyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae Awdurdodau Addysg ac ysgolion grant yn yr Alban hefyd yn ddarostyngedig i'r dyletswyddau.

Golyga hyn bod rhaid iddynt roi 'sylw dyledus' i'r angen i ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, i hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda rhwng pobl sydd â nodweddion gwarchoddedig neilltuol a'r rhai nad oes. O ran ysgolion, dim ond wrth ystyried eu dyletswyddau fel cyflogwr y mae oedran yn nodwedd warchoddedig berthnasol iddynt a dim mewn perthynas â darparu addysg i ddisgyblion.

Yn Lloegr, mae rhaid i'r rhan fwyaf o ysgolion (ac yn achos yr Unedau Cyfeirio Disgyblion, yr awdurdod lleol sy'n eu sefydlu a'u cynnal) gydymffurfio hefyd â dyletswyddau cydraddoldeb penodol, ac felly awdurdodau addysg ac ysgolion grant yn yr Alban. Mae'r dyletswyddau hyn yn gofyn am gamau penodol sydd wedi eu cynllunio i alluogi cydymffurfiaeth well â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus ac maent yn wahanol yng Nghymru, yr Alban a Lloegr.

Ceir gwybodaeth bellach ar ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn Atodiad C ac yn y canllaw hwn.

1.10 Oes yna eithriadau i'r darpariaethau ar gyfer ysgolion?

Mae yna eithriadau sy'n galluogi ysgolion un rhyw i dderbyn disgyblion o un rhyw yn unig ac i ysgolion o natur grefyddol alluogi iddynt gael meini prawf derbyn sy'n ffafrio aelodau o'u crefydd eu hunain. Esbonnir hyn yn fanylach yn [Adran 3](#).

1.11 Beth sy'n digwydd os ydyw disgybl yn credu bod ysgol wedi gweithredu'n anghyfreithlon?

Gall disgybl sy'n credu i ysgol wahaniaethu yn ei (h)erbyn, (h)aflonyddu arni/arno neu ei fictimeiddio hawlio o dan y Ddeddf Gydraddoldeb.

Ar gyfer pob nodwedd warchoddedig heblaw anabledd byddai'n rhaid hawlio yn y llys sirol.

Os hawlir gwahaniaethu ar sail anabledd yna y mae'r fan lle yr hawlir yn amrywio yn ôl y math o hawliad a wneir. Ar gyfer hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd yng Nghymru a Lloegr fel arfer rhiant y disgybl yn hytrach na'r disgybl ei hunan yw'r sawl sy'n gallu gwneud yr hawliad.

Esbonnir hyn oll yn fanylach yn Adran 6.

Adran 2: Cysyniadau allweddol

2.1 Beth yw gwahaniaethu?

Mae'r Ddeddf yn cyfuno cyfraith sydd eisoes yn bodoli mewn un fframwaith cyfreithiol a thra bo llawer o gysyniadau gwahaniaethu yn parhau yr un fath ag oeddent mewn deddfwriaeth gydraddoldeb gynharach mae yna rai meysydd na ddarparwyd ar eu cyfer o'r blaen. Mae'r adran hon yn disgrifio'r amryfal fathau o wahaniaethu a sut y maent yn gymwys i'r darpariaethau ar gyfer ysgolion.

Gwahaniaethu uniongyrchol

Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fo'ch yn trin disgybl yn llai ffafriol na'r hyn yr ydych yn trin (neu y byddech yn trin) disgybl arall oherwydd nodwedd warchoddedig. Felly enghraifft syml iawn fyddai gwrthod caniatáu derbyn plentyn i ysgol fel disgybl oherwydd ei hil, er enghraifft oherwydd ei fod yn Roma.

Nid yw'n bosib cyfiawnhau gwahaniaethu uniongyrchol, felly fe fydd bob amser yn anghyfreithlon. Mae yna fodd bynnag eithriadau i'r darpariaethau ar gyfer ysgolion sy'n caniatáu, er enghraifft, i ysgolion un rhyw dderbyn disgyblion o un rhyw yn unig heb i hyn fod yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon.

Er mwyn i rywun ddangos bod gwahaniaethu uniongyrchol wedi digwydd yn ei (h)erbyn, rhaid iddo/iddi gymharu'r hyn sydd wedi digwydd iddo/iddi â'r driniaeth y mae /byddai rhywun heb ei nodwedd warchoddedig ef/hi yn ei derbyn. Felly ni all disgybl hoyw hawlio bod ei eithrio am ymladd yn wahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol oni all ef/hi ddangos na fyddai disgybl heterorywiol neu ddeurywiol yn cael ei (h)eithrio am ymladd. Nid oes angen i ddisgybl ddod o hyd i berson go iawn er mwyn cymharu ag ef/â hi ond gall ddibynnu ar berson damcaniaethol os gall ddangos bod yna dystiolaeth y byddai person o'r fath yn cael ei drin/ei thrin yn wahanol.

Nid oes angen i rywun sy'n hawlio gwahaniaethu uniongyrchol oherwydd gwahanu hiliol neu feichiogrwydd neu famolaeth ddod o hyd i berson i gymharu ei hunan ag ef/â hi:

- Mae gwahanu hiliol yn gosod pobl ar wahân yn fwriadol ar sail hil neu liw neu darddiad ethnig neu genedlaethol a bydd wastad yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon.
- Er mwyn hawlio iddi gael ei gwahaniaethu yn ei herbyn ar sail beichiogrwydd neu famolaeth rhaid i ddisgybl benywaidd ddangos iddi gael ei thrin yn annheg oherwydd ei beichiogrwydd neu ei mamolaeth ac ni raid iddi gymharu ei thriniaeth â thriniaeth rhywun nad oedd yn feichiog neu fam newydd.

Nid gwahaniaethu uniongyrchol yn erbyn disgybl gwrywaidd yw cynnig triniaeth arbennig i ddisgybl benywaidd mewn perthynas â'i beichiogrwydd neu enedigaeth ei

phlentyn.

Nid gwahaniaethu uniongyrchol yn erbyn disgybl nad yw'n anabl yw trin disgybl anabl yn fwy ffafriol.

Er enghraifft:

- Anogir disgybl benywaidd yn benodol i beidio ag ymgymryd â chwrs mewn peirianeg gan athro sy'n dweud wrthi bod hwn yn faes astudiaeth amhriodol i ferch. Byddai hyn yn wahaniaethu uniongyrchol ar sail rhyw.
- Mae Syndrom Asperger ar ddisgybl ac mae weithiau'n ymddwyn yn afreolus yn y dosbarth. Nid yw'r ysgol yn cymryd camau disgyblaethol yn ei erbyn, ond yn defnyddio strategaethau y cytunir arnynt i reoli ei ymddygiad. Mae disgybl heb anabledd sydd hefyd yn ymddwyn yn afreolus yn y dosbarth, yn cael ei gosbi am ei ymddygiad. Ni fyddai'r gwahaniaeth triniaeth hwn yn wahaniaethu uniongyrchol yn erbyn y disgybl heb anabledd.

Gwahaniaethu oherwydd cysylltiad

Mae gwahaniaethu uniongyrchol hefyd yn digwydd pan ydych yn trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd ei gysylltiad â pherson arall a chanddo/a chanddi nodwedd warchodedig (heblaw beichiogrwydd a mamolaeth).

Gallai hyn ddigwydd pan ydych yn trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd fod gan ei frawd/chwaer, rhiant, gofalwr neu ei ffrind nodwedd warchodedig.

Gwahaniaethu oherwydd canfyddiad

Mae gwahaniaethu hefyd yn digwydd pan ydych yn trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd eich bod yn anghywir wrth gredu bod ganddynt nodwedd warchodedig.

Gwahaniaethu oherwydd beichiogrwydd a mamolaeth

Gwahaniaethu yw trin menyw (gan gynnwys disgybl benywaidd o unrhyw oed) yn llai ffafriol oherwydd ei bod hi'n feichiog neu wedi bod yn feichiog, wedi geni plentyn o fewn y 26 wythnos diwethaf neu'n bwydo baban 26 wythnos neu iau o'r fron.

Gwahaniaethu uniongyrchol ar sail rhyw yw trin menyw (gan gynnwys disgybl benywaidd o unrhyw oed) yn llai ffafriol oherwydd ei bod yn bwydo plentyn hŷn na 26 wythnos o'r fron.

Gwahaniaethu anuniongyrchol

Mae gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd pan fo'ch yn defnyddio darpariaeth, maen prawf neu arfer yn yr un ffordd ar gyfer pob disgybl neu ar gyfer grŵp penodol o ddisgyblion, megis myfyrwyr ffiseg lefel A, ond mai effaith hyn yw gosod disgyblion sy'n rhannu nodwedd warchodedig o fewn y grŵp myfyrwyr cyffredinol o dan anfantais arbennig. Nid oes gwahaniaeth nad oedd hi'n fwriad gennych i osod y disgyblion a chanddynt nodwedd warchodedig benodol o dan anfantais yn y ffordd hon. Yr hyn sy'n cyfrif yw a yw neu a fyddai eich gweithredu yn gosod anfantais ar y cyfryw ddisgyblion o'u cymharu â disgyblion nad ydynt yn rhannu'r nodwedd honno.

Ni ddiffinnir ‘anfantais’ yn y Ddeddf ond maen prawf bras yw y byddai person rhesymol yn ystyried bod rhywun wedi ei osod o dan anfantais. Gall ymddangos mewn sawl gwedd, megis gwadu cyfle neu ddewis, ataliaeth, gwrthod neu eithrio.

Ni ddiffinnir ‘darpariaeth’, ‘maen prawf’ nac ‘arfer’ yn y Ddeddf ond gellir eu dehongli’n eang a chynnwys:

- trefniadau (er enghraifft, ar gyfer penderfynu pwy i’w derbyn)
- y ffordd y mae addysg neu fynediad i unrhyw fudd, gwasanaeth neu gyfleuster yn cael eu cynnig neu eu darparu
- penderfyniadau unigryw
- cynigion neu gyfarwyddiadau i wneud rhywbeth mewn ffordd benodol.

Gallant gael eu hysgrifennu’n ffurfiol neu gallant fod wedi datblygu wrth i’r ysgolbenderfynu ar y ffordd orau i gyflawni’r hyn y dymunai.

Bydd gwahaniaethu anuniongyrchol yn digwydd os bodlonir y pedwar amod a ganlyn:

1. Yr ydych neu fe fyddech yn cymhwyso’r ddarpariaeth, y maen prawf neu’r arfer i bob disgybl perthnasol yn ddiwahân, gan gynnwys disgybl penodol a chanddo/a chanddi nodwedd warchoddedig, a
2. Mae’r ddarpariaeth neu fe fyddai’r ddarpariaeth, y maen prawf neu’r arfer yn gosod disgyblion sy’n rhannu nodwedd warchoddedig o dan anfantais arbennig o’u cymharu â disgyblion perthnasol nad ydynt yn rhannu’r nodwedd honno, a
3. Byddai’r ddarpariaeth, maen prawf, arfer neu reol yn gosod disgybl penodol o dan yr anfantais honno, a
4. Ni allwch ddangos bod y ddarpariaeth, y maen prawf neu’r arfer wedi eu cyfiawnhau fel ‘ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys’.

Er enghraifft: Mae ysgol yn gofyn bod disgyblion gwrywaidd yn gwisgo cap fel rhan o’u gwisg ysgol. Er bod y gofyniad hwn yn cael ei gymhwyso i’r holl ddisgyblion, ei effaith yw eithrio bechgyn Sikh y mae eu crefydd yn gofyn iddynt wisgo tyrban. Byddai hyn yn wahaniaethu anuniongyrchol yn seiliedig ar grefydd a chredo ac mae’n annhebygol y byddai’r ysgol yn gallu ei gyfiawnhau.

Beth yw ‘ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys’?

Er mwyn bod yn ddilys rhaid i’r ddarpariaeth, y maen prawf neu’r arfer fod yn gyfreithlon heb wahaniaethu yn erbyn neb ac hefyd fod yn ystyriaeth wirioneddol, wrthrychol. Yng nghyd-destun addysg ysgol, gallasai enghreifftiau o nodau dilys gynnwys:

- Cynnal safonau academaidd a safonau eraill.
- Sicrhau iechyd a diogelwch a lles ei disgyblion

Hyd yn oed os yw'r nod yn ddilys rhaid i'r ffordd o'i gyrraedd fod yn gymesur. Golyga cymesur 'priodol ac angenrheidiol', ond nid yw 'angenrheidiol' yn golygu mai'r ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer yw'r unig ffordd bosib o gyrraedd y nod dilys.

Er nad yw cost ariannol defnyddio ymagweddu llai gwahaniaethol ynddo'i hun yn gallu darparu cyfiawnhad, gellir ystyried cost fel rhan o gyfiawnhad yr ysgol, os oes rhesymau da dros fabwysiadu'r dewis arfer.

Po fwyaf difrifol yr anfantais a achoswyd gan y ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer gwahaniaethol, mwyaf argyhoeddiadol y mae'n rhaid i'r cyfiawnhad fod.

Mewn achos yn ymwneud ag anabledd, onid ydych wedi ufuddhau i'ch dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol perthnasol, bydd yn anodd i chi ddangos bod y driniaeth wedi bod yn gymesur.

Gwahaniaethu yn codi o anabledd

Mae gwahaniaethu yn codi o anabledd yn digwydd pan fo'ch yn trin disgybl anabl yn anffafriol yn sgil rhywbeth sy'n gysylltiedig â'i anabledd ac yn methu cyfiawnhau'r cyfryw driniaeth.

Mae gwahaniaethu yn codi o anabledd yn wahanol i wahaniaethu uniongyrchol. Mae gwahaniaethu uniongyrchol yn digwydd pan fo unigolyn yn trin unigolyn arall yn llai ffafriol oherwydd nodwedd warchoddedig anabledd. Yn achos gwahaniaethu yn codi o anabledd, ni waeth beth yw'r cymhelliad am y driniaeth; y cwestiwn yw a yw'r disgybl anabl wedi ei drin yn anffafriol oherwydd rhywbeth yn gysylltiedig â'i anabledd.

Mae gwahaniaethu yn codi o anabledd hefyd yn wahanol i wahaniaethu anuniongyrchol. Nid oes angen dangos bod pobl eraill wedi eu heffeithio ochr yn ochr â'r disgybl anabl unigol nac i'r disgybl anabl gymharu ei hunan ag unrhyw un arall.

Bydd gwahaniaethu yn codi o anabledd yn digwydd os bodlonir y tair amod canlynol:

- yr ydych yn trin disgybl anabl yn anffafriol gan ei roi o dan anfantais, hyd yn oed os nad hyn oedd eich bwriad, ac
- mae'r driniaeth oherwydd rhywbeth yn gysylltiedig ag anabledd y disgybl anabl (a allai ddeillio o'r anabledd, fod yn effaith neu'n ganlyniad iddo) megis methu cerdded heb gymorth neu ymddygiad yn gysylltiedig â'r anabledd ac
- na allwch gyfiawnhau'r driniaeth drwy ddangos ei fod yn 'ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys'. Esbonnir hyn uchod.

Er enghraifft: Mae parlys yr ymennydd ar Llinos ac mae'n defnyddio cadair olwyn. Dywedir wrthi na fydd yn gallu mynd ar daith ysgol i theatr sy'n llwyfannu cynhyrchiad o ddrama Saesneg y mae'n ei hastudio, am nad oes modd i gadair olwyn gael mynediad i'r adeilad. Mae Llinos a'i rhieni yn ymwybodol fod y ddrama hefyd yn cael ei pherfformio ar lwyfan theatr leol arall y gellir cael mynediad iddi ond nid yw'r ysgol yn archwilio'r dewis hwn. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu yn codi o anabledd.

Gwybod am anabledd

Os ydych yn gallu dangos

- nad oeddech yn gwybod bod gan y plentyn anabl yr anabledd o dan sylw
- nad oedd disgwyl i chi yn rhesymol wybod bod gan y disgybl anabl yr anabledd yna ni fyddai'r driniaeth anffafriol yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon yn codi o anabledd. Nid oes angen i chi **wybod** bod y disgybl yn bodloni'r diffiniad cyfreithiol o 'unigolyn anabl', *dim ond bod ganddi hi/ganddo fe nam sy'n debygol o fodloni'r diffiniad.*

Os yw eich asiant (rhywun sy'n ymgymryd â thasgau ar eich rhan) neu eich cyflogai yn gwybod am anabledd disgybl, ni fyddwch fel arfer yn gallu hawlio nad oeddech yn gwybod am yr anabledd.

Er enghraifft: Dywed Catrin wrth ysgrifennydd yr ysgol fod ganddi glefyd y siwgr a bod angen iddi gario bisgedi i'w bwyta pan fo lefel y siwgr yn ei gwaed yn disgyn. Nid oes gan athro unrhyw wybodaeth am ei hanabledd ac mae'n gwrthod caniatáu i ddisgyblion ddod â bwyd i'r dosbarth. Mae Catrin yn dioddef pwl hypoglycemia. Yn yr achos hwn, nid yw'n debygol y bydd yr ysgol yn gallu dadlau na wyddai am ei chyflwr.

Perthnasedd gwneud addasiadau rhesymol

Drwy ymateb yn chwim a chanfod a chyflawni addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl, gallwch yn aml osgoi gwahaniaethu yn codi o anabledd, er y gall fod achosion lle nad yw addasiad ynghlwm wrth y driniaeth anffafriol dan sylw.

Os ydych yn methu gwneud addasiad rhesymol priodol, mae'n debygol y bydd yn hynod anodd i chi ddadlau bod cyfiawnhad dros driniaeth anffafriol.

Gwneud addasiadau rhesymol

Dylech fod yn gyfarwydd â'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol gan fod y cyfryw ddyletswydd wedi ei chyflwyno o dan Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995. Mae'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb yn gweithredu ychydig yn wahanol ac wedi ei hymestyn i gynnwys darpariaeth ysgol o gymhorthion a gwasanaethau atodol. Yr un yw bwriad y ddyletswydd: osgoi cyn belled â phosib drwy ddull rhesymol yr anfantais y mae disgybl anabl yn ei brofi yn sgil ei anabledd.

Yng Nghymru a Lloegr, mae'r ddyletswydd hon yn eistedd ochr yn ochr â'ch dyletswyddau a rhai'r awdurdodau lleol tuag at ddisgyblion ag anghenion addysg arbennig o dan Ran 4 Deddf Addysg 1996. Yn yr Alban, mae'r ddyletswydd yn eistedd ochr yn ochr â dyletswyddau awdurdod lleol neu ysgolion grant tuag at ddisgyblion anabl a chanddynt anghenion cymorth ychwanegol o dan Ddeddf Addysg (Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu)(yr Alban) 2004. Mewn rhai achosion gall y cymorth y byddo disgybl anabl yn ei dderbyn o dan y fframwaith anghenion addysgol arbennig neu anghenion cymorth ychwanegol olygu nad yw'n dioddef anfantais sylweddol (gweler isod) ac felly nid oes angen gwneud unrhyw addasiadau rhesymol ychwanegol ar ei gyfer. Mewn achosion eraill fe all fod angen addasiadau rhesymol ar ddisgyblion anabl yn ogystal â'r ddarpariaeth addysgol arbennig neu anghenion cymorth ychwanegol y maent yn ei derbyn. Mae yna hefyd ddisgyblion anabl sydd heb anghenion addysgol arbennig neu anghenion cymorth ychwanegol ond y mae angen serch hynny wneud addasiadau

rhesymol ar eu cyfer. Mae lefel y cymorth y mae disgybl yn ei dderbyn o dan Adran 4 Deddf Addysg 1996 neu o dan Ddeddf Addysg (Cymorth Ychwanegol ar gyfer Dysgu)(yr Alban) 2004 yn un o'r ffactorau i'w hystyried wrth i chi gloriannu beth fyddai'n rhesymol i chi orfod ei wneud.

Beth yw'r ddyletswydd i wneud addasiadau rhesymol?

Mae'n ofynnol i chi gymryd camau rhesymol i osgoi anfantais sylweddol lle bo darpariaeth, maen prawf neu arfer yn rhoi disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol.

Mae arnoch y ddyletswydd hon i ddisgyblion cyfredol, ymgeiswyr ac mewn amgylchiadau cyfyngedig, i gyn-ddisgyblion anabl mewn perthynas â'r meysydd canlynol:

- Penderfynu i bwy y cynigir lle fel disgybl
- Darparu addysg
- Mynediad i unrhyw fudd, gwasanaeth neu gyfleuster

Nid yw'r ddyletswydd yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi wneud addasiadau rhesymol er mwyn osgoi'r anfantais a achosir gan nodweddion corfforol gan fod y dyletswyddau cynllunio yn darparu ar gyfer hyn.

Ni allwch gyfiawnhau methu gwneud addasiad rhesymol; lle bo'r ddyletswydd yn codi, y ddadl fydd pa un a yw gwneud yr addasiadau neu beidio yn 'rhesymol' a chwestiwn gwrthrychol yw hwn i'r tribiwnlysoedd yn y pen draw i'w bennu.

Dyletswydd rhagflaenol a pharhaus yw hon y mae gofyn i chi ei chael i ddisgyblion anabl yn gyffredinol, pa un a ydych yn gwybod bod disgybl penodol yn anabl ai peidio a pha un a oes gennych unrhyw ddisgyblion anabl yn eich gofal ar y pryd ai peidio. Ni ddylech aros nes bod disgybl anabl unigol yn dod atoch cyn ystyried sut i gyflawni'r ddyletswydd. Yn hytrach dylech gynllunio ymlaen llaw ar gyfer yr addasiadau rhesymol y gall fod angen i chi eu gwneud, pa un a oes gennych unrhyw ddisgyblion anabl ar y pryd ai peidio. Drwy ragweld yr angen i wneud addasiadau y byddwch yn y sefyllfa orau i gynorthwyo disgyblion anabl sy'n dod i'ch ysgol. Nid oes disgwyl i chi ragweld anghenion pob darpar ddisgybl ond mae'n ofynnol i chi feddwl a chymryd camau rhesymol a chymesur i oresgyn rhwystrau allasai lyffetheirio disgyblion a chanddynt wahanol fathau o anabledau. Er enghraifft, er y gallai fod yn briodol i chi ddarparu print mawr i ddisgybl a chanddo ddiffyg ar ei olwg, ni fyddai disgwyl i chi fod ag offer Braille yn ei le yn barod.

Beth yw anfantais sylweddol?

Anfantais sy'n fwy nag un bychan neu bitw yw 'anfantais sylweddol'. Caiff lefel yr anfantais a grëir gan ddiffyg addasiadau rhesymol ei fesur o'i gymharu â'r hyn fyddai'r sefyllfa pe na bai gan y disgybl dan sylw anabled.

Bydd yn rhaid i chi ystyried nifer o ffactorau wrth bwysu a mesur pa un a yw'r anfantais yn un sylweddol ai peidio megis:

- Yr amser a'r ymdrech allasai fod angen eu cysegru gan blentyn anabl
- Yr anghyfleustra, y diffyg urddas neu'r anghysur allasai plentyn anabl ei ddiodef

- Y colli cyfle neu'r crebachu ar gynydd allasai ddod i ran plentyn anabl o'i gymharu â chyfoedion nad ydynt yn anabl.

Er enghraifft: Mae Rhian yn fyddar. Fe'i cynghorir gan y cydlynnydd profiad gwaith y byddai'n well iddi aros yn yr ysgol yn hytrach na mynd ar brofiad gwaith gan y gallai fod yn 'rhy anodd' iddi ymdopi ag ef. Nid yw'r ysgol yn gwneud unrhyw gamau i helpu Rhian ddod o hyd i leoliad ac mae'n colli'r cyfle a gaiff gweddill ei dosbarth. Byddai hyn yn anfantais sylweddol.

Y ddyletswydd i newid darpariaeth, maen prawf neu arfer

Ni ddiffinnir y telerau hyn ond yn gyffredinol maent yn ymwneud â sut y mae addysg ynghyd â buddion, cyfleusterau a gwasanaethau eraill yn cael eu darparu ac maent yn cynnwys eich holl drefniadau, polisïau, dulliau gweithredu a gweithgareddau.

Lle bo darpariaeth, maen prawf neu arfer yn gosod disgyblion anabl o dan anfantais sylweddol wrth gael mynediad i addysg ac unrhyw fudd, gyfleuster neu wasanaeth, rhaid i chi gymryd unrhyw gamau ag sy'n rhesymol o dan yr holl amgylchiadau er mwyn sicrhau nad yw'r ddarpariaeth, y maen prawf neu'r arfer bellach yn cael effaith o'r fath. Gallasai hyn olygu hepgor maen prawf neu roi'r gorau i arfer yn gyfan gwbl ond yn aml bydd yn ymwneud ag estyn yr hyblygrwydd a'r ymagweddu unigolyddol y mae'r rhan fwyaf o ysgolion eisoes yn eu dangos yn eu hymwneud â'u disgyblion.

Er enghraifft: Clustnodwyd tri lle i ddisgyblion ysgol gynrychioli'r ysgol mewn cynhadledd genedlaethol i ieuencid ar yr amgylchedd. Mae'r ysgol yn penderfynu cynnal dadl ar y pwnc er mwyn dethol y tri disgybl fydd yn mynd i'r gynhadledd. Mae hyn yn gosod Rhys, sy'n dioddef diffyg ar ei system nerfol, o dan anfantais arbennig gan fod ganddo drafferth cyfathrebu ar lafar. Mae'r ysgol yn cymhwyso'r meini prawf i alluogi Rhys i gyflwyno'i farn a'i syniadau ar y pwnc ar bapur. Mae hyn yn debygol o fod yn addasiad rhesymol ar arfer yr ysgol.

Pryd mae'n rhesymol i ysgol orfod gwneud addasiadau?

Man cychwyn defnyddiol wrth bennu beth fyddai hyd a lled addasiad rhesymol yw ystyried sut i sicrhau bod disgyblion anabl yn gallu ymwneud â phob agwedd ar fywyd ysgol. Yn aml nid yw gwneud addasiadau effeithiol ac ymarferol yn golygu fawr ddim cost nac ymyrraeth.

Er enghraifft:

- Mae athro bob amser yn wynebu'r dosbarth wrth eu hannerch er mwyn sicrhau bod disgybl ag anawsterau clywed yn gallu darllen gwefusau. Dyma enghraifft o addasiad rhesymol syml.
- Mae ysgol gynradd yn cyflwyno system ffrind amser chwarae a mainc cyfeillgarwch sy'n creu man cefnogol a chyfeillgar i ddisgyblion anabl yn ystod amser egwyl. Dyma enghraifft o addasiad rhesymol effeithlon ond hawdd ei gyflawni.

Lle bo disgyblion anabl yn cael eu gosod o dan anfantais sylweddol gan ddarpariaeth, maen prawf neu arfer neu gan absenoldeb cymorth ychwanegol, rhaid i chi ystyried a

ellir gwneud addasiadau rhesymol i oresgyn yr anfantais honno.

Ni ddylech ddisgwyl i ddisgyblion anabl awgrymu addasiadau ond os gwnânt hynny dylech ystyried a fyddai'r cyfryw addasiadau'n gymorth i oresgyn yr anfantais ac a yw'r awgrymiadau'n rhai rhesymol. Arfer da yw i ysgolion gydweithio gyda disgyblion a'u rhieni wrth bennu sut y gellir gwneud addasiadau rhesymol.

2.2 Aflonyddu

Mae yna dri math o aflonyddu sy'n anghyfreithlon o dan y Ddeddf Gydraddoldeb:

- Aflonyddu'n gysylltiedig â nodwedd warchodedig berthnasol
- Aflonyddu rhywiol
- Trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn ymddarostwng i, neu'n ymwrthod ag aflonyddu rhywiol neu aflonyddu'n gysylltiedig â rhyw.

Y nodweddion gwarchodedig perthnasol i'r darpariaethau ar gyfer ysgolion yw:

- Anabledd
- Hil
- Rhyw

Ni warchodir beichiogrwydd a mamolaeth yn uniongyrchol o dan y darpariaethau aflonyddu, ond bydd ymddygiad nas deisyfwyd (fel y disgrifir isod) yn gyfystyr ag aflonyddu yn gysylltiedig â rhyw.

Nid yw'r darpariaethau aflonyddu yn benodol yn cael eu datgan i fod yn gymwys i nodweddion gwarchodedig ailbennu rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred yng nghyd-destun ysgolion. Fodd bynnag, os yw ymddygiad nas deisyfwyd mewn perthynas ag unrhyw un o'r nodweddion gwarchodedig hyn yn golygu bod disgybl yn dioddef anfantais yna byddai hynny'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Aflonyddu parthed nodwedd warchodedig

Mae aflonyddu'n digwydd pan ydych yn ymddwyn mewn modd nas deisyfwyd parthed nodwedd warchodedig berthnasol a diben neu effaith yr ymddygiad hwnnw yw:

- Ymyrryd ar urddas disgybl, neu
- Greu awyrgylch bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu ymosodol i'r disgybl.

Ystyr y geiriau 'nas deisyfwyd' yw bod 'dim croeso' i'r ymddygiad neu ei fod 'heb ei wahodd'. Nid oes angen i'r disgybl ddweud ei fod yn gwrthwynebu'r ymddygiad iddo fod yn ymddygiad nas deisyfwyd.

Yn y cyd-destun hwn mae gan 'parthed' ystyr eang a gall gynnwys sefyllfaoedd lle nad oes nodwedd warchodedig gan y disgybl sy'n dioddef yr ymddygiad nas deisyfwyd, cyn belled ag y bod yna gysylltiad rhwng yr ymddygiad a nodwedd warchodedig. Byddai hyn hefyd yn cynnwys sefyllfaoedd lle bo disgybl yn ymwneud â rhywun sy'n meddu ar nodwedd warchodedig, neu â disgybl yr ystyrir yn anghywir ei fod yn meddu ar

nodwedd warchoddedig benodol.

Er enghraifft: Mae disgybl o gefndir Teithwyr Gwyddelig yn digwydd clywed athro yn gwneud sylwadau hiliol am sipsiwn a theithwyr gan ddatgan y dylai'r safle y maent yn trigo arno gael ei gau i lawr, a'u bod yn "drafferth". Byddai hyn yn gyfystyr ag aflonyddu parthed nodwedd warchoddedig (hil).

Nid yw'r diffiniad o aflonyddu fel y'i disgrifir uchod yn gymwys i'r nodweddion gwarchoddedig ailbennu rhyw, cyfeiriadedd rhywiol neu grefydd neu gred mewn perthynas ag ysgolion. Fodd bynnag, lle bo ymddygiad nas deisyfwyd parthed unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig hyn yn golygu bod disgybl yn dioddef anfantais byddai hynny'n gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol.

Er enghraifft: Yn ystod gwrs datblygiad personol (addysg bersonol a chymdeithasol) mae athro yn defnyddio'r geiriau 'annaturiol' a 'llygredig' i ddisgrifio cyfunrhywiaeth ac yn datgan y bydd ond yn trafod perthynas heterorywiol yn y wers. Mae hyn yn tarfu ar ddisgybl deurywiol yn y dosbarth a chaiff ei ddigio gan sylwadau'r athro. Gallai hyn fod yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

Aflonyddu rhywiol

Mae aflonyddu rhywiol yn digwydd pan fo'ch yn ymddwyn mewn modd nas deisyfwyd a bod yr ymddygiad hwnnw o natur rywiol a chanddo'r diben neu'r effaith o:

- ymyrryd ag urddas disgybl, neu
- greu awyrgylch bygythiol, gelyniaethus, diraddiol, bychanol neu ymosodol i'r disgybl.

Gall 'o natur rywiol' fod yn ymddygiad geiriol, di-eiriau neu gorfforol gan gynnwys dynesu rhywiol nas deisyfwyd, cyffwrdd amhriodol, ffurfiau ar ymosod yn rhywiol, jôcs rhywiol, dangos lluniau neu frasluniau pornograffig, neu anfon e-byst ac ynddynt ddeunydd o natur rywiol.

Er enghraifft: Mae Lowri yn ddisgybl chweched dosbarth. Gofynnir cwestiynau rhy fanwl (intimate) iddi am ei bywyd personol ac mae'n gorfod dioddef ensyniadau rhywiol gan ei hathro. Byddai hyn yn aflonyddu rhywiol.

Trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn ymddarostwng i, neu'n ymwrthod ag aflonyddu rhywiol neu aflonyddu'n gysylltiedig â'i ryw.

Mae'n anghyfreithlon trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd ei fod yn ymddarostwng i, neu'n ymwrthod ag aflonyddu rhywiol neu aflonyddu'n gysylltiedig â'i ryw.

2.3 Fictimeiddio

Diffinnir fictimeiddio yn y Ddeddf fel:

Trin rhywun yn wael oherwydd iddynt gyflawni 'gweithred warchoddedig' (neu oherwydd bod yr ysgol yn credu bod person wedi cyflawni neu'n mynd i gyflawni gweithred warchoddedig).

Ceir darpariaethau fictimeiddio ychwanegol ar gyfer ysgolion sy'n estyn y warchodaeth i ddisgyblion a gaiff eu fictimeiddio oherwydd bod eu rhiant neu chwaer/brawd wedi cyflawni gweithred warchoddedig.

'Gweithred warchoddedig' yw:

- Hawlio neu wneud cwyn am wahaniaethu (o dan y Ddeddf).
- Cynorthwyo rhywun arall i hawlio drwy ddarparu tystiolaeth neu wybodaeth.
- Honni bod yr ysgol neu rywun arall wedi torri'r Ddeddf.
- Gwneud unrhyw beth arall yn gysylltiedig â'r Ddeddf.

Os ydych yn trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd ei fod wedi gweithredu felly yna byddai hyn yn fictimeiddio anghyfreithlon. Rhaid bod yna gysylltiad rhwng beth wnaeth y disgybl (neu'r rhiant neu'r brawd/chwaer) a'ch triniaeth chi ohono.

Nid oes angen i'r driniaeth lai ffafriol hon fod ynghlwm wrth nodwedd warchoddedig.

Er enghraifft: Mae athro yn gweiddi ar Delyth am ei fod yn credu ei bod yn bwriadu cefnogi honiad Lowri iddo aflonyddu arni'n rhywiol. Byddai hyn yn gyfystyr â fictimeiddio.

Pwy na chaiff ei warchod?

Ni fyddai gwarchodaeth rhag fictimeiddio i ddisgybl a ddarparai'n dwyllodrus ffug wybodaeth neu gamdystiolaeth (fyddai'n ffals ac yntau'n gwybod hynny) neu a fyddai'n gwneud haerid ffals a'i gyflwyno'n dwyllodrus. Ni fyddai hyn yn cael effaith ar y gwyn/hawliad (g)wreiddiol cyn belled na wnaed y gwyn/hawliad yn dwyllodrus.

Er enghraifft: Mae gan Dafydd, disgybl mewn ysgol annibynnol ragfarn yn erbyn ei athro ac mae'n fwriadol ddwyn camdystiolaeth wrth i ddisgybl arall wneud hawliad gwahaniaethu yn erbyn yr ysgol. Yn ddiweddarach caiff Dafydd ei eithrio o'r ysgol am gefnogi'r hawliad. Ni fyddai'r driniaeth hon yn gyfystyr â fictimeiddio gan fod ei dystiolaeth yn anwiredd ac wedi ei chyflwyno'n anonest.

Fictimeiddio am weithredoedd rhieni neu frodyr/chwiorydd

Rhaid i chi beidio â thrin disgybl yn llai ffafriol yn sgil rhywbeth y mae ei rieni neu ei frawd/chwaer wedi ei wneud mewn perthynas â gwneud cwyn am wahaniaethu.

Mae rhiant disgybl yn cwyno i'r ysgol fod ei merch yn dioddef gwahaniaethu ar sail rhyw wrth i'r ysgol beidio â gadael iddi gyfranogi o ddsbarth gwaith metel. Os caiff y ferch ei thrin yn llai ffafriol yn sgil y gwyn byddai hyn yn fictimeiddio anghyfreithlon.

Mae hyn yn gymwys i blentyn y gwneir cwyn am y driniaeth a gafodd ac hefyd i unrhyw

blant eraill sy'n ddisgyblion yn yr ysgol. Mae hyn hefyd yn gymwys os ydyw rhiant yn cefnogi cwyn athro yn erbyn yr ysgol o dan Ran 5 y Ddeddf.

Os yw'r wybodaeth neu'r dystiolaeth yn ffals ac wedi ei chyflwyno'n dwyllodrus (hynny yw bod y rhiant/brawd/chwaer yn gwybod ei bod yn ffals) neu os yw'r haerriad yn ffals ac wedi ei gyflwyno'n dwyllodrus yna bydd y warchodaeth hon i'r disgybl yn dal yn gymwys, cyn belled ag y bo'r disgybl heb weithredu'n dwyllodrus.

Er enghraifft: Mae Geraint yn gwneud cwyn yn erbyn ei ysgol gan hawlio ei fod wedi dioddef gwahaniaethu gan aelod o staff oherwydd ei gyfeiriadedd rhywiol. Mae brawd iau Geraint, Aled, yn yr un ysgol, wedi ei warchod rhag triniaeth lai ffafriol gan yr ysgol oherwydd y gwyn hon, hyd yn oed os darganfyddir yn ddiweddarach nad oedd Geraint yn gweithredu'n ddiwyll.

Rhaid bod cyswllt rhwng yr hyn y mae'r rhiant/rhieni neu ei blentyn/eu plentyn wedi ei wneud a'ch triniaeth wael chi o'r plentyn/brawd/chwaer.

Ni raid i'r plentyn sy'n cael ei drin yn wael gael unrhyw nodweddion gwarchodedig.

Nid yw'r ffaith nad yw cwyn/hawliad wedi ei chadarnhau yn golygu bod y gwyn/hawliad yn anonest.

2.4 Rhwymedigaethau i gyn-ddisgyblion

Hyd yn oed wedi i berson adael eich ysgol rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn ei (h)erbyn nac aflonyddu arni/arno na'i fictimeiddio. Mae hyn ond yn gymwys os yw'r gwahaniaethu neu'r aflonyddu yn deillio o, ac â chysylltiad agos â'ch perthynas flaenorol chi ag ef/â hi ac os buasai wedi bod yn anghyfreithlon pe buasai yn dal yn ddisgybl. Er enghraifft, os yw cyn-ddisgybl yn gofyn am eirida gan yr ysgol, byddai'n anghyfreithlon i'r geirida fod yn anffafriol oherwydd nodwedd warchodedig y cyn-ddisgybl, neu oherwydd iddo gyflwyno neu gefnogi cwyn yn erbyn yr ysgol yn ymwneud â gwahaniaethu.

Byddai'r rhwymedigaeth hon i gyn-ddisgyblion yn cynnwys dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer cyn-ddisgyblion anabl pe baent yn parhau i fod o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â chyn-ddisgyblion eraill heb anabled. Mae'r rhwymedigaeth hon ond yn gymwys os yw'r anfantais sylweddol yn deillio o, ac â chysylltiad agos â'r ffaith iddynt fod wedi bod yn ddisgyblion.

Er enghraifft: Mae ysgol yn anfon cylchlythyr blynyddol at gyn-ddisgyblion ac mae un cyn-ddisgybl a chanddo ddiffyg ar ei olwg yn gofyn am gael derbyn y cylchlythyr drwy e-bost yn hytrach nag ar ffurf copi caled. Nid yw'r ysgol yn darparu copi electronig iddo. Mae hyn yn debygol o fod yn fethiant anghyfreithlon i wneud addasiad rhesymol.

Os cred rhywrai fod gwahaniaethu yn eu herbyn yn digwydd wedi iddynt beidio ag astudio gyda chi, gallant gymryd yr un camau i osod pethau'n iawn â phe baent yn dal yn ddisgyblion. Esbonnir y camau hyn yn Adran 6.

2.5 Pryd ydych chi'n gyfrifol am weithredoedd pobl eraill?

Atebolrwydd cyflogeion ac asiantau

Fel cyflogwr yr ydych yn gyfreithiol gyfrifol am weithredoedd o wahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio a gyflawnir gan eich cyflogeion yn ystod eu cyflogaeth neu gan bobl sy'n gweithredu ar eich rhan (asiantau).

Nid oes gwahaniaeth pa un a oedd y gweithredoedd hynny yn hysbys ac yn gymeradwy gennych ai peidio.

Os gallwch ddangos fodd bynnag i chi gymryd pob cam rhesymol i atal y cyflogeion neu'r asiantau rhag gweithredu'n anghyfreithlon, ni chewch eich cyfrif yn gyfreithiol gyfrifol.

Mae'n bwysig eich bod yn cymryd camau i sicrhau bod eich cyflogeion a'ch asiantau yn deall bod yn rhaid iddynt beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion, peidio ag aflonyddu arnynt na'u fictimeiddio, a'u bod yn deall eich dyletswyddau chi mewn perthynas â gwneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl.

Atebolrwydd personol eich cyflogeion a'ch asiantau

Mae cyflogeion (ysgol) yn bersonol gyfrifol am gyflawni eu gweithredoedd gwahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio eu hunain yn ystod eu cyflogaeth, pa un a yw'r cyflogwr yntau yn atebol ai peidio. Fodd bynnag, nid yw cyflogai yn bersonol atebol mewn perthynas â gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

Er enghraifft, mae cynorthwydd dysgu yn gwahaniaethu yn erbyn disgybl ar sail hil. Mae'r ysgol yn gallu dangos iddi gymryd pob cam rhesymol i atal yr aflonyddu ac nad oedd felly'n atebol. Gall y disgybl ddal i wneud honiad o wahaniaethu yn erbyn y cynorthwydd dysgu.

Fodd bynnag, os oedd hwn yn achos o wahaniaethu ar sail anabledd, ni fyddai'r disgybl yn medru gwneud honiad yn erbyn y cynorthwydd dysgu am nad yw'r darpariaethau atebolrwydd personol yn cynnwys gwahaniaethu ar sail anabledd mewn ysgolion.

Os yw'r berthynas yn un lle bo person yn talu i rywun arall weithredu ar ei ran (ei 'asiant') yn hytrach na pherthynas cyflogwr – cyflogai, mae'r asiant yn bersonol gyfrifol yn yr un amgylchiadau.

Bydd cyflogeion neu asiantau yn dal yn gyfrifol am eu gweithredoedd o wahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio hyd yn oed os nad oeddent yn gwybod bod eu gweithredoedd yn anghyfreithlon.

Ond mae yna eithriad i hyn. Ni fydd cyflogai neu asiant yn gyfrifol os yw ei gyflogwr neu brifathro/brifathrawes wedi dweud wrtho nad oes unrhyw beth o'i le ar yr hyn a wna a'i fod ef yn credu'n rhesymol fod hyn yn wir.

Mae'n drosedd, a gosbir drwy ddirwy o hyd at £5,000 i gyflogwr neu brifathro/brifathrawes wneud datganiad ffug er mwyn ceisio cael cyflogai neu asiant i gyflawni gweithred anghyfreithlon.

Fel arfer, ni fydd ysgol yn gyfrifol am wahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio a wnaed gan rywun nad oedd yn gyflogai neu'n asiant iddi. Serch hynny, dengys cyfraith achos ei bod yn bosibl i chi gael eich dyfarnu yn gyfreithiol gyfrifol am fethu gweithredu pan fo gennych rywfaint o reolaeth dros y sefyllfa lle bo achos o ymddygiad tramgwyddus yn parhau, ond ni wnaethoch weithredu i'w atal rhag digwydd eto er eich bod yn gwybod ei fod yn digwydd.

Cyfarwyddo ac achosi gwahaniaethu

Fel ysgol rhaid i chi beidio â chyfarwyddo, achosi nac annog rhywun i wahaniaethu yn erbyn, aflonyddu neu fictimeiddio person arall, nac i geisio gwneud hynny.

Bydd y person sy'n derbyn y cyfarwyddyd a'r hwn a fwriadwyd i fod yn ddiodefeydd ill dau yn gallu hawlio yn erbyn pwy bynnag roddodd y cyfarwyddyd. Mae hyn yn gymwys pa un a weithredwyd y cyfarwyddyd ai peidio, cyn belled ag y bo'r sawl sy'n derbyn y cyfarwyddyd neu'r hwn a fwriadwyd i fod yn ddiodefeydd yn dioddef colled neu niwed yn ei sgil.

Mae ond yn gymwys os yw'r person sy'n darparu'r cyfarwyddyd mewn perthynas gyfreithiol gyda'r person sy'n derbyn y cyfarwyddyd megis cyflogwr a chyflogai neu asiant a phrifathro/prifathrawes.

Bydd Tribiwnlysoedd Cyflogaeth yn ymdrin â chwynion gan gyflogai neu asiant sydd wedi derbyn y cyfarwyddiadau a gall y diodefeydd hawlio yn yr un ffordd ag y byddent yn hawlio ar unrhyw sail arall o dan y Ddeddf. Felly os ydych yn cyfarwyddo aelod o staff i wahaniaethu yn erbyn disgybl ar sail eu rhyw yna gall yr aelod o staff hawlio mewn Tribiwnlys Cyflogaeth a gall y disgybl hawlio mewn llys sirol.

Gall y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol hefyd weithredu yn sgil cyfarwyddiadau anghyfreithlon i wahaniaethu.

Cynorthwyo troseddu

Mae'n anghyfreithlon i chi gynorthwyo rhywun arall i gyflawni gweithred y gwyddoch ei bod yn anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Fodd bynnag, os yw'r person sy'n cynorthwyo wedi cael gwybod gan y person y mae ef neu hi yn ei gynorthwyo fod y weithred yn gyfreithlon ac os yw hi neu ef yn credu'n rhesymol bod hyn yn wir, ni fydd ef neu hi yn gyfreithiol gyfrifol.

Mae'n drosedd, a gosbir drwy ddirwy (ar hyn o bryd) o hyd at £5,000 i wneud datganiad ffug er mwyn cael cymorth person arall i gyflawni gweithred anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Adran 3: Derbyn Disgyblion

3.1 Cyflwyniad

Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn person mewn perthynas â derbyn disgyblion i'ch ysgol. Cyfrifoldeb 'corff cyfrifol' ysgol yw sicrhau na cheir gwahaniaethu mewn perthynas â derbyn disgyblion. Mae hyn yn amrywio yn ôl y math o ysgol ydyw fel y nodir yn [Atodiad B](#).

3.2 Beth ddywed y Ddeddf?

Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn, na fictimeiddio person:

- yn y trefniadau a wnewch wrth benderfynu pwy sy'n cael eu derbyn fel disgyblion
- ran y telerau yr ydych yn eu cynnig er mwyn derbyn y person fel disgybl
- drwy beidio â derbyn y person fel disgybl.

Rhaid i chi beidio ag aflonyddu ar berson sydd wedi ceisio cael ei dderbyn fel disgybl.

Os ydych yn ysgol un rhyw ceir eithriadau ar gyfer derbyn disgyblion sy'n eich galluogi i gyfyngu'r sawl sy'n cael eu derbyn i ddisgyblion o un rhyw. Os ydych yn ysgol o natur grefyddol ceir eithriad ar gyfer derbyn sy'n eich galluogi i gael meini prawf derbyn sy'n ffafrio aelodau o'ch crefydd eich hunain. Esbonnir hyn yn fanylach yn [Adran 3.7](#).

3.3 Sut y mae hyn yn cyd-fynd â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill ysgolion mewn perthynas â derbyn disgyblion

Nid oes unrhyw beth yn Neddf Gydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi nac i awdurdod derbyn ysgol weithredu mewn ffordd sy'n anghyson â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill parthed derbyn disgyblion. Yn wir mae dilyn y Cod Derbyn Disgyblion i Ysgolion ac unrhyw gyfarwyddyd arall gan y llywodraeth yn debygol o leihau'r perygl o wahaniaethu'n anghyfreithlon o dan y ddeddf Gydraddoldeb mewn perthynas â derbyn disgyblion.

Rhaid i'r awdurdodau derbyn disgyblion ar gyfer ysgolion a gynhelir ufuddhau i'r Cod derbyn Disgyblion i Ysgolion a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y Cynulliad sy'n gosod allan y gyfraith parthed derbyn disgyblion i ysgolion.

Ceir canllawiau pellach i ysgolion yn Lloegr a'r Alban yng nghanllaw technegol y Comisiwn at:

- Rhaid i'r **awdurdodau derbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir yn Lloegr** gydymffurfio â Chod Derbyn Disgyblion i Ysgolion a gynhrychir gan yr Adran Addysg sy'n amlinellu'r gyfraith ynglŷn â derbyn disgyblion. Mae gan awdurdodau lleol ran bwysig wrth fonitro cydymffurfiaeth â'r Cod Derbyn Disgyblion ac mae gofyn iddynt adrodd yn flynyddol wrth y Dyfarnwr Ysgolion ar degwch a chyfreithlondeb trefniadau derbyn disgyblion i bob ysgol yn eu rhanbarth, gan gynnwys y rhai maent yn awdurdod derbyn disgyblion iddynt.
- Rhaid i'r awdurdodau derbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir yng Nghymru gydymffurfio â Chod Derbyn Disgyblion i Ysgolion a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru sy'n amlinellu'r gyfraith ynglŷn â derbyn disgyblion. (www.wales.gov.uk).
- Dylai **ysgolion awdurdodau lleol yn yr Alban** gydymffurfio ag unrhyw ganllaw a gynhrychir gan Lywodraeth yr Alban ar dderbyn disgyblion.

3.4 Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu o ran y trefniadau a wnewch wrth benderfynu pwy gaiff ei dderbyn fel disgybl i'ch ysgol

Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae'n ymwneud â phopeth a wnewch mewn perthynas â threfniadau derbyn gan gynnwys:

- Gwybodaeth am yr ysgol a'r broses geisio
- Meini prawf derbyn disgyblion
- Arholiadau mynediad a chyfweliadau.

Sut yr wyf yn osgoi gwahaniaethu yn fy nhrefniadau derbyn disgyblion?

Gwybodaeth am dderbyn disgyblion a'r broses geisio

Ni ddylai gwybodaeth amdanoch chi fel ysgol a sut i geisio am le wahaniaethu drwy awgrymu na ddylid croesawu ceisiadau gan bobl a chanddynt nodweddion gwarchoddedig penodol gan y byddai hyn yn wahaniaethu uniongyrchol. Yn bellach, rhaid i unigolyn â nodwedd warchoddedig berthnasol beidio â chael ei drin yn waeth yn sgil y trefniadau derbyn disgyblion na'r rheini sy ddim yn rhannu'r nodweddion gwarchoddedig, oni bai y gellir cyfiawnhau'r polisi yn wrthrychol.

Mewn perthynas â phobl anabl dylech sicrhau bod modd i bobl anabl gael mynediad i'r wybodaeth ac i'r broses geisio a gwneud addasiadau rhesymol fel y bo gofyn.

Meini prawf derbyn disgyblion

Er y caniateir defnyddio meini prawf derbyn disgyblion rhaid i chi sicrhau nad yw'r meini prawf a ddefnyddir gennych yn gwahaniaethu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn unrhyw un a chanddo/a chanddi nodwedd warchoddedig.

Bydd cael meini prawf sy'n eithrio pobl a chanddynt nodwedd warchoddedig benodol yn wahaniaethu uniongyrchol. Mae gwahaniaethu uniongyrchol bob amser yn

anghyfreithlon.

Gall gwahaniaethu anuniongyrchol ddigwydd os yw meini prawf derbyn yn eithrio cyfran fwy o ddisgyblion o gategoriâu penodol oni allwch ddangos bod eich meini prawf yn ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys.

Dylech hefyd sicrhau na wahaniaethir yn erbyn pobl anabl yn sgil rhywbeth yn codi o ganlyniad i'w hanabledd, heblaw eich bod yn gallu dangos ei fod yn ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys.

Bydd adolygu eich meini prawf derbyn yn gyson yn gymorth i chi sicrhau nad ydynt yn eithrio pobl a chanddynt nodwedd benodol yn ddiotal.

Bydd angen i chi gael trefniadau yn eu lle i ddelio gydag anghenion addasiadau rhesymol ymgeiswyr anabl.

Gallasai enghreifftiau o feini prawf gwahaniaethol gynnwys:

- Pennu cyfrannau digyfnwid o fechgyn neu ferched mewn ysgol gyd-addysgol.
- Dalgylchoedd sy'n eithrio disgyblion yn anghymesur o grwpiau penodol, oni ellir cyfiawnhau hynny (er enghraifft, ar sail agosatrydd i'r ysgol).
- Cymhwyso ffactorau i un grŵp hil nas cymhwysir i grŵp hil arall.
- Defnyddio terfynau gwahanol ar gyfer cyrhaeddiad merched a bechgyn ac ar gyfer plant o wahanol ffydd neu genhedloedd.

Ysgolion sy'n dewis a dethol

Yng Nghymru

- Os ydych yn ysgol sy'n rhannol ddewis a dethol, megis un a chanddi arbenigedd, gallwch ddethol hyd at 10 y cant o ddisgyblion ar sail eu gallu mewn pynciau rhagnodedig.

Yn Lloegr

- Os ydych yn ysgol ramadeg gallwch ddewis a dethol pob disgybl a dderbynnir gennych ar sail gallu academiaidd ac yn aml defnyddio arholiadau mynediad i ddewis eich disgyblion. Rhaid i chi sicrhau nad yw'r asesiadau'n gwahaniaethu, er enghraifft, drwy duedd ddiwylliannol mewn ffordd sy'n eithrio cyfran gryn dipyn yn uwch o ddisgyblion o grŵp hiliol neilltuol.
- Os ydych yn ysgol sy'n rhannol ddewis a dethol, megis un a chanddi arbenigedd, gallwch ddethol hyd at 10 y cant o ddisgyblion ar sail eu gallu mewn pynciau rhagnodedig.

Yn yr Alban

- Os ydych yn ysgol awdurdod addysg, caniateir i chi ddewis a dethol

disgyblion i'w derbyn ar allu dim ond os yw trefniadau o'r fath wedi eu cymeradwyo gan Weinidogion yr Alban.

Yng Nghymru, Lloegr a'r Alban

Os ydych yn ysgol annibynnol, gallwch ddethol disgyblion ar sail eich meini prawf eich hunain a gall hyn gynnwys gallu academaidd.

Os ydych yn ysgol sy'n dewis a dethol, nid ydych yn gwahaniaethu drwy gymhwysu'r dulliau dethol hyn i blant anabl sy'n ceisio ond mae dyletswydd arnoch o hyd i wneud addasiadau rhesymol. Esbonnir hyn yn fanylach isod o dan y pennawd 'dethol disgyblion: dulliau a ganiateir'.

Fel ysgol sy'n dewis a dethol rhaid i chi gymhwysu'r meini prawf dethol yn gyson i bawbsy'n ceisio.

Er enghraifft: Mae ysgol sy'n dewis a dethol yn gosod marc llwyddo uwch i ymgeiswyr o gefndir lleiafrif ethnig, neu i ferched. Byddai hyn yn wahaniaethu uniongyrchol ar sail hil neu ryw.

Mae gan awdurdodau lleol hefyd (yng Nghymru a Lloegr) ac awdurdodau addysg (yn yr Alban) ddyletswydd i sicrhau bod yna lefydd digonol ar gael i ferched a bechgyn sy'n cyrraedd marc llwyddiant ysgolion sy'n dewis a dethol.

Arholiadau mynediad

Os ydych yn ysgol sy'n dewis a dethol (fel y disgrifir uchod) gallwch ddefnyddio arholiadau mynediad neu asesiadau (megis yr 11+) i ddethol y disgyblion yr ydych yn eu derbyn.

Rhaid i'r profion, yr asesiadau neu'r clyweliadau hyn fod yn rhai gwthrychol a rhaid iddynt beidio â gwahaniaethu yn erbyn ymgeiswyr ar sail unrhyw un o'r nodweddion gwarchoddedig.

Rhaid i blant ag anableddau gael mynediad i brofion ac asesiadau a rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl a asesir. Gall hyn olygu gwneud addasiadau rhesymol i'r broses asesu megis sicrhau bod y deunydd profi ar gael mewn cyfrwng a gymhwyswyd, caniatáu amser ychwanegol neu ddarparu ysgrifennydd, yn ôl anghenion unigol y plentyn (gweler [Adran 3.7](#)).

3.5 Rhaid i chi beidio â gosod telerau gwahaniaethol wrth benderfynu a ydych yn derbyn person i'ch ysgol

Beth mae hyn yn ei olygu?

Er nad yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn gosod telerau ar dderbyn person, mae rhai yn gwneud hynny a thra bod gosod telerau ar dderbyn person yn briodol mewn rhai

amgylchiadau (megis talu ffioedd os ydych yn ysgol annibynnol), ni ddylai'r telerau hyn fod yn rhai gwahaniaethol.

Sut ydw i'n osgoi gwahaniaethu mewn perthynas â thelerau derbyn disgyblion?

Dylech sicrhau nad ydych yn cynnig derbyn person a chanddo/a chanddi nodwedd warchoddedig ar delerau llai ffafriol na'r rhai hynny a gynigir neu a fuasai'n cael eu cynnig i rywun heb y nodwedd warchoddedig honno.

Gall enghreifftiau o delerau gwahaniaethol gynnwys:

- Codi ffioedd uwch na rhai merched ar gyfer bechgyn
- Caniatáu i ddisgyblion anabl fynychu'r ysgol ar sail ran amser yn unig pan ganiateir i ddisgyblion eraill fynychu'r ysgol ar sail amser llawn.

Er enghraifft: Mae Gareth yn hoyw. Cynigir lle iddo mewn ysgol annibynnol ar yr amod ei fod yn cuddio'i gyfeiriadedd rhywiol ac yn esgus ei fod yn heterorywiol. Byddai hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

3.6 Rhaid i chi beidio â gwrthod derbyn person fel disgybl am resymau gwahaniaethol

Beth mae hyn yn ei olygu?

Mae peidio â chaniatáu derbyn person oherwydd nodwedd warchoddedig yn anghyfreithlon. Os ydych yn ysgol un rhyw ceir eithriadau ar gyfer derbyn disgyblion i'ch galluogi i gyfyngu mynediad i ddisgyblion o un rhyw yn unig. Os ydych yn ysgol o natur grefyddol mae yna eithriad o ran derbyn disgyblion i'ch galluogi i gael meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion sy'n ffafrio aelodau o'ch crefydd eich hun. Esbonnir hyn yn fanylach yn [Adran 3.7](#).

Sut ydw i'n osgoi gwahaniaethu mewn perthynas â phenderfyniadau derbyn disgyblion?

Os yw eich meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion yn anwahaniaethol (gweler [Adran 3.5](#) uchod) ac os ydych yn eu dilyn yr ydych yn annhebygol o wrthod derbyn person am reswm gwahaniaethol. Dylai'r rheiny sy'n penderfynu pwy sy'n cael eu derbyn fod yn ymwybodol o rwymedigaethau'r ysgol o dan Ddeddf Gydraddoldeb 2010 a gofalu peidio â choleddu rhagdybiaethau am ymgeiswyr allasai arwain at wahaniaethu anghyfreithlon. Dylai unrhyw reswm dros wrthod disgybl fod yn rheswm dilys wedi ei osod allan yn y meini prawf ar gyfer derbyn disgyblion ac ni ddylid gwrthod disgybl am unrhyw reswm arall.

Gallai rhesymau gwahaniaethol gynnwys:

- Gwrthod derbyn disgybl anabl a chanddo anawsterau ymddygiad oherwydd eich bod yn poeni y bydd yn tarfu ar ei gyd-ddisgyblion.
- Gwrthod derbyn plentyn y mae Saesneg yn ail iaith iddo.

Er enghraifft: Mae tiwtor derbyn ysgol annibynnol yn cyfweld Lois, ymgeisydd a chanddi barlys yr ymennydd, sy'n golygu bod ei lleferydd yn aneglur. Mae'r tiwtor yn rhagdybio bod gan Lois hefyd anawsterau dysgu ac mae'n gwrthod ei derbyn gan ei fod yn credu na fydd yn gallu ymdopi ag awyrgylch hynod academiaidd yr ysgol. Byddai hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabled.

3.7 Eithriadau

Derbyn disgyblion i ysgolion un rhyw

Fel ysgol un rhyw fe'ch caniateir i dderbyn disgyblion o un rhyw yn unig ac ni fyddai hyn yn gyfystyr â gwahaniaethu ar sail rhyw. Mae hyn yn gymwys os ydych yn ysgol un rhyw sy'n derbyn disgyblion o'r rhyw arall ar sail eithriadol neu'n caniatáu eu derbyn mewn niferoedd cymharol fychan i gyrsiau neu ddsbarthiadau penodol yn unig. Mae hyn hefyd yn gymwys os ydych yn ysgol gymysg sy'n darparu cyfleusterau preswyllo ar gyfer un rhyw yn unig. Ceir darpariaethau trosiannol arbennig os ydych yn ysgol un rhyw sy'n peidio â bod yn ysgol un rhyw ac yn mynd yn ysgol gyd-addysgol.

Golyga hyn os ydych yn ysgol sy'n derbyn bechgyn yn unig nid ydych yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn merched. Hyd yn oes os caniateir mynediad i ferched rhai aelodau o staff ysgol i fechgyn, yr ydych yn dal i gael eich ystyried fel ysgol un rhyw ac nid ydych yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn merched drwy beidio â chaniatáu mynediad i ferched eraill ac eithrio merched y staff.

Os ydych yn ysgol i fechgyn sy'n caniatáu mynediad i rai merched i'r Chweched Dosbarth, neu sy'n caniatáu merched i gwrs TGAU penodol nas cynigir yn eu hysgol eu hunain yr ydych yn dal i gael eich ystyried fel ysgol un rhyw. Nid ydych yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon os ydych yn gwrthod mynediad i ferched i ddsbarthiadau a chysiau eraill heblaw'r rhai penodol y gwnaethoch eithriad yn eu cylch.

Er enghraifft: Nid yw ysgol i fechgyn sy'n penderfynu caniatáu, fel eithriad, mynediad i ferched i ddsbarthiadau gwyddoniaeth lefel A yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon os yw'n gwrthod mynediad iddynt i ddsbarthiadau astudiaethau cyfryngau neu fathemateg lefel A.

Dim ond ar gyfer y broses o dderbyn disgyblion y mae'r eithriadau hyn yn gymwys. Nid ydynt yn gymwys o ran darparu addysg, cael mynediad i unrhyw fudd, cyfleuster, gwasanaeth nac o ran eithrio disgyblion.

Felly os ydych fel ysgol un rhyw yn caniatáu mynediad i rai disgyblion o'r rhyw arall, rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn eu herbyn wrth ddarparu addysg, nac wrth ddarparu mynediad i unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth na thrwy eu heithrio.

Os ydych yn ysgol gyd-addysgol sydd ond yn caniatáu i aelodau o un rhyw breswyllo yn yr ysgol nid ydych yn gweithredu'n anghyfreithlon drwy beidio â chaniatáu i aelodau o'r ddau ryw breswyllo. Felly os ydych yn ysgol gymysg a chanddi gyfleusterau preswyllo i ferched gallwch ddatgan yn gyfreithlon yn eich prospectws na ellir derbyn bechgyn fel preswylwyr.

Ysgolion o natur grefyddol

Os ydych yn ysgol benodedig o natur grefyddol yr ydych wedi eich eithrio o'r gofyniad i beidio â gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred wrth dderbyn disgyblion. Golyga hyn y gall fod gennych feini prawf sy'n ffafrio aelodau o'ch crefydd eich hun wrth dderbyn disgyblion. Os ydych yn ysgol a gynhelir o natur grefyddol rhaid ichi ddal i gydymffurfio â Chod Derbyn Disgyblion i Ysgol ac felly dim ond ar gyfer pennu pwy gaiff ei d(d)erbyn os ydych wedi eich gordanysgrifio y defnyddir y meini prawf. Yn ymarferol gallasai hynny olygu nad ydych yn gallu gorfodi meini prawf crefyddol, onid ydych wedi eich gordanysgrifio, neu efallai y gallech ddethol eich holl ddisgyblion ar sail grefyddol os ydych wedi eich gordanysgrifio'n drwm.

Nid yw'r eithriad hwn yn caniatáu i chi wahaniaethu ar unrhyw un o'r seiliau gwaharddedig eraill, megis rhyw, hil neu gyfeiriadedd rhywiol.

Er enghraifft: Mae ysgol Fwslemaidd yn rhoi blaenoriaeth i ddisgyblion Mwslemaidd wrth ddewis o blith ymgeiswyr i'w derbyn. Beth bynnag, ni all yr ysgol wahaniaethu rhwng disgyblion yn seiliedig ar nodweddion gwarchoddedig eraill, megis gwrthod derbyn plentyn o'r un ffydd ag eiddo'r ysgol am ei bod hi o darddiad Affricanaidd neu'n lesbiad.

Disgyblion anabl a dethol ar sail gallu neu ddawn academaidd

Os ydych yn ysgol sy'n dewis a dethol ac yn gwneud hynny ar sail gallu neu ddawn academaidd yn unol â'r disgrifiad yn [adran 3.4](#), nid yw'n anghyfreithlon i chi wrth ddethol disgyblion gymhwyso'r un meini prawf i blant anabl sy'n gwneud cais i gael eu derbyn.

Dethol disgyblion: dulliau a ganiateir yng Nghymru a Lloegr yw'r trefniadau dethol disgyblion i'w derbyn a weithredir gan ysgolion gramadeg a dethol ar sail gallu a dawn yn unol â Deddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 fel y nodir yn [adran 3.4](#).

Dulliau dethol disgyblion a ganiateir yn yr Alban yw'r trefniadau hynny a gymeradwyodd Gweinidogion yr Alban.

Felly os yw plentyn ag anawsterau dysgu yn methu arholiad mynediad gallwch wrthod ei gais am fynediad yn gyfreithlon er ei fod wedi methu'r arholiad oherwydd ei fod yn anabl.

Fodd bynnag, rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol a gallai hynny gynnwys wneud addasiadau rhesymol i'r broses asesu er enghraifft, darparu'r papur arholiad mewn ffont mawr ar gyfer disgybl a chanddo ddiffyg ar ei olwg neu ganiatáu ambell seibiant i ddisgybl yn dioddef o ME.

Nid yw'r eithriad o ran dulliau a ganiateir wrth ddewis a dethol yn caniatáu i chi wrthod derbyn unrhyw blentyn anabl, mae ond yn caniatáu i chi wrthod derbyn plentyn y mae ei anabledd yn ei atal rhag bodloni'r lefelau academaidd sy'n ofynnol ar gyfer cael ei dderbyn i'r ysgol.

Adran 4: Darparu addysg a mynediad i unrhyw fudd, gwasanaeth neu gyfleuster

4.1 Cyflwyniad

Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgybl yn eich ysgol wrth ddarparu addysg neu fynediad i unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth. 'Corff cyfrifol' yr ysgol sy'n gyfrifol am sicrhau nad oes yna wahaniaethu mewn perthynas ag addysg nac wrth gael mynediad i unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth. Mae unrhyw gyfeiriad at 'ysgol' yn yr adran hon yn golygu 'corff cyfrifol ysgol'.

4.2 Beth ddywed y Ddeddf?

Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn na fictimeiddio disgybl:

- yn y ffordd yr ydych yn darparu addysg i'r disgybl
- yn y ffordd yr ydych yn rhoi mynediad i'r disgybl i unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth
- drwy beidio â darparu addysg i'r disgybl
- drwy beidio â rhoi mynediad i'r disgybl i unrhyw fudd, cyfleuster neu wasanaeth
- drwy beri unrhyw anfantais arall i'r disgybl

Rhaid i chi beidio ag aflonyddu ar ddisgybl.

4.3 Beth mae hyn yn ei olygu?

Beth sydd wedi ei gynnwys?

Mae eich dyletswydd i ddisgyblion yn cynnwys popeth yr ydych yn ei ddarparu i ddisgyblion ac mae'n mynd y tu hwnt i'r addysg ffurfiol bur yr ydych yn ei ddarparu. Mae'n cynnwys yr holl weithgareddau ysgol megis gweithgareddau all-gwricwlaidd a gweithgareddau hamdden, clybiau wedi ysgol a chlybiau gwaith cartref, gweithgareddau chwaraeon a theithiau ysgol, yn ogystal â chyfleusterau ysgol megis llyfrgelloedd a chyfleusterau Technoleg Gwybodaeth.

Beth sydd heb ei gynnwys?

Cynnwysycwricwlwm

Nid yw'r rhwymedigaethau hyn yn gymwys i unrhyw beth a wneir o ran cynnwys y cwricwlwm. Golyga hyn nad ydych wedi eich cyfyngu o ran ystod y pynciau, y syniadau a'r deunyddiau yr ydych yn eu defnyddio yn eich maes llafur a gallwch

gyflwyno ystyriaethau a syniadau o bob math i ddisgyblion, pa mor ddadleuol bynnag y bônt. Hyd yn oed os yw cynnwys y maes llafur yn tramgwyddo disgyblion a chanddynt nodweddion gwarchoddedig arbennig, ni fydd hyn yn ei wneud yn anghyfreithlon oni chyflwynwyd ef yn y fath fodd nes esgor ar aflonyddu neu ei fod yn peri i ddisgyblion fod yn ddarostyngedig i wahaniaethu neu i anfantais arall.

Er enghraifft: Mae cwricwlwm ysgol yn cynnwys dysgu am esblygiad mewn gwersi gwyddoniaeth. Nid fyddai hyn yn wahaniaethu crefyddol yn erbyn disgybl y mae ei gredoau crefyddol yn cynnwys creadaeth. Er y gallai dysgu am yr holocost frifo teimladau disgyblion Iddewig nid yw'n anghyfreithlon i ysgol gynnwys y pwnc hwn.

Gweithgareddau sy'n digwydd ar safle'r ysgol ond a ddarperir gan rywun arall (nad yw'n gweithredu fel asiant ar ran yr ysgol)

Os defnyddir safle'r ysgol gan sefydliadau eraill i gynnal gweithgareddau neu i ddarparu gwasanaethau heb fod iddynt gyswllt â'r ysgol yna ni fyddwch yn gyfrifol am y gweithgareddau neu'r gwasanaethau a ddarperir, er y gall fod rhwymedigaethau arnoch i aelodau o'r cyhoedd sydd yn defnyddio eich safle yn y cyfryw amgylchiadau.

Er enghraifft: Mae clwb gwyliau'n defnyddio safle ysgol gynradd yn ystod gwyliau ysgol. Mae'r clwb gwyliau'n cael ei redeg gan gwmni preifat heb fod iddo gyswllt â'r ysgol. Nid yw'r ysgol gynradd yn gyfrifol am weithredoedd y clwb gwyliau. Bydd gan y clwb gwyliau rhwymedigaethau o dan y Ddeddf fel darparwr gwasanaeth.

4.5 Sut ydw i'n osgoi gwahaniaethu wrth ddarparu addysg (a buddiannau, gwasanaethau a chyfleusterau)?

Bydd adolygu eich arferion, eich polisiau a'ch dulliau gweithredu yn gymorth i sicrhau nad oes yna wahaniaethu yn erbyn disgyblion a chanddynt nodweddion gwarchoddedig.

Mae hyfforddi staff yn effeithiol yn arf defnyddiol wrth sicrhau bod eich holl staff yn gwbl ymwybodol o ofynion y Ddeddf a'r rhwymedigaethau yn ei sgil i'r addysg a ddarperir ac a gyflwynir gennych. Dylai hyn fod yn gymorth i chi osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon.

Mae trin disgybl yn llai ffafriol oherwydd bod ganddo nodwedd warchoddedig, megis peidio â chaniatáu iddo gyfranogi o weithgaredd arbennig y caniateir i ddisgyblion eraill gyfranogi ohono yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol sydd wastad yn anghyfreithlon.

Er enghraifft: Mae diagnosis o dysfforia rhyw wedi ei bennu ar ddisgybl 16 oed. Mae'r disgybl wedi mabwysiadu enw gwrywaidd drwy weithred newid enw. Mae'r ysgol yn caniatáu i'r newid enw yn ei chofnodion ond yn gwrthod defnyddio unrhyw rhagenwau gwrywaidd o ran y disgybl hwn. Mae hyn yn gwylltio'r disgybl yn fawr. Mae ymdriniaeth o'r fath yn debygol o fod yn gyfystyr â gwahaniaethu uniongyrchol

oherwydd ailbennu rhywedd.

(Yr enghraifft wedi'i darparu gan [Gender Identity Research and Education Society](#).)

Gall gwahaniaethu anuniongyrchol ddigwydd heb ichi fwriadu hynny ond nid yw hyn yn ei atal rhag bod yn anghyfreithlon. Gall gwahaniaethu anuniongyrchol ddigwydd pan fo'ch polisiau, eich meini prawf a'ch arferion yn arwain drwy amryfusedd at drin disgyblion a chanddynt nodwedd arbennig yn waeth na disgyblion eraill.

Er enghraifft:

- Nid yw ysgol ac ynddi nifer o ddisgyblion Mwslemaidd yn darparu bwyd Halal yn ei chantin sy'n golygu na all y disgyblion Mwslemaidd fwyta cinio ysgol. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu anuniongyrchol anghyfreithlon ar sail crefydd neu gred gan nad yw'r ysgol yn debygol o allu cyfiawnhau gweithredu o'r fath.
- Mae ysgol a chanddi gyfran sylweddol o ddisgyblion Iddewig yn trefnu sesiynau drama all gwricwlaidd ar fore Sadwrn. Mae hyn yn debygol o arwain at wahaniaethu anuniongyrchol ar sail crefydd neu gred oni all yr ysgol gyfiawnhau cynnal y sesiynau ar adeg pan na all y disgyblion Iddewig eu mynychu.

Dim ond os yw'r polisi, y maen prawf neu'r arfer yn ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys y gellir cyfiawnhau gwahaniaethu anuniongyrchol.

Er enghraifft: Mae'r un ysgol yn trefnu gemau ysgol ar fore Sadwrn gan mai dyma pryd y chwaraeir y gemau cynghrair lleol. Mae hyn yn debygol o fod yn ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys/cyfreithlon ac felly'n gyfreithlon.

Gall gwahaniaethu yn codi o anabledd disgybl hefyd ddigwydd yn ddiotal os ydych yn trin disgybl anabl yn wael oherwydd rhywbeth yn codi o ganlyniad i'w anabledd ac na allwch gyfiawnhau hyn fel ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys.

Er enghraifft: Nid yw ysgol yn caniatáu i Dylan sy'n HIV gyfranogi o wersi addysg gorfforol am eu bod yn ofni pe bai'n cael anaf y byddai'n berygl i ddisgyblion eraill. Gwahaniaethu anghyfreithlon yw hyn yn seiliedig ar dybiaethau a chamsyniadau yn hytrach nag ar unrhyw risg gwirioneddol .

(Enghraifft yn seiliedig ar wybodaeth a ddarperir gan y National Aids Trust)

Mae angen i chi gael trefniadau yn eu lle i sicrhau eich bod yn mynd i'r afael ag anghenion addasiadau rhesymol eich disgyblion anabl.

Bydd y dyletswyddau cydraddoldeb yn eich helpu i sicrhau bod holl weithgareddau eich ysgol yn anwahaniaethol.

Cyflwyno'r cwricwlwm

Mae'r Ddeddf yn darparu ar gyfer y ffordd y cyflwynir y cwricwlwm felly rhaid i chi sicrhau bod pynciau llosg yn cael eu dysgu mewn modd nad yw'n peri i ddisgyblion

gael eu gwahaniaethu yn eu herbyn. Yn ogystal mae'r hyn a ddysgir yn y cwricwlwm yn dyngedfennol wrth fynd i'r afael â diffyg cyfartaledd allweddol i ddisgyblion gan gynnwys stereoteipio rhyw, atal bwlio, a chodi cyrhaeddiad grwpiau penodol.

Er enghraifft:

- Yn ystod gwrs gwyddoniaeth nid yw athro'n caniatáu i ddisgybl Mwslimaidd ymgymryd ag arbrawf â chemegau gan egluro nad yw am iddo gael syniadau am wneud bomiau. Gwahaniaethu anghyfreithlon ar sail crefydd neu gred fyddai hyn.
- Mae ysgol yn adolygu'r pynciau y mae'n eu cynnwys yn yr Addysg Personol a Chymdeithasol ac yn sicrhau eu bod yn cynnwys cydraddoldeb ac amrywiaeth gan gynnwys cydraddoldeb rhyw a pherthynas ddi-drais, lawn parch rhwng bechgyn a merched, dynion a menywod. Mae hyn yn arfer da.

(Enghraifft wedi ei chymhwyso o un a ddarparwyd gan WNC.)

Dylid annog staff dysgu i feddwl am y ffordd y maent yn cyflwyno'u dysgu i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu'n ddiogel yn erbyn disgyblion.

Er enghraifft: Byddai gofyn i ferched ysgol beichiog fynychu dosbarthiadau i ddarpar rieni yn y coleg lleol ar yr un adeg ag y cynhelir dosbarthiadau TGAU gwyddoniaeth yn wahaniaethu anghyfreithlon uniongyrchol ar sail beichiogrwydd a mamolaeth.

Byddai cynnig y dosbarthiadau ar adeg wahanol fel bod modd i ddarpar rieni, yn fechgyn a merched fynychu'r dosbarthiadau gwyddoniaeth a'r dosbarthiadau rhieni yn arfer da ac yn gymorth i'r ysgol osgoi gwahaniaethu anghyfreithlon.

Opsiynau academaidd

Gall gwahaniaethu anuniongyrchol ddigwydd pan anogir disgyblion a chanddynt nodweddion gwarchodedig penodol i beidio â chyfranogi o gyfleoedd academaidd neu rhag astudio pynciau penodol neu os yw cyfleoedd penodol yn cael eu hyrwyddo gerbron rhai disgyblion ond nid eraill.

Er enghraifft: Er mwyn cynorthwyo disgyblion i ddewis pynciau TGAU mae ysgol yn trefnu sgysiau am yrfâu. Cyflwynir sgws ar yrfâu mewn peirianeg i fechgyn a sgws ar nyrsio i ferched. Mae trefnu sgysiau am yrfâu gyda'r bwriad o wahaniaethu rhwng y rhywiau a hynny wedyn yn atal disgyblion o'r naill ryw neu'r llall rhag gwrandao ar y cyfryw sgysiau yn debygol o fod yn wahaniaethu anghyfreithlon anuniongyrchol ar sail rhyw. Enghraifft o ystrydebu rhyweddol yw hon.

Gallai llunio rhagdybiaethau am allu person i ragori mewn pwnc oherwydd nodwedd warchodedig arwain at wahaniaethu anghyfreithlon.

Teithiau ysgol

Mae teithiau ysgol, gan gynnwys teithiau maes a theithiau preswyl yn aml yn rhan bwysig o fywyd ysgol i ddisgyblion. Dylech geisio sicrhau na fydd unrhyw deithiau yr

ydych yn eu trefnu yn gwahaniaethu yn erbyn unrhyw ddisgybl. Fodd bynnag, mewn rhai achosion cyfyngedig gall fod yn amhosib sicrhau mynediad i'r daith ysgol i'r holl ddisgyblion a dylai anghenion dysgu'r disgyblion eraill fod yn rhan o'r broses benderfynu. Mae'n bosib nad dileu'r daith oherwydd na all disgybl anabl fynd arni gan warafun y profiad i'r disgyblion eraill fyddai'r penderfyniad gorau na'r unig benderfyniad.

Er enghraifft: Mae ysgol yn cynllunio taith i amgueddfa hanes naturiol. Mae Syndrom Down ar Nerys. Fe'i heithrir o'r daith gan fod yr ysgol yn credu na fydd yn gallu cyfranogi o'r gweithgareddau a ddarperir gan yr amgueddfa i grwpiau ysgol. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu anghyfreithlon uniongyrchol ar sail anabled.

Bydd cynllunio rhag blaen yn eich cynorthwyo i drefnu teithiau lle bo pob disgybl yn gallu cyfranogi ohonynt. Gall cynnig ystod o deithiau a gweithgareddau gwahanol hefyd fod yn gymorth i sicrhau nad eithrir unrhyw ddisgyblion o fedru cyfranogi.

Gallai trefnu teithiau preswyl sy'n cyd-daro â gwyliau crefyddol neu wyliau eraill atal disgyblion o rai crefyddau rhag dod ac esgor ar wahaniaethu anuniongyrchol.

Dylai'r asesiadau risg yr ydych yn eu cyflawni mewn perthynas â theithiau ysgol gynnwys ystyriaeth am anghenion addasiadau rhesymol disgyblion anabl ac arfer da yw ceisio ffyrdd o gynnwys y cyfryw ddisgyblion ar deithiau yn hytrach na'u heithrio ohonynt.

Er enghraifft: Fel rhan o'u hasesiad risg ar gyfer taith ysgol i ganolfan weithgareddau awyr agored mae staff ysgol yn ymweld ac yn siarad â staff i benderfynu pa gamau sydd angen eu cymryd i wneud addasiadau rhesymol fel y gall disgyblion anabl gyfranogi'n llawn o'r daith. Mae gan rai disgyblion anawsterau cerdded felly darperir teclynnau codi i'r disgyblion hyn ar gyfer gweithgareddau dringo. Mae staff cynorthwyol yn mynd ar y daith i gynorthwyo disgyblion a chanddynt anghenion pellach ac mae'r holl staff yn derbyn hyfforddiant meddygol. Mae hyn yn enghraifft o wneud addasiadau rhesymol ar gyfer disgyblion anabl ac yn arddangos ymagweddu arfer da tuag at fod yn gynhwysol.

Bwlio ar sail hunaniaeth

Fel ysgol mae gennych ddyletswyddau cyfreithiol i'ch disgyblion mewn perthynas â bwlio a rhaid i chi sicrhau eich bod yn trin bwlio ar sail nodwedd warchoddedig gyda'r un pwyslais ag ar unrhyw ffurf arall ar fwlio.

Er enghraifft: Mae Steffan yn ddisgybl chweched dosbarth. Caiff ei fwlio am fod yn ddeurywiol ac er ei fod yn adrodd am y bwlio wrth yr athro/athrawes ni weithredir o gwbl gan fod yr athro yn credu mai ychydig o gellwair yw'r cyfan a'i fod yn haeddu 'ychydig o dynnu coes' os yw'n mynd i ddweud ei fod yn ddeurywiol. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu uniongyrchol ar sail cyfeiriadedd rhywiol.

Gwisg ysgol

Mae'n bwysig eich bod yn sicrhau nad yw eich polisïau gwisg ysgol yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion a chanddynt nodwedd warchoddedig. Os ydych yn ysgol a gynhelir, dylech fod yn adolygu eich polisïau gwisg ysgol a'ch cod gwisg fel ei gilydd i sicrhau

nad ydynt o ran eu heffaith yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn disgyblion a chanddynt nodwedd warchoddedig ac er mwyn cydymffurfio â'ch dyletswyddau cydraddoldeb.

Dylech ystyried gwneud eithriadau i'ch polisïau safonol yn achos disgyblion penodol ond dylech hefyd sicrhau nad ydych yn gosod rheolau gwahanol i gategorïau gwahanol o ddisgyblion allasai fod yn rhai gwahaniaethol – er enghraifft ei bod hi'n ofynnol i ferched wisgo dillad sy'n llawer drutach nag eiddo bechgyn.

Enghreifftiau o bolisïau a allasai fod yn rhai gwahaniaethol yw:

- Rheol gyffredinol na ddylid gwisgo unrhyw benwisgoedd yn yr ysgol a fyddai'n ei gwneud hi'n ofynnol i ddisgybl Sikh ddiosg ei dwrban.
- Peidio â gwneud addasiadau rhesymol o safbwynt gofynion gwisg ysgol ar gyfer disgyblion anabl y mae angen hynny arnynt, er enghraifft, peidio â chaniatáu i ddisgybl anabl ag alergedd i'r trowsus neilon swyddogol wisgo trowsus cotwm.
- Ei gwneud hi'n ofynnol i ddisgyblion wisgo (neu beidio â gwisgo) mewn ffordd sy'n gwrthdaro ag un o ofynion crefyddol dilys eu crefydd neu eu cred.
- Gofyn i ddisgyblion bod â steil gwallt neilltuol (megis 'byr yn y cefn a'r ochrau') pan fo hyn yn atal steil sydd wedi ei fabwysiadu'n gyffredinol gan grŵp ethnig neilltuol, megis plethi 'cornrow' a ddefnyddir gan fechgyn o dras Affro-Caribiaidd.

Profiad/lleoliadau gwaith

Dylai disgyblion gael yr un cyfleoedd i brofiad a lleoliadau gwaith ac ni ddylid rhagfarnu o ran beth fyddai'n gweddu i ddisgyblion a chanddynt nodweddion gwarchoddedig penodol, er enghraifft rhagdybio mai dim ond bechgyn fyddai'n ymddiddori mewn lleoliadau yn ymwneud â gosod brics neu gynnal a chadw ceir neu mai dim ond merched fyddai'n ymddiddori mewn trin gwallt.

Er eich bod yn annhebygol o gael eich dal yn gyfrifol am wahaniaethu sy'n digwydd tra bo disgybl ar brofiad gwaith, bydd sicrhau cyfathrebu effeithiol gyda darparwyr profiad gwaith a chefnogi disgyblion yn ystod eu lleoliadau yn gymorth i leihau'r perygl o wahaniaethu yn ystod profiad gwaith.

Asesu ac arholi

Yn ogystal ag arholiadau cyhoeddus megis TGAU, sy'n cael eu gosod gan gyrff allanol, byddwch yn asesu disgyblion yn rheolaidd gan ddefnyddio amryfal dulliau. Bydd adolygu eich dulliau asesu yn gymorth i chi sicrhau nad ydych yn gwahaniaethu wrth asesu disgyblion. Gallai rhagdybio unfurfiaeth ym mhrofiadau diwylliannol, ieithyddol, crefyddol neu yn ffordd o fyw disgyblion arwain at wahaniaethu

anuniongyrchol ar eich rhan yn erbyn disgyblion o grwpiau hil penodol.

Gallai fod angen i chi wneud addasiadau rhesymol wrth asesu disgyblion anabl megis darparu amser ychwanegol neu roi egwyl iddynt, neu wneud addasiadau i'r dull asesu megis caniatáu i ddisgybl anabl gyflwyno'i waith ar ffurf y gall gael mynediad iddi.

Ymddygiad a disgyblaeth

Bydd adolygu polisiau ymddygiad a disgyblaeth yn rheolaidd yn eich cynorthwyo i sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu'n ddamweiniol. Gall meddwl am y rhesymau wrth wraidd ymddygiad disgybl eich cynorthwyo i ganfod enghreifftiau o fwlio neu ymddygiad sy'n gysylltiedig ag anabledd. Mae Adran 5 yn ymdrin ag eithrio o'r ysgol.

4.6 Eithriadau

Eithriadau crefydd a chred

Addoli ar y cyd

Ni ddarperir ar gyfer addoli nac unrhyw arfer crefyddol arall a drefnir gennych yn y darpariaethau sy'n gwahardd gwahaniaethu ar sail crefydd pa un a yw'r addoli hwnnw'n rhan o'r cwricwlwm ai peidio.

Golyga hyn eich bod chi (hyd yn oed os nad ydych yn ysgol o natur grefyddol) yn gallu addoli ar y cyd ar sail Gristnogol eang (fel y mae'n ofynnol o dan y ddeddfwriaeth gan ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr) heb i hyn fod yng anghyfreithlon o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Nid yw'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi ddarparu cyfleoedd ar gyfer addoli ar wahân i'r gwahanol grefyddau a chredoau a gynrychiolir ymhlith eich disgyblion.

Yr ydych yn rhydd i drefnu neu gyfranogi o seremonïau a gwyliau sy'n dathlu unrhyw ffydd, megis Nadolig, Diwali, Chanukah neu Eid, heb fod yn ddarostyngedig i honiadau o wahaniaethu ar sail crefydd yn erbyn plant o grefyddau eraill neu blant digrefydd.

Gall rhieni warafun mynediad i'w plant i addoli ar y cyd a gall disgyblion chweched dosbarth yn Lloegr a disgyblion 12 oed a hŷn yn yr Alban ddewis ymneilltuo ohono.

Ysgolion o natur grefyddol

Fel ysgol o natur grefyddol benodedig yr ydych yn cael eich eithrio o'r gofyniad i beidio â gwahaniaethu ar sail crefydd neu gred mewn perthynas â derbyn disgyblion ac wrth ddarparu addysg ac wrth gael mynediad i unrhyw fudd, cyfleuster neu

wasanaeth. Golyga hyn nad oes rhaid i chi fel ysgol o natur grefyddol wneud darpariaeth arbennig ar gyfer disgyblion o ffydd wahanol na chorffori agweddau o'u ffydd yn eich cwricwlwm.

Fodd bynnag, mae'r Ddeddf yn datgan bod rhaid i chi beidio â gwahaniaethu ar unrhyw sail waharddedig. Ni allwch chwaith wahaniaethu ar sail grefyddol drwy eithrio disgybl neu beri iddynt ddiodef unrhyw golled arall.

Os ydych yn cyfleu eich credoau mewn ffordd sy'n golygu brygowthan neu refru ar, neu dafodi disgybl penodol neu grŵp penodol o ddisgyblion yna byddai hyn yn annerbyniol mewn unrhyw amgylchiadau ac yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon.

Ceir rhagor o arweiniad ar y mater hwn ar wefan yr Adran Addysg:

<http://www.education.gov.uk/>

Er enghraifft:

- Mae athro yn yr Eglwys yng Nghymru yn dweud wrth ddisgyblion fod cyfunrhywiaeth yn 'anghywir' ac y bydd pobl hoyw a lesbaidd yn 'llosgi yn uffern' oni chânt eu 'hiacháu o'u clefyd'. Mae disgybl hoyw yn y dosbarth yn cael ei frifo i'r byw a'i ddychryn gan yr ieithwedd elyniaethus a diraddiol hon. Gallai hyn fod yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon ar sail cyfeiriadedd rhywiol.
- Nid yw ysgol Iddewig sy'n darparu cyfarwyddyd ysbrydol neu ofal bugeiliol gan Rabi yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon drwy beidio â darparu'n gyfatebol i ddisgyblion o gredoau crefyddol eraill.
- Nid yw ysgol Babyddol sy'n trefnu ymweliad i ddisgyblion â Lourdes yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon drwy beidio â threfnu taith i Mecca i ddau ddisgybl Mwslemaidd yn yr ysgol.

Byddai ysgol o natur grefyddol yn gweithredu'n anghyfreithlon pe byddai'n ceisio cosbi neu eithrio disgybl am ei fod ef neu hi wedi ymwrthod â ffydd yr ysgol neu wedi ymuno â chrefydd neu enwad gwahanol.

Adran 5: Eithrio o'r ysgol

5.1 Cyflwyniad

Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn na fictimeiddio disgybl drwy ei eithrio (un ai dros dro neu'n barhaol) o'ch ysgol.

5.2 Beth ddywed y Ddeddf?

Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn disgybl drwy eithrio'r disgybl o'r ysgol.
Rhaid i chi beidio â fictimeiddio disgybl drwy eithrio'r disgybl o'r ysgol.

5.3 Sut y mae hyn yn cyd-fynd â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill ysgolion mewn perthynas ag eithrio o'r ysgol

Nid oes unrhyw beth yn Neddf Cydraddoldeb 2010 yn ei gwneud hi'n ofynnol i chi weithredu mewn ffordd sy'n anghyson â rhwymedigaethau cyfreithiol eraill parthed eithrio o'r ysgol. Yn wir y mae dilyn y canllaw i eithrio ac unrhyw ganllawiau eraill gan y llywodraeth yn debygol o leihau'r perygl eich bod yn gwahaniaethu mewn perthynas ag eithrio.

- Rhaid i **Ysgolion a gynhelir yng Nghymru** (gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion) gydymffurfio â'r Canllaw i Eithrio o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion a gynhrychir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael o'u gwefan (www.wales.gov.uk) Mae'r canllaw i eithrio yn ei gwneud hi'n eglur na ddylid eithrio disgyblion o'r ysgol cyn dihysbyddu pob dewis arall ac na ddylid eithrio heblaw ar sail ymddygiad y disgybl. Nid oes unrhyw beth yn y Ddeddf sy'n gwrthdaro'r â'r cyfarwyddyd hwn.
- Rhaid i **Ysgolion a gynhelir yn Lloegr** (gan gynnwys ysgolion gramadeg, Academiâu a Unedau Cyfeirio Disgyblion) gydymffurfio ag *Exclusion from maintained schools, Academies and pupil referral units in England: A guide for those with legal responsibilities in relation to exclusion*. Mae hwn yn amlinellu'r gyfraith o ran eithriadau. Mae'r canllaw i eithrio yn ei gwneud hi'n eglur na ddylid eithrio disgyblion o'r ysgol cyn dihysbyddu pob dewis arall ac na ddylid eithrio heblaw ar sail ymddygiad y disgybl. Nid oes unrhyw beth yn y Ddeddf sy'n gwrthdaro'r â'r cyfarwyddyd hwn.
- Ni raid i **ysgolion annibynnol (heblaw am academiâu)** ddilyn canllaw Llywodraeth Cymru i eithrio. Rhaid iddynt fodd bynnag ufuddhau i'r Ddeddf Cydraddoldeb a pheidio â gwahaniaethu yn erbyn disgyblion drwy eu heithrio neu eu gwneud yn ddarostyngedig i unrhyw golled arall. Rhaid i'w polisïau eithrio beidio â bod yn rhai gwahaniaethol.

- Rhaid i Academiâu gydymffurfio â chanllaw yr Adran Addysg yn yr un modd ag ysgolion a gynhelir yn Lloegr.

5.4 Rhaid i chi beidio a gwahaniaethu yn erbyn disgybl drwy ei eithrio o'r ysgol

Beth mae hyn yn ei olygu?

Nid yw hyn yn golygu na allwch eithrio disgybl a chanddo nodwedd warchoddedig a gall fod adegau wrth gwrs pan fo'n briodol i eithrio disgybl a chanddo nodwedd warchoddedig.

Golyga fodd bynnag fod yn rhaid i chi beidio ag eithrio disgybl oherwydd ei nodwedd warchoddedig.

Er enghraifft:

- Mae ysgol annibynnol yn darganfod bod disgybl wedi derbyn diagnosis ei fod yn awtistig ac yn ei eithrio ar unwaith. Byddai hyn yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon ar sail anabled.
- Mae ysgol Babyddol yn eithrio disgybl sydd wedi troi cefn ar y ffydd Babyddol a datgan ei fod yn anffyddiwr. Byddai hyn yn wahaniaethu uniongyrchol anghyfreithlon ar sail crefydd neu gred.

Rhaid peidio ag eithrio disgyblion a chanddynt nodwedd warchoddedig am ymddygiad na fuasai disgyblion heb y nodwedd warchoddedig yn cael eu heithrio o'i phlegid.

Er enghraifft: Caiff dau ddisgybl eu dal yn ymladd, mae'r naill yn fachgen a chaiff ei eithrio, a'r llall yn ferch ac ni chaiff ei heithrio. Byddai hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail rhyw. Os gallai'r ysgol ddangos fodd bynnag mai'r rheswm pam y cafodd y bachgen ei eithrio oedd oherwydd iddo fynd i drybini am y trydydd tro am ymladd ac mai dyma'r tro cyntaf i'r ferch fod yn ymladd, byddai modd i'r ysgol gyfiawnhau'r gwahaniaeth yn y ffordd y cafodd y ddau ddisgybl eu trin.

Mae hefyd yn golygu na ddylai'r dulliau gweithredu a ddefnyddir gennych wrth benderfynu pa ffurf ar gosb y dylai disgybl ei derbyn ac wrth ymchwilio i ddigwyddiadau fod yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion a chanddynt nodwedd warchoddedig arbennig.

Er enghraifft: Fel rhan o'u dulliau gweithredu wrth ymchwilio a phenderfynu ar gosb, mae ysgol yn trefnu i rieni neu warchodwyr disgyblion ddod i'r ysgol i drafod llwybr gweithredu gyda'r prifathro/brifathrawes. Yn yr achosion hynny lle bo rhieni yn cydweithio gyda'r prifathro/brifathrawes ac i'w gweld yn ymroddedig wrth gynorthwyo'r disgybl i reoli ei ymddygiad mae'n llai tebygol y bydd y disgybl yn wynebu cael ei eithrio.

Gall y dull gweithredu hwn wahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn y disgybl sy'n

Sipsi neu'n Deithiwr y gall ei rieni fod yn llai tebygol o ddod i'r ysgol i siarad gyda'r prifathro/brifathrawes gan eu bod yn wynebu cyfres o rwystrau gan gynnwys diffyg hyder wrth siarad â staff yr ysgol a lefel o ddiffyg ymddiriedaeth yn seiliedig ar ganfyddiad na chânt eu gwerthfawrogi gan gymuned yr ysgol.

Mae'r ysgol yn adolygu ei dulliau gweithredu ac yn gosod mesurau penodol yn eu lle i gynorthwyo'r rhieni o blith y Sipsiwn a'r Teithwyr, gan gynnwys rhaglen estyn allan yn cynnwys aelod ymroddedig o staff i adeiladu ymddiriedaeth gyda'r rhieni fel y gallont ymwneud mwy â chymuned yr ysgol ac ag addysg eu plentyn. Mae hwn yn arfer da a all fod yn gymorth i osgoi gwahaniaethu anuniongyrchol.

Mae eithrio disgybl anabl am ymddygiad sy'n codi yn sgil ei anabledd yn debygol o arwain at wahaniaethu anghyfreithlon ar sail anabledd oni allwch ddangos bod yr eithrio yn ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys.

Er enghraifft: Mae Hedd, disgybl a chyflwr ADHD ganddio yn cael ei eithrio ar sail ei ymddygiad gan gynnwys gwrthod eistedd wrth ei ddesg, tarfu ar ddisgyblion eraill drwy siarad a rhedeg o gwmpas yn ystod gwersi. Cafodd Hedd rybudd o'r blaen ac ni wêl yr ysgol fod ganddi ddewis arall heblaw ei eithrio. Mae hyn yn debygol o fod yn wahaniaethu anghyfreithlon gan ei fod wedi ei eithrio oherwydd ei ymddygiad sy'n gysylltiedig â'i anabledd. Mae'n annhebygol o fod yn ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys gan na wnaed unrhyw ymdrechion eraill i gefnogi Hedd wrth iddo geisio rheoli ei ymddygiad.

Yn ogystal mae arnoch ddyletswydd i ddisgyblion anabl i wneud addasiadau rhesymol i'ch dulliau gweithredu pe bai angen. Gallasai hyn gynnwys:

- diystyru ymddygiad sy'n ganlyniad uniongyrchol i'w hanabledd
- gwneud addasiadau rhesymol er mwyn rheoli ymddygiad o'r fath
- ystyried dulliau amgen, mwy priodol o gosbi, a
- sicrhau bod disgybl anabl yn gallu cyflwyno ei achos yn llawn pan allasai ei anabledd rwystro hyn rhag digwydd

Er enghraifft: Mae Guto, disgybl a chanddo'r syndrom Tourette yn gweiddi ac weithiau'n rhegi'n anfwriadol yn y dosbarth yn sgil ei anabledd. Diystyrir yr ymddygiad hwn gan yr ysgol ac ni chaiff ei gosbi pan fo hyn yn digwydd.

Yn yr enghraifft uchod, mae'r ysgol yn gosod strategaeth gynhwysol yn ei lle ar gyfer y disgybl â'r cyflwr ADHD. Mae hyn yn cynnwys darparu gweithiwr cynhaliol, gweithredu technegau rheoli ymddygiad penodol, a defnyddio dulliau disgyblaeth a gwobrwyo cadarnhaol. Pan fo unrhyw ymddygiad yn ymwneud ag anabledd y disgybl yn digwydd, nid yw'r athro yn ei gosbi ond yn hytrach mae'n defnyddio un o'r strategaethau y cytunwyd arnynt i'w reoli'n effeithlon. Mae'r dulliau hyn o wneud addasiadau rhesymol yn gymorth i'r disgybl reoli ei ymddygiad ac yn gwella ei ganlyniadau addysgol.

Er enghraifft:

- Mae gan Nia anawsterau dysgu ac weithiau mae'n tarfu ar y dosbarth. Fel rhan o strategaeth rheoli ymddygiad gwahaniaethol yr ysgol fe roddir amser iddi tu fas i'r dosbarth i gydweithio gyda'i gweithiwr cynhaliol a'i gwobrwyo'n feunyddiol am ymddygiad da yn hytrach na rhoi penyd cosbedigaethol iddi megis cael ei chadw i mewn.
- Mae ysgol yn dymuno siarad â Huw, sydd ag awtistiaeth, i ddarganfod pam ei fod wedi ymddwyn yn ymosodol tuag at ddisgyblion eraill. Mae Huw yn canfod sefyllfaoedd anghyfarwydd yn stresol tu hwnt ac mae hyn yn cael effaith negyddol ar y ffordd y mae'n cyfathrebu. Er mwyn galluogi Huw i egluro'i weithredoedd yn y ffordd orau bosib, mae'r ysgol yn gweithio gyda'i weithiwr cynhaliol fel ei fod yn barod ar gyfer y cyfarfod, a chynhelir y cyfarfod mewn lle cyfarwydd.

5.5 Sut ydw i'n osgoi gwahaniaethu mewn perthynas ag eithrio disgyblion o'r ysgol?

Bydd adolygu eich polisiau ymddygiad ac eithrio yn rheolaidd yn gymorth i chi sicrhau nad ydynt yn gwahaniaethu'n ddiotal yn erbyn disgyblion a chanddynt nodwedd warchoddedig arbennig drwy gynnwys ffactorau a fyddai'n ei gwneud hi'n fwy tebygol fod disgyblion â'r nodwedd warchoddedig arbennig honno yn cael eu disgyblu neu eu heithrio na'r rhai hynny heb y cyfryw nodwedd.

Gall gwahaniaethu anuniongyrchol ddigwydd os yw polisiau ymddygiad neu eithrio yn esgor ar ddisgyblu neu eithrio cyfran helaethach o ddisgyblion a chanddynt nodweddion gwarchoddedig.

Er enghraifft: Canfyddir bod polisi eithrio cynhwysfawr ysgol o 'dair ergyd ac allan â chi' yn gwahaniaethu'n anuniongyrchol yn erbyn disgyblion o blith Sipsiwn neu Deithwyr. Mae disgyblion o'r cymunedau hyn yn wynebu lefelau eithafol o fwlio wedi ei gymell gan hiliaeth ac maent yn taro'n ôl yn erbyn y bwlio nad oedd yn ei dro wedi cael ei ymchwilio iddo'n ddigonol. Adolygwyd y polisi eithrio cynhwysfawr ac ymchwiliwyd i ddigwyddiadau fesul achos.

Os yw eich polisiau eithrio ac ymddygiad yn anwahaniaethol (ac os ydych yn ystyried eich dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol i'ch polisiau a'ch dulliau gweithredu ar gyfer disgyblion anabl) yna yr ydych yn llai tebygol o eithrio disgybl am reswm gwahaniaethol. Dylai'r rheiny sy'n penderfynu ynghylch disgyblu ac eithrio fod yn ymwybodol o rwymedigaethau'r ysgol o dan y Ddeddf Cydraddoldeb a gofalu peidio â gwneud rhagdybiaethau a allai arwain at wahaniaethu anghyfreithlon.

Bydd y dyletswyddau cyfrifoldeb yn gymorth i chi geisio sicrhau nad yw eich polisiau a'ch dulliau gweithredu yn gwahaniaethu yn erbyn disgyblion.

Er enghraifft: O dan y dyletswyddau cydraddoldeb, mae ysgol yn rheolaidd yn monitro ac yn cloriannu ei data ar eithrio disgyblion a chanddynt nodweddion gwarchoddedig, ac yn canfod bod nifer anghymesur o uchel o ddisgyblion a eithrir un ai dros dro neu'n barhaol yn fechgyn duon ac yn ddisgyblion a chanddynt anawsterau dysgu. Blaenoriaethir polisiau ymddygiad a disgyblaeth yr ysgol ar gyfer asesiad effaith ar gydraddoldeb sy'n datgelu bod rhai agweddau o'r polisi yn gwahaniaethu yn erbyn y disgyblion hyn. Mae hyn yn cynnwys diffyg polisi ymddygiad gwahaniaethol ar gyfer y sawl oedd ar y sbectwm awtistig a'kr rhai a chanddynt anawsterau dysgu cymedrol, a diffyg ymwybyddiaeth a hyfforddi athrawon o ran sut i gefnogi bechgyn duon yn y dosbarth. Yn dilyn yr asesiad effaith cydraddoldeb, datblygir polisi newydd, a chynllun gweithredu a hyfforddiant ar gyfer staff, a gweithredir strategaeth ymddygiad a disgyblaeth ysgol gyfan.

Adran 6: Datrys anghydfod a gorfodi

6.1 Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn egluro'r hyn sy'n digwydd os bydd rhywun yn gwneud cwyn yn eich erbyn a pha gamau cyfreithiol y gallant eu cymryd. Mae hefyd yn egluro pa gamau y gellir eu cymryd i gywiro unrhyw wahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio y canfyddir ei fod wedi digwydd.

6.2 Datrys anghydfod

Mae ceisio datrys anghydfod heb yr angen i fynd i gyfraith er lles pawb fel arfer. Yn aml bydd y disgybl (neu'r rhiant sy'n gweithredu ar ei ran) sy'n credu eich bod wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn ei erbyn yn dod atoch cyn cychwyn camau cyfreithiol. Mae'n debygol y bydd gennych drefn gwyno a ddylai allu ymdrin â chwynion am wahaniaethu, aflonyddu a fictimeiddio. Mae hi'n ofynnol o dan adran 29(1) Deddf Addysg 2002 i gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn Lloegr gael trefn gwyno yn ei lle i ymdrin â phob cwyn yn ymwneud â'r ysgol.

Arfer da yw gwneud disgyblion a rhieni yn ymwybodol o'ch trefn gwyno a sicrhau ei fod ar gael i bawb, er enghraifft, drwy ei baratoi mewn ieithoedd gwahanol ac mewn ffurfiau gwahanol os yw hynny'n briodol.

Mae amddiffyn hawliad yn gallu bod yn faith, yn gostus ac yn draul emosiynol, a gall gael effaith andwyol ar eich enw da. Mae ceisio cywiro pethau cyn bod achos yn cael ei ddwyn yn debygol o fod er lles pawb. Fe fyddwch fodd bynnag yn dymuno penderfynu a oes gan y person sy'n cwyno sail i gwyno neu beidio.

Ystyriwch y wybodaeth a ddarperir yn y canllaw hwn. Bydd angen i chi wneud asesiad realistig o ran a yw yr hyn yr ydych chi neu eich staff a'ch asiantau wedi ei wneud (neu heb ei wneud) yn gyfystyr â gwahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio. Efallai y bydd angen i chi gyflawni ymchwiliad i'r gwyn er mwyn gallu penderfynu. Efallai y bydd angen cyngor cyfreithiol arnoch.

Rhaid i chi wneud addasiadau rhesymol i unrhyw drefn gwyno mewnol er mwyn atal pobl anabl rhag cael eu gosod o dan anfantais sylweddol o'u cymharu â phobl nad ydynt yn anabl. Bydd methu gwneud hyn ynddo'i hun yn gyfystyr â gwahaniaethu anghyfreithlon.

Er bod ceisio datrys anghydfod yn fewnol lle bynnag y bo hynny'n bosib yn arfer da, fel y nodwyd uchod, mae yna adegau pan na fyddo hyn yn ymarferol nac yn briodol, neu bod rhiant neu ddisgybl yn dymuno mynd i gyfraith yn hytrach na datrys yr anghydfod. Does yna ddim gofyniad cyfreithiol i weithredu trefn gwyno yn gyntaf.

Gall rhieni hefyd wneud cwyn i Ofsted ynglŷn ag ysgol a gynhelir os yw'r gwyn yn effeithio ar yr ysgol yn ei chyfanrwydd yn hytrach nag achosion yn ymwneud â disgyblion unigol. Ni wnaiff Ofsted ddelio â chwynion pan fo ateb cyfreithiol amgenach i'r achos.

Gall yr Ysgrifennydd Gwladol roi cyfarwyddiadau, gan ddefnyddio pwerau o dan Ddeddf Addysg 1996, i'w gwneud hi'n ofynnol i ysgol a gynhelir neu i ysgol arbennig nas cynhelir yn Lloegr o dan y Ddeddf Cydraddoldeb. Mae hyn yn galluogi'r Ysgrifennydd Gwladol ei gwneud hi'n ofynnol i ysgol roi'r gorau i arfer neu bolisi gwahaniaethol hyd yn oed oni ddygwyd cwyn gan ddisgybl neu ddarpar ddisgybl unigol. Yng Nghymru, mae pwerau gan awdurdodau lleol a Gweinidogion Cymreig i ymyryd mewn amgylchiadau o'r fath.

Yn wir, gallai cael gwybodaeth cyn cyflwyno cwyn (a esbonnir yn [Adran 6.5](#) isod) ddatrys anghydfod heb fod angen gweithredu pellach.

6.3 Cymodi/cyfyngu

Oni ellir datrys yr anghydfod drwy eich trefn gwyno fewnol yna ceir amryfal wasanaethau cyfyngu a chymodi a allasai eich cynorthwyo i ddatrys yr anghydfod.

Gwasanaethau datrys anghydfod awdurdodau lleol

Rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr gael gwasanaethau annibynnol yn eu lle i ddatrys unrhyw anghydweld a all godi rhwng rhieni ac ysgolion (ac yng Nghymru i ddelio ag anghydfodau rhwng disgyblion ac ysgolion) mewn perthynas âg anghydfodau anghenion addysg arbennig, ac mewn rhai achosion mae'r gwasanaethau hyn ar gael i helpu datrys anghydfodau eraill.

Yng Nghymru, mae gofyn i awdurdodau lleol yn benodol i fod â gwasanaethau datrys anghydfod yn eu lle ar gyfer anghydfodau rhwng disgyblion anabl ac ysgolion.

6.4 Yn lle y mae cychwyn hawliad?

Oni chaiff y mater ei ddatrys drwy'r drefn gwyno fewnol neu drwy gyfyngu yna gallai disgybl (neu ei riant) benderfynu mynd i gyfraith yn eich erbyn. Mae'r fan lle y bydd y disgybl (neu'r riant) yn hawlio yn dibynnu ar y math o wahaniaethu (aflonyddu neu fictimeiddio) y mae'n honni ei fod wedi digwydd.

Os hawliar mewn perthynas ag unrhyw nodwedd warchoddedig heblaw anabledd bydd yn digwydd mewn llys sirol (yng Nghymru a Lloegr) neu llys y sir yn yr Alban. Ceir mwy o fanylion am hawlio mewn llysoedd sirol yn [Adran 6.6](#).

Yn yr Alban caiff hawliadau o wahaniaethu ar sail anabledd eu cyflwyno gerbron Tribiwnlysoedd Anghenion Cymorth Ychwanegol (ASNTS). Ceir rhagor o fanylion ynglŷn â hawliadau i ASNTS yn [Adran 6.7](#).

Gwneir hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yng Nghymru a Lloegr yn unol â'r tabl canlynol:

<p>Hawlio ynghylch eithrio parhaol o ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol, gan gynnwys ysgolion cymunedol, ysgolion cynhorthwy gwirfoddol, ysgolion a reolir yn wirfoddol ac ysgolion gwaddoledig ac Academiâu</p>	<p>Paneli Apêl Addysg yng Nghymru</p> <p>Yn Lloegr, Tribiwnlys Haen-gyntaf (Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd) Fodd bynnag, nid yw awdurdodaeth y Tribiwnlys yn atal Paneli Apêl Addysg rhag ystyried materion gwahaniaethu ar sail anabledd.</p>
<p>Penderfyniadau ynghylch derbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir gan awdurdodau addysg lleol, gan gynnwys ysgolion cymunedol, ysgolion cynhorthwy gwirfoddol ac ysgolion a reolir yn wirfoddol ac ysgolion gwaddoledig ac Academiâu</p>	<p>Paneli Apêl Addysg</p>
<p>Pob math arall ar hawlio (gan gynnwys pob hawliad yn erbyn ysgolion annibynnol) yng Nghymru</p>	<p>Tribiwnlys Anghenion Addysg Arbennig i Gymru</p>
<p>Pob math arall ar hawlio (gan gynnwys pob hawliad yn erbyn ysgolion annibynnol) yn Lloegr</p>	<p>Tribiwnlys Haen-gyntaf (Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd)</p>

Darperir rhagor o fanylion am hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn [Adran 6.8](#)

6.5 Yr egwyddorion cyffredinol sy'n gymwys i achosion o wahaniaethu a ddygir gerbron llys, tribiwnlys neu banel apêl

Caffael gwybodaeth

Os bydd rhywun yn teimlo iddo/iddi gael ei (g)wahaniaethu yn ei (h)erbyn, ei (h)aflonyddu arno/arni neu ei fictimeiddio oherwydd nodwedd warchoddedig, gall geisio cael gwybodaeth oddi wrthyich i'w helpu i benderfynu a oes ganddo/i sail ddilys i hawlio ai peidio.

Pan fo'r hawliad ynglŷn â rhywbeth a ddigwyddodd cyn 6 Ebrill 2014, mae gweithdrefn gwestiynau benodol gyda ffurflen holiadur i'r diben o ategu'r broses. Nid oes rhaid defnyddio'r ffurflen, ar yr amod y gofynnir yr un cwestiynau. Onid ydych yn ymateb i'r holiadur o fewn wyth wythnos, yna gall y llys neu'r tribiwnlys ystyried hynny wrth ddod i ddyfarniad. Gall y llys neu'r tribiwnlys hefyd ystyried atebion sy'n osgoi'r cwestiwn neu sy'n aneglur, ac eithrio lle bo unrhyw ateb arall yn debygol o ragfarnu mater troseddol.

Diddymwyd y weithdrefn gwestiynau set a'r holiadur ar 6 Ebrill 2014 er byddan nhw'n parhau i fod yn berthnasol i gwynion am ddigwyddiadau cyn y dyddiad hwnnw.

Ar gyfer cwynion ynglŷn â digwyddiadau ar 6 Ebrill 2014 ac wedyn, bydd o hyd yn arfer dda i'r rheini sy'n meddwl eu bod efallai wedi dioddef gwahaniaethu, aflonyddu neu fictimeiddio anghyfreithlon yn ôl cyfraith gydraddoldeb i geisio am wybodaeth berthnasol cyn mynd i gyfraith yn ffurfiol ac i chi ymateb mor drylwyr ag y gallwch. Gallai hyn atal i'r hawliad waethygu rhag dod yn hawliad ffurfiol.

Mae Swyddfa Cydraddoldebau'r Llywodraeth wedi cyhoeddi canllaw arfer dda ar ofyn ac ymateb i gwestiynau am wahaniaethu wrth ddarparu gwasanaethau a swyddi cyhoeddus gan gynnwys gwasanaethau addysg. Fe'i geir at <https://www.gov.uk/government/publications/asking-and-responding-to-questions-of-discrimination-in-the-provision-of-goods-and-services-and-public-functions>

Mae'r canllaw hwnnw yn egluro'n glir y dylech drin unrhyw gwestiynau o ddifrif ac yn brydlon a pheidio â'u hanwybyddu. Gall cwestiynau ac atebion ffurfio rhan o'r dystiolaeth mewn achos a chafodd ei ddwyn o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

6.6 Hawlio yn y llys sirol

Mae hawlio o bob math ac eithrio'r math sy'n ymwneud â gwahaniaethu ar sail anabledd yn digwydd mewn:

- llys sirol yng Nghymru a Lloegr
- llys y sir yn yr Alban

Gallwch ddod o hyd i ragor o wybodaeth am ddulliau gweithredu yn y llys sirol ar y wefan at www.hmcourts-service.gov.uk ac am ddulliau gweithredu yn llys y sir at www.scotcourts.gov.uk/sheriff/index.asp

Os ydych yn awdurdod cyhoeddus, gallai rhywun sy'n dymuno gwneud hawliad gwahaniaethu ddod â hawliad hefyd ar gyfer adolygiad barnwrol yn yr Uchel Lys yng Nghymru a Lloegr neu'r Llys Sesiwn yn yr Alban. Mae dulliau gweithredu a therfynau amser gwahanol yn berthnasol i hawliadau o'r fath.

Pwy sy'n gallu hawlio?

Gall unrhyw un hawlio i lys sirol neu lys y sir os credant eich bod wedi gwahaniaethu yn eu herbyn, wedi aflonyddu arnynt neu eu fictimeiddio. Yng Nghymru a Lloegr bydd yn rhaid i berson heb y gallu meddyliol neu sydd o dan 18 hawlio drwy 'gyfar llys' sef oedolyn a benodir i weinyddu'r hawlio ar ei r(h)an (yn aml, ond nid bob amser, rhiant fydd hwnnw/honno). Yn yr Alban, gallai rhiant wneud hawliad ar ran eu plentyn i fyny at 16 oed. Gallai fod hawl gan riant hefyd i wneud hawliad ar ran plentyn sy'n hŷn na 16 oed pan nad oes y gallu cyfreithiol ganddo i wneud hawliad. Gall disgyblion sy'n 16 oed neu hŷn wneud hawliad drostynt eu hunain. Mae gan blentyn sy'n ifancach na 16 oed yr hawl i wneud hawliad dros ei hunan os oes dealltwriaeth ac aeddfedrwydd digonol ganddo i wneud felly. Tybir y bod gan blentyn 12 oed neu hŷn ddealltwriaeth ac aeddfedrwydd digonol i gyfarwyddo cyfreithiwr mewn achosion cyfreithiol o'r fath. Pan fo gan y plentyn a'r rhiant yr hawl i wneud hawliad, gall y naill neu'r llall wneud felly.

Cyfyngiad amser

Rhaid cychwyn hawliad o fewn chwe mis i'r gwahaniaethu honedig (a'i gyflwyno ar yr ysgol yn yr Alban). Lle bo gwahaniaethu'n broses barhaus sydd wedi digwydd dros gyfnod o amser, mae'r chwe mis yn cychwyn ar ddyddiad y weithred wahaniaethol diwethaf. Mae gan lysoedd yr hawl i roi ystyriaeth i hawlio a wnaed y tu hwnt i'r cyfnod chwe mis os ydynt yn ystyried ei bod yn deg gwneud hynny.

Unioni cam

Gall llys sirol neu lys y sir :

- Ddatgan eich bod wedi gwahaniaethu'n anghyfreithlon yn erbyn, wedi aflonyddu neu wedi fictimeiddio'r person sy'n hawlio, neu ddatgan nad oes yna wahaniaethu anghyfreithlon, aflonyddu neu fictimeiddio wedi digwydd.
- Osod gorchymyn (yng Nghymru a Lloegr) neu declyn neu waharddiad penodol (yn yr Alban) yn gofyn i chi wneud rhywbeth (megis derbyn y plentyn fel disgybl) neu er mwyn eich atal rhag ailadrodd unrhyw weithred wahaniaethol yn y dyfodol.
- Eich gorchymyn i dalu iawndal gan gynnwys iawndal am frifo teimladau.
- Eich gorchymyn i dalu llog ar unrhyw iawndal.
- Orchymyn y naill ochr neu'r llall i dalu costau.

6.7 Hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd yn yr Alban

Pa achosion o hawlio y gall y Tribiwnlys eu gwranddo?

Gall y Tribiwnlysoedd Anghenion Cymorth Ychwanegol glywed bob math o hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion.

Terfynau amser

Rhaid i hawliad gael ei gyflwyno i'r Tribiwnlys Anghenion Cymorth Ychwanegol yn yr Alban cyn pen chwe mis namyn diwrnod o'r dyddiad y digwyddodd y gwahaniaethu honedig. Pan fu'r gwahaniaethu yn digwydd yn barhaus dros gyfnod o amser, bydd y cyfnod chwe mis yn dechrau ar y dyddiad pan ddigwyddodd y gwahaniaethu diwethaf. Mae disgrisiwn gan y Tribiwnlys i ystyried hawliad a gyflwynwyd y tu hwnt i'r cyfnod chwe mis os ydyw o'r farn ei bod yn deg i wneud felly.

Yr hyn y gall Tribiwnlys ei orchymyn?

Caniateir i Tribiwnlys wneud unrhyw orchymyn sydd yn ei dyb ef yn berthnasol i'r achos unigol hwnnw, yn aml gyda'r bwriad o geisio unioni'r niwed a wnaed i'r unigolyn anabl a lleihau unrhyw anfantais yn y dyfodol.

Ni all y Tribiwnlys orchymyn iawndal ond gall orchymyn yr ysgol i ymddiheuro wrth y disgybl, i hyfforddi ei staff a/neu newid ei pholisïau a gweithdrefnau.

Pwy all wneud hawliad?

Gall rhiant plentyn anabl wneud hawliad bod ei blentyn wedi dioddef gwahaniaethu.

Gall disgybl anabl a'r gallu ganddo i wneud hawliad wneud felly os dioddefodd wahaniaethu. Tybir y bod gan blentyn 12 oed neu hŷn allu.

Dulliau gweithredu Tribiwnlys

Mae'r rheolau sy'n gymwys i weithdrefnau Tribiwnlys ar wefan y Tribiwnlys (www.asntscotland.gov.uk).

6.8 Hawliadau Tribiwnlys yn ymwneud â gwahaniaethu ar sail Anabledd yng Nghymru a Lloegr

Pa achosion o hawlio y gall y Tribiwnlys eu gwranddo?

Clywir achosion o hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion yng Nghymru gan Dribiwnlys Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, ac yn Lloegr gan y Tribiwnlys Haen Gyntaf (Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd) ac eithrio achosion o hawlio yn ymwneud â:

- Phenderfyniadau derbyn ysgolion a gynhelir ac Academau (clywir y rhain gan baneli apêl derbyn disgyblion a drafodir yn ddiweddarach yn [Adran 6.9](#)) neu
- eithrio parhaol o ysgolion a gynhelir ac Academau yng Nghymru, (clywir y rhain gan baneli apêl eithrio disgyblion a drafodir yn ddiweddarach yn [Adran 6.10](#)) Yn Lloegr, mae awdurdodaeth gan y Tribiwnlys i ystyried hawliadau gwahaniaethu ar sail anabledd yn ymwneud ac eithrio parhaol, er na atelir paneli apêl eithriadau rhag ystyried y materion hyn hefyd.

Clywir pob hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn ysgolion annibynnol gan Dribiwnlys Addysg Anghenion Arbennig Cymru a chany Tribiwnlys Haen Gyntaf (Anghenion Addysg Arbennig ac Anabledd) yn Lloegr. Mae unrhyw gyfeiriad at 'tribiwnlys' yn yr adran hon yn cynnwys cyfeiriad at y ddau dribiwnlys.

Cyfyngiad amser

Rhaid hawlio o fewn chwe mis i'r gwahaniaethu honedig. Lle bo proses barhaus o wahaniaethu'n digwydd dros gyfnod o amser, mae'r chwe mis yn cychwyn ar ddyddiad y weithred wahaniaethol diwethaf.

Yng Nghymru, mae darpariaeth ar gyfer ymestyn y cyfnod amser am dri mis ychwanegol pan gyfeirir anghydfod at y gwasanaeth datrys anghydfod annibynnol sydd gofyn i awdurdodau lleol ei gael yn ei le ar gyfer datrys anghydfodau rhwng disgyblion anabl ac ysgolion.

Gall y Tribiwnlys (ond ni raid iddo) ystyried achos o hawlio y mae ei amser wedi dirwyn i ben.

Mae rheoliadau'r Tribiwnlys yn pennu faint o amser sydd ei angen ar gyfer prosesu a gwranddo achosion o hawlio gan gynnwys y terfyn amser ar gyfer anfon rhagor o wybodaeth ac o dystiolaeth. Mae'r wybodaeth hon ar gael ar wefan y Tribiwnlys ac mewn cyfarwyddyd a gynhyrchir gan y Tribiwnlys. (Gweler www.tribunals.gov.uk a www.sentw.gov.uk.)

Beth gall y Tribiwnlys ei orchymyn?

Gall y Tribiwnlys wneud unrhyw orchymyn y tybia ei fod yn briodol yn yr achos unigol arbennig hwnnw, yn aml â'r bwriad o wneud yn iawn am y niwed a wnaed i'r person anabl ac er mwyn lleihau unrhyw anfantais yn y dyfodol.

Ni all y Tribiwnlys orchymyn talu iawndal ond fe all eich gorchymyn i ymddiheuro i ddisgybl, gyflawni hyfforddiant staff a/neu i newid eich polisïau a'ch dulliau gweithredu.

Pwy all hawlio?

Yng Nghymru mae darpariaeth ar gyfer plentyn anabl ei hun i ddwyn achos am wahaniaethu ar sail anabledd yn y Tribiwnlys mewn rhai ardaloedd. Arhynobryd dim ond mewn dau gynllun arbrofol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam a Chyngor Sir Gaerfyrddin y mae hyn yn bosibl. Disgwylir y bydd hyn yn bosibl ar draws Cymru o 30 Mehefin 2015 ymlaen.

Yn Lloegr, dim ond riant plentyn anabl all wneud hawliad bod ei blentyn wedi dioddef gwahaniaethu.

Ni all plentyn wneud hawliad ar ran ei hun.

6.9 Hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn penderfyniadau derbyn disgyblion i ysgolion yng Nghymru a Lloegr a gynhelir

Paneli apêl derbyn disgyblion

Mae paneli apêl derbyn disgyblion yn baneli apêl annibynnol wedi eu sefydlu (gan awdurdod derbyn yr ysgol) i wrando achosion o apelio yn erbyn penderfyniadau derbyn disgyblion i ysgolion a gynhelir ac Academiâu. Maent hefyd yn ymdrin ag achosion o hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas â phenderfyniadau derbyn i ysgolion a gynhelir ac Academiâu.

Ni allant ymdrin ag achosion o wahaniaethu mewn perthynas ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill; caiff y rhain eu trafod gan y llysoedd (gweler [Adran 6.6](#)).

Ni allant wrando achosion o hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd o ran penderfyniadau derbyn ysgolion annibynnol: clywir y rhain gan Dribiwnlysoedd (gweler [adran 6.8](#))

Ni allant wrando achosion o hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd o ran trefniadau derbyn nac o ran telerau a osodir ar dderbyn person: clywir y rhain gan Dribiwnlysoedd (gweler [Adran 6.8](#)).

Cyfyngiad amser

Trefnir yr achosion o apelio gan awdurdodau derbyn yn dilyn penderfyniadau derbyn a'r rhain sy'n gyfrifol am amserlen yr achosion o apelio. Hysbysir rhieni o'r cyfyngiad amser a'r dulliau gweithredu ar yr un adeg ag y'u hysbysir am y penderfyniad derbyn.

Beth all y panel ei orchymyn?

Gall panel apel derbyn wyrdroi'r penderfyniad a'ch gorchymyn i dderbyn y plentyn.

Pwy all hawlio?

Gall rhiant plentyn anabl apelio yn erbyn y penderfyniad (a hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd).

Yn achos penderfyniad am addysg chweched dosbarth mae gan berson ifanc a/neu ei r(h)iant hawl i apelio (ac felly mae ganddynt le i hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd) yn erbyn y penderfyniad.

Dulliau gweithredu yng Nghymru

Mae'r rheolau a'r dulliau gweithredu ar gyfer paneli apêl derbyn disgyblion wedi eu gosod allan yn fanwl yng Nghod Apelio Derbyn Disgyblion i Ysgolion a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru sydd ar gael ar eu gwefan (www.cymru.gov.uk).

Dulliau gweithredu yn Lloegr

Mae'r rheolau a'r dulliau gweithredu ar gyfer paneli apêl derbyn disgyblion wedi eu gosod allan yn fanwl yng Nghod Apelio Derbyn Disgyblion i Ysgolion a gynhyrchir gan yr Adran Addysg sydd ar gael ar eu gwefan (www.education.gov.uk).

6.10 Hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd yn erbyn eithrio parhaol o ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr

Paneli Apêl Annibynnol (ar gyfer eithrio)

Paneli wedi eu sefydlu gan awdurdodau lleol yw Paneli Apêl Annibynnol er mwyn gwrandao achosion o apelio yn erbyn eithrio parhaol o ysgolion a gynhelir, gan gynnwys Unedau Cyfeirio Disgyblion ac Academiâu. Maent hefyd yn ymdrin ag achosion o hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag eithrio parhaol o ysgolion a gynhelir, Academiâu ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, er yn Lloegr gellir cyflwyno hawliad hefyd i Dribiwnlys.

Ni allant ymdrin ag achosion o hawlio gwahaniaethu mewn perthynas ag unrhyw nodweddion gwarchoddedig eraill; ymdrinnir a'r rhain gan y llysoedd (gweler [Adran 6.6](#)).

Ni allant ymdrin ag achosion o hawlio gwahaniaethu mewn perthynas ag eithrio parhaol o ysgol annibynnol, y Tribiwnlys sy'n gwrandao'r rhain (gweler [Adran 6.8](#))

Ni allant wrando achosion o hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd mewn perthynas ag eithrio tymor penodol; y Tribiwnlys sy'n gwrandao'r rhain (gweler [Adran 6.8](#)).

Cyfyngiad amser

Hawliwr fel rhan o'r apêl yn erbyn eithrio parhaol ac felly fe'i gwneir ar yr un pryd. Y terfyn amser yw 15 diwrnod ysgol o ddyddiad cael penderfyniad Pwyllgor

Disgyblu'r Corff Llywodraethol.

Rhaid i'r gwrandawriad Panel Apêl Annibynnol ddigwydd dim hwyrach na'r 15fed diwrnod ysgol wedi cyflwyno'r apêl. Yn Lloegr, pan fo hawliad gwahaniaethu ar sail anabledd yn cael ei wneud hefyd i'r Tribiwnlys, ni ddylai gwrandawriad y Panel Apêl Annibynnol gael ei oedi. Gallai'r Tribiwnlys fodd bynnag ohirio ystyried yr hawliad nes i broses y panel ddod i ben.

Beth all y panel ei orchymyn?

Gall Panel Apêl Annibynnol:

- gadarnhau'r eithrio
- Argymhell y dylai'r corff llywodraethu ailystyried eu penderfyniad, neu
- Mewn amgylchiadau cymharol gyfyng, wyrdroi'r penderfyniad a chyfarwyddo'r corff llywodraethu i ystyried yr eithrio eto.

Pwy all hawlio yng Nghymru?

Gall rhiant plentyn anabl apelio (a hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd) yn erbyn eithrio'i blentyn/phlentyn yn barhaol o ysgol a gynhelir neu o Uned Cyfeirio Disgyblion.

Gall disgybl anabl a oedd yn 11 mlwydd oed (neu'n hŷn) ar ddechrau blwyddyn ysgol apelio a hawlio.

Pwy all hawlio yn Lloegr

Gall rhiant plentyn anabl apelio (a hawlio gwahaniaethu ar sail anabledd) yn erbyn eithrio'i blentyn/phlentyn yn barhaol o ysgol a gynhelir, Academi neu o Uned Cyfeirio Disgyblion.

Gall disgybl anabl 18 oed neu hŷn apelio (a gwneud hawliad o wahaniaethu ar sail anabledd) yn erbyn y penderfyniad i'w eithrio'n barhaol o ysgol a gynhelir neu Uned Cyfeirio Disgyblion neu Academi.

Dulliau gweithredu yng Nghymru

Mae'r rheolau a'r dulliau gweithredu ar gyfer Paneli Apêl Annibynnol wedi eu gosod allan yn Rhan 4y Cyfarwyddyd i Eithrio o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru ac mae ar gael ar eu gwefan (www.wales.gov.uk)

Dulliau gweithredu yn Lloegr

Mae'r rheolau a'r dulliau gweithredu ar gyfer Paneli Apêl Annibynnol wedi eu gosod allan yn *Exclusions from maintained schools, Academies and pupil referral units in England: A guide for those with legal responsibilities in relation to exclusion.*

Adran 7: Ysgolion sy'n darparu addysg bellach

7.1 Cyflwyniad

Fel ysgol sy'n darparu cyrsiau addysg bellach rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn, aflonyddu ar, na fictimeiddio person sydd wedi cofrestru ar gwrs neu sy'n ceisio cofrestru ar gwrs.

Yn wahanol i'ch rhwymedigaethau i'ch disgyblion, mae eich rhwymedigaethau i bobl sydd wedi cofrestru ar gyrsiau addysg bellach yn cynnwys oedran fel nodwedd warchoddedig.

Er enghraifft: Mae ysgol yn cynnig cwrs addysg bellach mewn plymwaith ond yn ei gyfyngu i bobl iau na 55. Byddai hyn yn wahaniaethu anghyfreithlon ar sail oed oni allai'r ysgol ddangos ei fod yn ffordd gymesur o gyrraedd nod dilys. (Yn wahanol i'r nodweddion gwarchoddedig eraill, mae modd cyfiawnhau yn y ffordd hon wahaniaethu uniongyrchol ar sail oed).

7.2 Beth ddywed y Ddeddf?

Rhaid i chi beidio â gwahaniaethu yn erbyn na fictimeiddio person:

- yn y trefniadau a wnewch wrth benderfynu pwy a gofrestrir ar y cwrs
- ran y telerau yr ydych yn eu cynnig i gofrestru person ar y cwrs
- drwy beidio â derbyn cais person i gofrestru
- yn y gwasanaethau a ddarperir neu a gynigir gennych i berson sydd wedi cofrestru ar y cwrs.

Rhaid i chi beidio ag aflonyddu ar berson sy'n

- ceisio cofrestru ar gwrs
- wedi cofrestru ar gwrs
- sy'n defnyddio gwasanaethau a ddarperir gennych mewn perthynas â'r cwrs

Mae aflonyddu yn y cyswllt hwn yn darparu ar gyfer yr holl nodweddion gwarchoddedig.

7.3 Beth mae hyn yn ei olygu?

Os ydych yn ysgol a gynhelir yng Nghymru a Lloegr sy'n darparu addysg bellach ac mae'r addysg honno yn:

- rhan amser i bobl (ac eithrio disgyblion) hŷn nag oed ysgol gorfodol, neu'n
- addysg amser llawn i bobl hŷn na 19 oed

rhaid i chi beidio â gwahaniaethu, aflonyddu na fictimeiddio mewn perthynas â'r addysg bellach hon.

Mae popeth a wnewch mewn perthynas â darparu addysg bellach yn dod o dan y rhwymedigaethau hyn, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am y cyrsiau, cofrestru, addysgu a dysgu, a gwasanaethau eraill a gynigir i bobl ar y cyrsiau.

Adran 8: Dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus

8.1 Cyflwyniad

Mae Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus yn cynnwys ‘dyletswydd gyffredinol’ a ‘dyletswyddau penodol’ ychwanegol sydd yn gynnwys i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys ysgolion. Gwelir y ddyletswydd gyffredinol yn adran 149 o'r Ddeddf Cydraddoldeb ac mae'r dyletswyddau penodol i'w gweld mewn rheoliadau a wnaed gan Lywodraeth Cymru o dan y Ddeddf Cydraddoldeb.

Mae'r adran hon yn nodi sut y gallwch gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Mae'n gyfraith i gydymffurfio â Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

At ddibenion y canllaw hwn, wrth gyfeirio at “ysgol” neu “chi” rydym yn cyfeirio'n bennaf at y corff sy'n gyfrifol am yr ysgol. O ganlyniad, chi fel y corff sy'n gyfrifol am yr ysgol sy'n gorfod bodloni Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus. Chi yw'r corff sy'n cymryd penderfyniadau dros yr ysgol ac mae'n rhaid i faterion cydraddoldeb (gan gynnwys mynediad llawn i wybodaeth cydraddoldeb ac arolygiaeth o asesiadau effaith) fod yn rhan weithredol o'ch proses o wneud penderfyniadau.

Mae mwy o wybodaeth ynghylch cyrff cyfrifol ysgolion yn Atodiad B.

Y ddyletswydd gyffredinol

Wrth weithredu pob un o'ch swyddogaethau, mae dyletswydd arnoch i dalu sylw dyledus i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth anghyfreithiol ac ymddygiad arall sydd wedi ei wahardd gan y Ddeddf Cydraddoldeb
- hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt
- meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig a'r rhai nad ydynt

Mae'r nodweddion gwarchoddedig wedi'u rhestru yn Atodiad A. Fodd bynnag, nid yw'r nodwedd warchoddedig o oed yn gynnwys i ysgolion wrth iddynt ddarparu addysg i ddisgyblion neu wrth ddarparu buddion, cyfleusterau neu wasanaethau iddynt. Felly, nid oes yn rhaid ichi ystyried hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng disgyblion o oed gwahanol, ac nid oes yn rhaid ichi ystyried sut i feithrin perthynas dda rhwng disgyblion o oed gwahanol. Eithriad cyfyngedig yw hwn sydd ddim ond yn gynnwys yng nghyd-destun oed. Fe fydd yn rhaid ichi ystyried bob tro y ddyletswydd gyffredinol yng nghyd-destun y nodweddion gwarchoddedig eraill.

Hefyd, mae'r eithriad dim ond yn gynnwys yng nghyd-destun darparu addysg a gwasanaethau i ddisgyblion. Nid yw'r eithriad yn gynnwys yng nghyd-destun eich swyddogaethau eraill, er enghraifft, mae'n rhaid ichi ystyried y nodwedd warchoddedig o oed wrth weithredu fel cyflogwr.

Sylw dyledus

Mae sylw dyledus yn meddwl sylw sy'n briodol yn yr holl amgylchiadau. Mae'n rhaid ichi feddwl yn ymwybodol o dri nod o'r ddyletswydd gyffredinol yn rhan o'ch proses o wneud penderfyniadau. Chi, fel y corff sy'n gwneud penderfyniadau dros yr ysgol, sy'n gorfod talu sylw dyledus.

Mae talu sylw dyledus i'r angen i hybu cyfle cyfartal yn ymwneud â thalu sylw dyledus, yn arbennig, i'r angen i:

- gael gwared ar neu leihau anfanteision mae pobl yn profi oherwydd eu nodweddion gwarchoddedig
- cymryd camau i fodloni anghenion pobl o grwpiau gwarchoddedig ble mae'r rhain yn wahanol i anghenion pobl eraill
- annog pobl gyda nodweddion gwarchoddedig perthnasol i gymryd rhan mewn bywyd cyhoeddus neu mewn gweithgareddau eraill ble mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

Mae talu sylw dyledus i'r angen i feithrin perthynas dda yn cynnwys talu sylw dyledus, yn arbennig, i'r angen i:

- daclo gwahaniaethu; a
- hyrwyddo dealltwriaeth

Sut mae cyflawni'r ddyletswydd i dalu sylw dyledus?

Mae chwe egwyddor hanfodol wedi'u datblygu sydd yn helpu egluro sut y gellir cyflawni'r ddyletswydd gyffredinol.

- **Gwybodaeth:** rhaid bod yn ymwybodol o ofynion y ddyletswydd gyffredinol. Mae bodloni'r ddyletswydd yn golygu ymagwedd a chyflwr meddwl ymwybodol.
- **Amseroldeb:** mae'r ddyletswydd gyffredinol yn codi cyn ac wrth i bolisi penodol ddod dan ystyriaeth a gwneud penderfyniad – hynny yw, mae'n rhan o ddatblygu polisi a'r penderfyniad terfynol. Ni allwch fodloni'r ddyletswydd trwy gyfiawnhau penderfyniad wedi ei wneud.
- **Ystyriaeth ystyrion:** rhaid i ystyriaeth o dri nod y ddyletswydd gyffredinol fod yn rhan ganolog o'r broses o wneud penderfyniadau. Nid yw hyn yn ymarfer ticio blychau – rhaid ei arfer â manwl gywirdeb, gyda meddwl agored mewn modd sy'n dylanwadu ar y penderfyniad terfynol.
- **Gwybodaeth ddigonol:** rhaid i'r sawl sy'n penderfynu ystyried pa wybodaeth sydd ganddo neu ganddi yn ogystal â pha wybodaeth bellach allai fod yn angenrheidiol i roi ystyriaeth ddigonol i'r ddyletswydd gyffredinol.
- **Heb ddirprwyo:** mae dyletswydd arnoch chi i sicrhau bod unrhyw drydydd parti sy'n arfer swyddogaethau cyhoeddus ar eich rhan yn gallu bodloni'r ddyletswydd, ac eu bod yn bodloni'r ddyletswydd. Ni allwch ddirprwyo'r ddyletswydd.
- **Adolygu:** rhaid ichi dalu sylw i nodau'r ddyletswydd gyffredinol nid yn unig pan fydd polisi yn cael ei ddatblygu a'i benderfynu, ond hefyd pan fydd yn cael ei weithredu a'i adolygu. Mae'r ddyletswydd gyffredinol yn ddyletswydd barhaus.

Y dyletswyddau penodol

Mae dyletswyddau penodol **Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011** yn galluogi cyrff cyhoeddus yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion, gyflawni perfformiad gwell o'r ddyletswydd gyffredinol. Mae'r Rheoliadau yn ceisio sicrhau hyn wrth ffocysu ar ganlyniadau cydraddoldeb gwell. Nid yw cydymffurfio â'r dyletswyddau penodol yn gwestiwn o brosesau a threfniadau gweinyddol – mae'n gwestiwn o greu canlyniadau cydraddoldeb positif.

Wrth gydymffurfio â'r dyletswyddau penodol, rhaid i chi ystyried tri nod y ddyletswydd gyffredinol bob amser. Felly, mae dealltwriaeth lwyr a thrylwyr o'r ddyletswydd gyffredinol yn hanfodol wrth gydymffurfio â'r dyletswyddau penodol.

Mae pedair egwyddor yn tanseilio'r dyletswyddau penodol:

- Defnydd o dystiolaeth: tystiolaeth gadarn i ddeall ein cymunedau ac i ddylanwadu ar ein gweithrediadau yn y dyfodol.
- Ymgynghori a chysylltu: fel bod anghenion y dinesydd yn gallu dylanwadu ar gynllunio a darparu gwasanaethau sy'n addas at y pwrpas, yn bodloni anghenion ac yn creu canlyniadau positif
- Tryloywder: ynghylch gosod amcanion cydraddoldeb ac adrodd ar gynnydd yr amcanion cydraddoldeb hynny
- Arweiniad: arweiniad cryf sy'n gosod diwylliant ac amgylchedd positif o fewn y sector cyhoeddus yng Nghymru i ddefnyddio adnoddau'n effeithiol er mwyn cyflawni'r ddyletswydd yn llwyddiannus.

Bydd yr adran hon yn ymdrin â'r dyletswyddau penodol hyn:

8.2 Amcanion cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol

8.3 Ymgysylltu

8.4 Asesu effaith

8.5 Gwybodaeth cydraddoldeb

8.6 Gwybodaeth cyflogaeth, gwahaniaethau tâl a hyfforddiant staff

8.7 Caffael

8.8 Adrodd yn flynyddol a chyhoeddi

Beth sy'n briodol?

Mae nifer o'r dyletswyddau penodol yn gofyn ichi gymryd rhai penderfyniadau fel yr ystyriwch yn 'briodol'. Mae priodoldeb yn dibynnu ar yr amgylchiadau (gan gynnwys amgylchiadau eich ysgol) ond mae'n rhaid ichi ystyried y ddyletswydd gyffredinol bob amser. Mae'n ymarfer da hefyd i ystyried y pedair egwyddor a nodwyd uchod wrth benderfynu beth sy'n briodol.

Mae'n rhaid ichi hefyd weithredu yn unol ag egwyddorion arferol cyfraith gyhoeddus, hynny yw, rhaid gweithredu mewn ffordd rhesymol a chymesur, gan ystyried materion perthnasol.

8.2 Amcanion Cydraddoldeb a Chynlluniau Cydraddoldeb Strategol

Beth sy'n ofynnol yn ôl y ddyletswydd ynglŷn ag amcanion cydraddoldeb

Rhaid:

- paratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill 2012
- cyhoeddi amcanion sy'n helpu chi fodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Os nad oes gan eich ysgol amcan ar gyfer pob nodwedd warchoddedig – yn ogystal ag unrhyw amcan i ddelio â gwahaniaethau tâl – rhaid ichi gyhoeddi rhesymau dros beidio
- cyhoeddi datganiad o'r camau yr ydych wedi'u cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i fodloni'r amcanion a faint o amser mae'n disgwyl y bydd yn ei gymryd i fodloni pob amcan
- gwneud trefniadau priodol i fonitro cynnydd tuag at fodloni amcanion ac i fonitro effeithiolrwydd eich ymagwedd
- rhoi ystyriaeth briodol i'r wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb sydd yn eich meddiant wrth ystyried beth ddylai'ch amcanion cydraddoldeb fod.

Amcanion ar wahaniaethau tâl

Rhaid:

- rhoi sylw dyledus i'r angen i fod ag amcanion i ddelio ag achosion unrhyw wahaniaethau tâl sy'n ymddangos i fod yn rhesymol debygol o fod yn gysylltiedig ag unrhyw rai o'r nodweddion gwarchoddedig
- cyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio ag unrhyw fwlch tâl ar sail rhywedd a nodwyd neu gyhoeddi rhesymau i esbonio pam nad ydych wedi gwneud hyn

Hyd yn oed os ydych yn cyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio â gwahaniaethau tâl parthed unrhyw nodwedd warchoddedig, mae'n rhaid rhoi sylw dyledus o hyd i'r angen i gael amcanion cydraddoldeb eraill parthed y nodwedd warchoddedig honno. Os nad ydych yn cyhoeddi unrhyw amcan arall o'r fath, bydd angen ichi egluro pam ddim.

Adolygu a diwygio amcanion

Rhaid i chi adolygu pob un o'r amcanion cydraddoldeb o leiaf unwaith bob pedair blynedd.

Gallwch adolygu neu ail-lunio amcanion cydraddoldeb ar unrhyw adeg. Os byddwch yn gwneud hynny, rhaid cyhoeddi'r amcan newydd neu ddiwygiedig ac adlewyrchu unrhyw newidiadau yn eich datganiad a gyhoeddwyd ynglŷn â'r amserlen a chamau i fodloni'ch amcanion. Os ceir newid i amcan cydraddoldeb ynghylch tâl rhywedd, bydd angen adlewyrchu hyn mewn cynllun gweithredu tâl rhywedd (gweler adran 8.6).

Bydd gosod amcanion cydraddoldeb effeithiol yn hanfodol i fodloni'r ddyletswydd ac i weithio tuag at well canlyniadau ar gyfer yr holl grwpiau gwarchoddedig.

Mae'n bwysig i gael arolwg a dealltwriaeth glir o'r prif broblemau sy'n wynebu'r grwpiau gwarchoddedig. Dylid datblygu amcanion ar sail ystyriaeth i waith a gweithgareddau'ch ysgol, gan gynnwys dysgu, cyflogaeth a datblygu polisïau. Dylai'r dadansoddiad hwn gael ei oleuo gan y camau a gymerwyd yn barod i fodloni dyletswyddau penodol eraill, gan gynnwys ymgysylltiad, casglu a dadansoddi gwybodaeth ac asesu effaith.

Rhaid ichi ystyried sut y mae eich gwaith a gweithgareddau yn cyfrannu at neu'n gallu gyfrannu at fodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Bydd ymgysylltiad yn arbennig o bwysig wrth ddarparu sail tystiolaeth gadarn i ystyried y materion hyn. Bydd hyn yn gyfle allweddol i gasglu gwybodaeth am ba rannau o'ch gwaith a allai fod o ddiddordeb i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig arbennig.

Defnyddio gwybodaeth, ymgysylltiad ac asesu effaith

Rhaid rhoi ystyriaeth ddyledus i wybodaeth berthnasol wrth osod neu ddiwygio amcanion cydraddoldeb. Daw rhan bwysig o'r wybodaeth berthnasol honno o ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig. Dylai ymgysylltu ddigwydd yn ddigon cynnar i ddylanwadu ar osod blaenoriaethau.

Mae gwybodaeth berthnasol hefyd yn cynnwys darganfyddiadau asesiadau effaith ar grwpiau gwarchoddedig (boed y rhain wedi eu cyhoeddi neu beidio).

Mae nifer o ffynonellau tystiolaeth eraill a allai fod yn ddefnyddiol, gan gynnwys Swyddfa Ystadegau Gwladol, Llywodraeth Cymru a sefydliadau'r trydydd sector. Mae gan y Comisiwn ystod eang o dystiolaeth ddefnyddiol ar ei wefan.

Datblygu amcanion

Rhaid ichi osod amcan cydraddoldeb mewn perthynas â phob un o'r grwpiau gwarchoddedig neu gyhoeddi rhesymau am beidio â gwneud hynny. Bydd yn ddefnyddiol gofyn y cwestiynau canlynol mewn perthynas â phob un o'r grwpiau gwarchoddedig:

- A ystyriwyd pob un o dri nod y ddyletswydd gyffredinol mewn perthynas â'r grwpiau gwarchoddedig?
- A oes ffocws ar y materion allweddol sy'n effeithio ar y gwahanol grwpiau gwarchoddedig a'r camau a allai ymdrin yn fwyaf effeithiol â'r anfantais a brofir ganddynt?

Rhaid ichi nodi'r canlynol:

- y camau yr ydych yn eu cymryd neu'n bwriadu eu cymryd i gyflawni pob un o'r amcanion
- pa mor hir yr ydych yn disgwyl cymryd i gyflawni pob un o'r amcanion, a
- sut y byddwch yn monitro cynnydd tuag at bob amcan.

Dylai amcanion canolbwyntio ar ganlyniadau cydraddoldeb gwell. Dylid nodi gwelliannau penodol mewn canlyniadau ar gyfer disgyblion a gweithwyr, gan nodi'n glir sut y bydd y rhain yn cael eu cyflawni.

Mae llawer o'r rhwystrau sy'n wynebu grwpiau gwarchoddedig yn rhai hirdymor a dwfn a bydd yn cymryd peth amser i ymdrin â'r rhain yn llawn. I gyflawni newid sylfaenol tymor hir efallai y bydd yn rhaid cadw'r un amcan am gyfnod sylweddol.

I gyflawni nodau'r ddyletswydd, mae angen i'r amcanion ganolbwyntio ar y materion pwysicaf o ran cydraddoldeb a bod yn ddigon eang eu cwmpas. Er mwyn bodloni'r ddyletswydd, rhaid i'r amcanion gael eu seilio ar wybodaeth ddigonol ac ymgysylltiad priodol.

Un o nodweddion allweddol gosod amcanion cydraddoldeb yw sicrhau gwell canlyniadau i bobl gyda nodweddion gwarchoddedig. Mae'n bwysig y cymerir gofal i sicrhau bod yr amcanion yn cael eu drafftio i fod yn benodol, yn fesuradwy, yn realistig ac yn rhai y gellir eu cyflawni o fewn amserlen glir.

Cymesuredd

Mae rhoi ystyriaeth ddyledus i nodau'r ddyletswydd gyffredinol yn golygu cymryd agwedd gymesur, a dylai hyn fod yn berthnasol i'r modd y mae eich ysgol yn gosod ei hamcanion. Efallai y bydd angen ichi flaenoriaethu i alluogi chi i ganolbwyntio'ch ymdrechion a gwneud defnydd effeithiol o adnoddau.

Cyhoeddi

Rhaid ichi gyhoeddi amcanion erbyn 2 Ebrill 2012. Dylai amcanion gael eu hadolygu'n rheolaidd a rhaid iddynt gael eu hadolygu o leiaf bob pedair blynedd, ond gallwch adolygu amcanion ar unrhyw adeg. Yn wir, os nodir drwy fonitro nad yw amcan yn cyflenwi fel y rhagwelwyd, efallai y bydd yn rhaid ei newid.

Enghraifft: Mae eich ysgol yn gweithio mewn partneriaeth â tîm gwirfoddol sy'n cynnig cymorth i ieuencid o gefndiroedd ethnig er mwyn cynnig cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion sy'n tangyflawni. Mae'r tîm gwirfoddol yn colli noddiant ac yn stopio gweithio yn yr ardal. Byddai hyn yn creu angen i adolygu'r amcan perthnasol a dileu unrhyw gyfeiriad at weithio mewn partneriaeth â'r tîm gwirfoddol. Yr ydych yn penderfynu ailgyfeirio adnoddau at sefydlu dosbarthiadau y tu allan i oriau arferol yr ysgol ar gyfer disgyblion o gefndiroedd ethnig sy'n tangyflawni. Yr ydych yn adlewyrchu hyn mewn amcan cydraddoldeb newydd.

Yn ogystal â chyhoeddi amcanion, mae'n rhaid ichi gyhoeddi datganiad yn cyflwyno'r canlynol:

- y camau yr ydych wedi'u cymryd neu yr ydych yn bwriadu eu cymryd i fodloni eich amcanion, a
- pha mor hir y byddwch yn cymryd i fodloni pob amcan.

Mae'n ofynnol ichi gyhoeddi'r cynnydd a wnaethpwyd tuag at gyflawni'r amcanion yn eich adroddiad blynyddol.

Enghraifft: Yn dilyn ymgysylltiad a chasglu gwybodaeth berthnasol, yr ydych yn cyhoeddi amcan cydraddoldeb sy'n gosod allan y canlyniadau cydraddoldeb i'w cyflawni ynghylch y nodwedd warchoddedig o anabledd. Mae'r ymgysylltiad a chasglu gwybodaeth berthnasol yn hysbysu'ch ysgol o beth ddylai'r amcan ei gyflawni, a hefyd y camau sydd angen eu cymryd i fodloni'r amcan hwnnw. Gall hyn gynnwys codi ymwybyddiaeth staff a disgyblion; newid strwythur corfforol adeiladau; prynu cyfarpar arbennig ac hyfforddi staff ar sut i'w ddefnyddio. Mae'n rhaid adlewyrchu'r holl gamau hyn yn y datganiad. Bydd ymgysylltu a chasglu gwybodaeth berthnasol hefyd yn hysbysu'ch ysgol ar yr amserlen o gyflawni'r amcanion cydraddoldeb, a rhaid cynnwys yr amserlen honno yn y datganiad a gyhoeddwyd o'r camau y byddwch yn eu cymryd.

Mesur cynnydd

Er mwyn gallu cyhoeddi'r cynnydd a wnaed i fodloni eich amcanion, bydd angen ichi fod yn eglur ynglŷn â sut gynnydd/llwyddiant a fydd, sut y bydd yn cael ei fesur a sut y bydd yn cael ei adrodd.

Bydd cadw'r cynnydd o dan arolwg yn helpu i nodi lle na wnaed cynnydd digonol, ac a fydd angen ichi ddiwygio eich dull. Bydd ymgysylltu â grwpiau a warchodir a rhanddeiliaid eraill sydd â diddordeb yn ddefnyddiol iawn yn y broses hon, oherwydd bydd yn help ichi gadw mewn cysylltiad â'r prif faterion a phryderon.

Gellid defnyddio tystiolaeth ansoddol a meintiol i fesur cynnydd a chanlyniadau. Yr ydych yn debygol o gadw rhywfaint o'r wybodaeth hon e.e. arolygon disgyblion a staff, dadansoddiad o lythyrau cŵyn a ffurflenni adborth.

Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol

Rhaid i chi fod wedi llunio Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012.

Rhaid i'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hwn gynnwys:

- disgrifiad o'r ysgol
- eich amcanion cydraddoldeb (yn cynnwys amcanion tâl)
- y camau yr ydych wedi eu cymryd neu yr ydych yn bwriadu eu cymryd i fodloni eich amcanion ac o fewn pa amserlen
- trefniadau i fonitro cynnydd ar fodloni amcanion cydraddoldeb ac effeithiolrwydd y camau yr ydych yn eu cymryd i fodloni'r amcanion hynny
- trefniadau i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb. Mae hyn yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd o ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig ynglŷn â sut y gallai gwaith yr ysgol fod yn berthnasol i'r ddyletswydd gyffredinol. Mae hefyd yn cynnwys unrhyw wybodaeth am wahaniaethau tâl yn ymwneud â nodwedd warchoddedig ac achosion y gwahaniaethau hyn
- trefniadau ar gyfer cyhoeddi gwybodaeth berthnasol am gydraddoldeb sydd yn eich meddiant ac yr ydych yn ystyried sy'n briodol ei chyhoeddi
- eich trefniadau ar gyfer:
 - asesu effaith debygol unrhyw bolisiau ac arferion yr ydych yn eu hargymell, eu hadolygu neu eu diwygio ar grwpiau gwarchoddedig

- monitro eu heffaith wirioneddol a pharhaus
- cyhoeddi adroddiadau ble mae asesiad yn dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar eich gallu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- manylion sut y byddwch yn hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg cyflogeion
- cynllun gweithredu yn ymwneud ag amcanion tâl ar sail rhywedd

Mae'n agored ichi gynnwys yn eich Cynllun Cydraddoldeb Strategol unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i fodloni'ch ddyletswydd gyffredinol.

Wrth baratoi ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol, rhaid ichi ymgysylltu'n briodol a rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb.

Beth yw pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol?

Pwrpas Cynllun Cydraddoldeb Strategol yw cofnodi'r camau yr ydych yn eu cymryd i gyflawni eich dyletswyddau penodol.

Gall y Cynllun Cydraddoldeb Strategol adlewyrchu nifer o elfennau'r dyletswyddau penodol. Er enghraifft, mae'n ofynnol ichi gyhoeddi rhesymau am beidio â bod ag amcan cydraddoldeb mewn perthynas â nodwedd warchoddedig. Efallai y bydd yn ddefnyddiol cynnwys y rhesymau hynny mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gallai fod yn ddefnyddiol hefyd i gynnwys amlinelliad o ddull eich ysgol tuag at gyflawni ei rhwymedigaethau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol. Byddai hyn yn rhoi eglurhad ynglŷn â phwy a gafodd eu cynnwys neu bwy yr ymgynghorwyd â nhw a gallai hefyd dynnu sylw at gyfleoedd i bobl berthnasol ymgysylltu yn y dyfodol.

8.3 Ymgysylltiad

Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran ymgysylltiad

Rhaid cynnwys pobl yr ydych yn ystyried eu bod yn gynrychiadol o un neu fwy o'r grwpiau gwarchoddedig ac sydd â diddordeb mewn sut mae eich ysgol yn cyflawni ei swyddogaethau.

Gallwch ymgynghori a chynnwys pobl eraill fel yr ydych yn ystyried yn briodol. Wrth wneud penderfyniad o ran pwy sy'n briodol, rhaid ystyried yr angen i gynnwys neu ymgynghori â phobl o un neu fwy o'r grwpiau gwarchoddedig sydd â diddordeb yn y modd mae eich ysgol yn cyflawni ei swyddogaethau, lle mae'n rhesymol o ymarferol i wneud hynny

Rhaid i'r ymgysylltiad ddigwydd parthed:

- gosod amcanion cydraddoldeb
- paratoi ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- nodi sut y gallai gwaith ac amcanion eich ysgol gyfrannu tuag at fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- asesu effaith debygol unrhyw bolisiau neu arferion arfaethedig neu rai sy'n cael eu hadolygu ar grwpiau gwarchoddedig

Beth yw ymgysylltiad?

Mae ymgysylltiad yn cyfeirio at gynnwys rhai pobl (fel gofyniad) ac ymgynghori â rhai pobl (fel bo'n briodol). Efallai nad yw'r gwahaniaeth rhwng cynnwys ac ymgynghori bob amser yn eglur.

Deallir yn aml fod ymgynghori yn ymarferiad ffurfiol i gasglu barnau. Mae cynnwys pobl yn nodi cyfranogiad gweithredol y rhanddeiliaid - deialog agored lle mae gan y rhai hynny sy'n cael eu cynnwys ddylanwad amlwg ar y broses o lunio penderfyniadau ac unrhyw benderfyniad sy'n deillio o hynny.

Bydd ymgysylltiad effeithiol yn cynnwys proses hir o gydweithio rhwng eich ysgol a phobl gyda diddordeb yn eich gwaith.

Ymgysylltiad effeithiol

Mae ymgysylltiad effeithiol yn broses:

- wedi ei strwythuro a'i ffocysu yn dda
- yn un y rhoddir adnoddau digonol tuag ati ac yn hygyrch
- yn ddylanwadol ac yn dryloyw
- yn parchu cyfrinachedd.

Pan ydych yn ymgynghori, dylech gadw at y rhwymedigaethau cyffredinol a ganlyn:

- mae rhaid i'r ymgynghori ddigwydd yng nghanau cyntaf y cynigion
- mae rhaid ichi roi rhesymau digonol o blaid eich cynigion er mwyn i ymgynghoreion eu deall ac ymateb iddynt yn briodol
- mae rhaid rhoi digon o amser i ymgynghoreion i ystyried a chyflwyno'u hymatebion
- mae rhaid ystyried yr ymatebion yn gydwybodol wrth ddod i benderfyniad

Pwy i ymgysylltu â nhw

Wrth benderfynu pwy all gynrychioli buddiannau grwpiau gwarchoddedig ac sydd â diddordeb yn y modd yr ydych yn cyflawni eich swyddogaethau, efallai y byddwch yn dymuno cynnwys:

- disgyblion blaenorol, cyfredol a phosibl
- staff blaenorol a chyfredol
- llywodraethwyr
- grwpiau cydraddoldeb
- undebau llafur
- sefydliadau'r trydydd sector a sefydliadau cydraddoldeb
- y gymuned ehangach.

Rhaid ichi ystyried yr angen i grisialu barn pobl gydag un neu fwy o nodweddion gwarchoddedig yn uniongyrchol.

Nid yw'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol ichi ymgysylltu â phob grŵp gwarchoddedig am bob penderfyniad. Bydd angen penderfynu pa mor berthnasol yw'r polisi neu'r penderfyniad ar gyfer grŵp arbennig a warchodir cyn penderfynu ynghylch a ddylid ymgysylltu â nhw neu sut i wneud hynny.

Bydd rhaid dangos bod ymgysylltu ystyrion wedi digwydd. Bydd angen bod yn ofalus i beidio â gwneud tybiaethau wrth benderfynu ynghylch pwy i ymgysylltu â nhw. Er enghraifft, efallai y bydd pobl sydd yn rhannu'r nodwedd warchoddedig o anabledd yn dymuno cyfrannu cymaint ynghylch dyddiau chwaraeon yr ysgol a theithiau preswyl â chwestiynau am faterion hygyrchedd ac iechyd.

Efallai bydd yn ddefnyddiol i ysgolion lleol gyd-drefnu gweithgareddau ymgysylltu er mwyn osgoi dyblygiad o waith ac achub amser ac adnoddau.

Pryd i ymgysylltu

Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol ichi ymgysylltu wrth:

- osod amcanion cydraddoldeb
- paratoi ac adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol
- asesu sut y gall gwaith eich ysgol a'i gweithgareddau gyfrannu at fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- asesu effaith debygol unrhyw bolisiau neu arferion arfaethedig neu rai sy'n cael eu hadolygu ar grwpiau gwarchoddedig.

Manteision ymgysylltu

Bydd ymgysylltu yn helpu i wella canlyniadau, er enghraifft drwy wneud y canlynol:

- nodi anghenion arbennig, patrymau anfantais a pherthynas wael rhwng grwpiau
- deall y rhesymau am anfantais, cyfraddau cyfranogi isel a pherthynas wael
- creu cynlluniau i fodloni anghenion a goresgyn rhwystrau
- penderfynu ar flaenoriaethau
- dadansoddi effaith cynlluniau ar grwpiau gwarchoddedig
- monitro a gwerthuso cynlluniau, polisiau a rhaglenni.

Enghraifft: yr ydych yn dysgu am ymchwil cyfredol ynghylch bwlio ac yr ydych yn penderfynu adolygu eich polisi atal-bwlio. Mae hyn yn cynnwys asesiad o effaith y polisi ar sut yr ydych yn bodloni'r ddyletswydd gyffredinol, ac mae hyn yn tanio'r ddyletswydd i ymgysylltu â phobl briodol. Mae eich asesiad o'r polisi yn codi pryderon newydd ynghylch bwlio disgyblion Teithwyr Roma yn eich ysgol. Mae'n rhaid ichi gynnwys bobl yr ystyriwch chi sy'n cynrychioli buddiannau disgyblion Teithwyr Roma ac sydd â diddordeb yn y ffordd y mae eich ysgol yn cyflawni ei swyddogaethau. Gall hyn gynnwys teuluoedd y disgyblion Teithwyr Roma. Gallwch hefyd gynnwys neu ymghynghori â phobl eraill fel yr ystyriwch yn briodol. Gall hyn gynnwys y gwasanaeth addysg ar gyfer teithwyr. Gallwch hefyd gynnwys cyn-ddisgyblion Teithwyr Roma i gasglu eu barnau nhw ar briodoldeb eich polisi atal-bwlio.

Sut i ymgysylltu

Mae'r Comisiwn yn argymhell y dylech weithredu ystod o dulliau ymgysylltu i sicrhau eu bod yn hygyrch ac yn effeithiol o ran cyrraedd ystod briodol o grwpiau perthnasol a warchodir.

Dyma restr o rai dulliau ymgysylltu cyffredin:

- grwpiau adolygu a grwpiau ffocws
- grwpiau cynrychioli
- cyngorau ysgol
- ymgysylltu ar-lein

Mae Prif Weinidog Cymru wedi cefnogi dogfen o dan y pennawd 'Egwyddorion cenedlaethol ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd ar gyfer sefydliadau yn y gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru'. Gellir canfod y ddogfen hon yn:

www.participationcymru.org.uk/advice-support/national-principles-for-public-engagement-in-wales

Mae ystod o astudiaethau achos ynglŷn â sut mae dulliau ymgysylltu wedi eu defnyddio gyda gwahanol grwpiau a warchodir ar gael ar wefan y Comisiwn:

www.equalityhumanrights.com

8.4 Asesu effaith

Beth mae'r ddyletswydd yn ei ofyn o ran asesu am effaith

Rhaid:

- asesu effaith debygol polisiau ac arferion arfaethedig ar eich gallu i gydymffurfio â'r ddyletswydd gyffredinol
- asesu effaith unrhyw bolisi sy'n cael ei adolygu ac unrhyw ddiwygiad arfaethedig
- cyhoeddi adroddiadau o'r asesiadau os ydynt yn dangos effaith sylweddol (neu effaith debygol) ar eich gallu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- monitro effaith polisiau ac arferion ar eich gallu i fodloni'r ddyletswydd honno.

Rhaid i adroddiadau ar asesiadau sefydlu'n benodol:

- pwrpas y polisi neu arfer (neu ddiwygiad) sydd wedi ei asesu
- crynodeb o'r camau yr ydych wedi eu cymryd i gyflawni'r asesiad (yn cynnwys ymgysylltu perthnasol)
- crynodeb o'r wybodaeth yr ydych wedi ei hystyried yn yr asesiad
- canlyniadau'r asesiad
- unrhyw benderfyniadau a wnaed parthed y canlyniadau hynny.

Yn ogystal, wrth asesu ar gyfer effaith ar grwpiau gwarchoddedig, rhaid:

- cydymffurfio â'r darpariaethau ymgysylltu
- rhoi sylw dyledus i'r wybodaeth berthnasol sydd gennych.

Beth yw asesu effaith?

Mae'r gofyniad i asesu effaith yn golygu bod yn rhaid i ysgolion ystyried tystiolaeth berthnasol er mwyn deall effaith debygol neu wirioneddol polisïau ac arferion ar grwpiau a warchodir.

Mae hyn yn cynnwys:

- sicrhau nad yw'r polisi neu'r ymarfer yn gwahaniaethu yn anghyfreithlon
- nodi unrhyw effeithiau niweidiol ar y grwpiau gwarchoddedig
- ystyried sut y gallai'r polisi neu'r ymarfer hyrwyddo cyfle cyfartal yn well
- ystyried a fydd y polisi yn effeithio ar gysylltiadau rhwng gwahanol grwpiau.

Ar ôl ystyried hyn, rhaid ichi roi 'ystyriaeth ddyledus' (h.y. rhoi pwysau priodol) i ganlyniadau asesiadau o'r fath. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol ichi ystyried gweithredu i ymdrin ag unrhyw broblemau a nodwyd, fel ymdrin ag effeithiau negyddol, lle bo hynny'n bosibl.

Enghraifft: mae dalgylch ysgol yn newid i gynnwys cymuned Fangleddhaidd. Mae'r ysgol yn deall bod adroddiadau'r arolygwyr cenedlaethol yn codi pryderon ynghylch llwyddiant disgyblion Bangleddhaidd. Mae'r ysgol yn penderfynu asesu ei pholisi ar hybu enwau a champau pobl ysbrydoledig er mwyn ymdrin ag unrhyw agweddau negyddol tuag at ysgol ac i godi disgwyliadau disgyblion o'r hyn y gallant eu gyflawni.

Beth sydd angen ei asesu o ran effaith ar grwpiau gwarchoddedig?

Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion asesu effaith 'polisïau ac arferion'. Mae hwn yn ymadrodd bras iawn, a gallai ymdrin â phob agwedd o weithgareddau a swyddogaethau'r ysgol. Yn benodol, gall polisïau ac arferion atal mynediad i addysg, neu ansawdd yr addysg a ddarparwyd, neu ansawdd amgylchedd y gweithle.

Nid yw hyn yn golygu y bydd angen i bopeth yr ydych yn ei wneud gael ei asesu o ran ei effaith ar grwpiau gwarchoddedig. Bydd angen ichi farnu sut y gall polisi neu ymarfer arbennig fod yn berthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol a gweithredu'n gymesur. Byddwch yn cael eich cynorthwyo yn y dasg hon drwy roi ystyriaeth ddyledus i wybodaeth berthnasol yr ydych wedi'i nodi. Bydd hyn yn cynnwys gwybodaeth a gasglwyd drwy ymgysylltu â grwpiau gwarchoddedig i fodloni'r gofyniad i asesu sut mae eich gwaith a'ch gweithgareddau yn cyfrannu at y ddyletswydd gyffredinol.

Pryd i asesu effaith

Dylai asesu effaith ar y grwpiau gwarchoddedig fod yn rhan anhepgor o ddatblygu ac adolygu polisïau o'r dechrau.

Mae'n bwysig monitro effaith gwirioneddol polisi wrth iddo gael ei weithredu, ac ail-drych ar asesu effaith ar grwpiau gwarchodedig fel rhan o unrhyw adolygiad.

Enghraifft: mae ysgol uwchradd yn monitro'r wybodaeth a gasglwyd oddi wrth ysgolion cynradd yn ystod y cyfnod o drawsnewid disgyblion o ysgol gynradd i ysgol uwchradd. Mae eich canlyniadau yn awgrymu bod diffyg cynllunio cynnar wrth drosglwyddo disgyblion ag anghenion penodol, ac mae'r ysgol yn trefnu asesiad ffurfiol o'i pholisi ar drefniadau pontio. Mae'r asesiad ffurfiol hwnnw yn tanio'r ddyletswydd i ymgysylltu â phobl briodol ac yn ei sgil caiff amcanion cydraddoldeb eu hail wneud i sicrhau cynllunio digonol yn y dyfodol sydd yn caniatáu pontio llwyddiannus rhwng yr ysgolion.

Pwy ddylai asesu effaith?

Mae'n arfer dda i sicrhau bod gan bwy bynnag sy'n cyflawni asesiad effaith:

- ddealltwriaeth fanwl o'r maes polisi
- cefnogaeth ac arweinyddiaeth lywodraethwyr yr ysgol a'i
- fod mewn sefyllfa i sicrhau y gall newidiadau gael eu gwneud lle bo hynny'n angenrheidiol

Gallai defnyddio tîm i asesu'r effaith ar grwpiau gwarchodedig helpu i ddod ag ystod o brofiad ac arbenigedd i'r broses. Gallai fod yn ddefnyddiol bod â rhywun gyda chyfrifoldeb dynodedig am gofnodi a datblygu'r asesiad.

Yn aml, mae'n bosibl na fydd gan yr unigolion sy'n ymwneud ag asesiad arbenigedd helaeth ym maes cydraddoldeb. Mae gan staff cydraddoldeb arbenigol rôl bwysig i gefnogi staff llai profiadol i wneud y gwaith o asesu effaith. Yn ddelfrydol, gwneir y gwaith o asesu'r effaith gan eich staff yn hytrach na chan ymgynghorwyr neu asiantaethau allanol, oherwydd bydd hyn yn eich galluogi i ddatblygu eich arbenigedd eich hun.

Adrodd ynghylch asesiadau

Lle mae'n eglur o'r asesiad fod yr effaith tebygol ar eich gallu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol yn sylweddol, yna rhaid ichi gyhoeddi adroddiad.

Defnyddio gwybodaeth berthnasol

Mae'n ofynnol ichi ddefnyddio gwybodaeth berthnasol wrth asesu effaith polisi neu ymarfer sy'n cael ei argymhell neu ei adolygu ar grwpiau a warchodir.

Bydd yn bwysig sicrhau bod gan yr holl staff sy'n cyflawni asesiadau drosolwg o'r mathau o wybodaeth sydd gan eich ysgol ac, os yn berthnasol, unrhyw fylchau yn yr wybodaeth honno.

Ymgysylltiad wrth asesu effaith

Mae'r dyletswyddau penodol yn ei gwneud yn ofynnol ichi ymgysylltu fel rhan o asesu'r effaith ar grwpiau gwarchodedig. Bydd hyn yn helpu ichi ddeall effaith argymhellion ar wahanol grwpiau yn well.

Hyfforddi staff ac arweinyddiaeth

Mae'n bwysig hyfforddi staff ynglŷn ag asesu effaith. Dylai hyn fod yn briodol i gyfrifoldebau arbennig y staff, i'w maes gwaith, ac i'r dull yr ydych wedi ei ddewis ar gyfer asesu effaith.

Mae'n bwysig fod llunwyr penderfyniadau uwch yn cael eu briffio'n ddigonol. Dylai hyn eu paratoi ar gyfer craffu i sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei ystyried yn briodol o fewn yr ysgol a bod yr holl asesiadau yn dylanwadu ar y modd y llunir penderfyniadau ar bob lefel.

Am ganllawiau pellach ynglŷn ag asesu effaith, gwelwch:
www.equalityhumanrights.com

8.5 Relevant Information

Beth mae'r dyletswyddau penodol yn ei fynnu o ran gwybodaeth cydraddoldeb

Rhaid:

- gwneud trefniadau priodol i sicrhau eich bod yn nodi gwybodaeth berthnasol sydd yn eich meddiant o bryd i'w gilydd, ac yn nodi a chasglu gwybodaeth nad yw yn eich meddiant
- gwneud trefniadau priodol i nodi a chasglu gwybodaeth ynglŷn â gwahaniaethau mewn tâl, ac achosion gwahaniaethau o'r fath, rhwng cyflogeion sydd â nodwedd warchoddedig a'r rhai sydd heb
- cyhoeddi gwybodaeth berthnasol sydd yn eich meddiant, oni bai y byddai'n amhriodol i wneud hynny (e.e. byddai'n groes i ddeddfwriaeth Diogelu Data neu ddeddfwriaeth arall). Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon erbyn 2 Ebrill 2012 a'i hadolygu o bryd i'w gilydd

Yn rhan o'r broses o nodi gwybodaeth berthnasol, bydd angen ichi asesu sut y gall eich gwaith ac eich gweithgareddau helpu i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Wrth asesu sut mae cyflawni eich gweithgareddau yn unol â'r ddyletswydd gyffredinol, rhaid ichi gyflawni'r oblygiadau ymgysylltiad a rhoi sylw dyledus i wybodaeth berthnasol arall. Rhaid cyflawni'r asesiad hwn erbyn 2 Ebrill 2012 a'i adolygu o bryd i'w gilydd.

Yn rhan o'ch dyletswyddau penodol ar adrodd blynyddol, mae gofyn ichi gyhoeddi eich rhesymau dros beidio casglu gwybodaeth berthnasol yr ydych wedi'i nodi, ond nad yw yn eich meddiant.

Rhaid ichi gasglu a chyhoeddi gwybodaeth fanwl ar broffil eich cyflogeion.

Enghraifft: Yr ydych am nodi gwybodaeth berthnasol. Yr ydych yn creu templed i fynd allan i bob adran o'r ysgol i ganfod pa wybodaeth berthnasol sydd gennych. Yr ydych yn asesu pob un templed a ddaeth yn ôl atoch. Yn ychwanegol at hyn, yr ydych yn gwahodd rhieni, disgyblion presennol a chyn-ddisgyblion i gyfarfod. Mae'r cyfarfod wedi'i drefnu'n dda a chyda chyfleusterau priodol, ac mae'n amlinellu natur dyletswyddau cydraddoldeb y sector cyhoeddus a dyletswyddau'r ysgol. Yr ydych yn archwilio ystod eang o brofiadau yng nghyd-destun holl swyddogaethau'r ysgol, gan gynnwys dysgu, cefnogi disgyblion, arlwyfaeth, cludiant, parterniaethau cymunedol ac yn y blaen. Yr ydych yn nodi pob cyfraniad ac yn eu hadrodd yn ôl i aelodau'r

cyfarfod. Mae'r wybodaeth yn cael ei defnyddio, ymhlith pethau eraill, i ddatblygu amcanion cydraddoldeb a blaenoriaethu ymgysylltu priodol. Yr ydych yn trefnu gweithred tebyg gyda'ch staff.

Pwrpas gwybodaeth cydraddoldeb

Mae'r dyletswyddau penodol a'r wybodaeth berthnasol yn galluogi chi i wreiddio tystiolaeth yn ymwneud â chydraddoldeb yn eich gwaith. Bydd casglu a defnyddio gwybodaeth berthnasol yn hollbwysig i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol. Y canlyniad y gobeithir amdano yw bod gennych y dystiolaeth orau i'ch galluogi chi i bennu nodau ystyrion ac i gynnal asesiadau effaith gwybodus.

Mae cyhoeddi'r wybodaeth hon yn helpu gwneud gwaith datblygu polisi yn fwy tryloyw ac yn esbonio sut a pham y caiff penderfyniadau eu gwneud. Bydd hyn yn arbennig o ddefnyddiol wrth wneud penderfyniadau anodd am adnoddau.

Bydd hefyd yn galluogi'r Comisiwn ac eraill perthnasol i fesur eich perfformiad ar gydraddoldeb.

Pryd mae'n rhaid defnyddio gwybodaeth berthnasol?

Mae'r dyletswyddau penodol yn mynnu fod rhaid rhoi sylw dyladwy i wybodaeth berthnasol ar adegau penodol, sef;

- wrth baratoi a chyhoeddi amcanion cydraddoldeb
- wrth asesu polisiau ac arferion o ran eu heffaith ar grwpiau gwarchoddedig
- wrth wneud neu ddiwygio Cynllun Cydraddoldeb Strategol; ac
- wrth asesu gwaith a gweithgareddau o ran cyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Gwybodaeth berthnasol sy'n bod yn barod

Rhaid ichi wneud trefniadau priodol i ddynodi'r wybodaeth sydd gennych ar y pryd sy'n berthnasol i gyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Fel rhan o'r trefniadau i ddynodi gwybodaeth berthnasol, bydd angen asesu sut all eich gwaith ac eich gweithgareddau helpu cyflawni tri nod y ddyletswydd gyffredinol. Mae gofyn penodol ichi gynnal yr asesiad hwn erbyn 2 Ebrill 2012 ac mae'n rhaid cynnwys pobl sy'n cynrychioli buddiannau grwpiau gwarchoddedig.

Mae'r dyletswyddau'n rhoi disgrifiad eang o bryd yr ydych yn meddu ar wybodaeth berthnasol. Yn ogystal â'r wybodaeth sydd gennych chi eich hun, mae'r disgrifiad yn cynnwys:

- gwybodaeth berthnasol sydd ym meddiant person/sefydliad arall ar ran eich ysgol
- gwybodaeth berthnasol sydd ym meddiant eich ysgol ar ran person/sefydliad arall pan mae'r:
 - person hwnnw/honno wedi cydsynio ichi ddefnyddio'r wybodaeth i helpu chi i gyflawni'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol; neu

- os byddai'n gyfreithlon a rhesymol ichi ddefnyddio'r wybodaeth i helpu chi i gyflawni'r dyletswyddau.

Ffynonellau gwybodaeth

Gall tystiolaeth ddefnyddiol gynnwys:

- ymchwil meintiol ac ystadegau e.e. Cyfrifiad ac arolygon
- ymchwil ansoddol e.e. grwpiau trafod a grwpiau ffocws
- data gweinyddol
- gwybodaeth monitro disgyblion
- gwybodaeth monitro staff
- adborth a chwynion disgyblion a staff, e.e. arolygon bodlonrwydd
- gwybodaeth ar bobl sydd ddim yn cymryd rhan yn llawn mewn gweithgareddau'r ysgol yn ogystal â'r rhai sydd yn

Enghraifft: yr ydych yn sylweddoli nad ydych wedi derbyn ffurflenni cwynion a holiaduron oddi wrth rieni ag amhariadau gweledol. Dylwch gymryd camau i sicrhau eich bod yn darparu ffurflenni cwynion a holiaduron mewn fformat priodol i alluogi'r rhieni hynny i gynnig adborth a nodi pryderon.

Wrth gynnal gwaith monitro ac arolygon, efallai y byddai'n ddefnyddiol defnyddio cwestiynau safonol o Gyfrifiad 2011 neu gwestiynau ONS eraill e.e. ar ethnigrwydd. Mae defnyddio cwestiynau safonol yn gymorth wrth ddadansoddi a chymharu data.

Dylai holiaduron neu arolygon gynnwys gwybodaeth ar sut fydd y data'n cael ei storio, sut fydd yn cael ei ddefnyddio a phwy all gael mynediad ato. Os ellir cysylltu gwybodaeth ag unigolyn ni ellir ond ei storio trwy gael eu caniatâd ysgrifenedig, ellir ei roi ar ffurflen fonitro. Mae rhagor o wybodaeth ar ddiogelu data ar gael ar wefan Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:

http://www.ico.gov.uk/for_organisations/data_protection.aspx

Bydd adroddiadau cenedlaethol perthnasol yn ddefnyddiol. Mae ffynonellau'n cynnwys:

- Swyddfa Ystadegau Cenedlaethol, gan gynnwys y Cyfrifiad a'r Arolwg Gweithlu
- Ystadegau a data Llywodraeth Cymru
- Y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol, gan gynnwys yr Adolygiad Teirblwydd: Pa mor deg yw Prydain, 'Pa mor deg yw Cymru?' a 'Dadansoddiad o anghydraddoldeb Economaidd yng Nghymru'.
- Sefydliadau trydydd sector, y mae gan lawer ohonynt wybodaeth ddefnyddiol ar grwpiau gwarchoddedig.

Gwybodaeth am y gweithlu

Mae disgwyl ichi gasglu gwybodaeth am eich staff yn ôl grŵp gwarchoddedig. Mae'n rhaid ichi hefyd adrodd yn rheolaidd ar sut mae polisïau ac arferion yn effeithio staff o grwpiau gwarchoddedig.

Ni allwch ddibynnu ar y dyletswyddau penodol i fynnu fod rhaid i unrhyw weithiwr neu ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth am ei nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, mae er eich lles i gasglu gwybodaeth sydd mor gyflawn a chywir ag y bo modd fel bod gennych broffil llawnach o'ch staff ac eich bod mewn sefyllfa i wneud penderfyniadau mwy gwybodus er mwyn anelu at gyflawni nodau'r ddyletswydd gyffredinol. Felly, dylech gymryd camau i esbonio pam eich bod yn casglu'r wybodaeth gydraddoldeb a sut fydd yn cael ei defnyddio, a chynnig sicrwydd priodol ar faterion cyfrinachedd.

Rhoi sylw i fylchau

Wrth ddynodi'r wybodaeth sydd gennych ar y pryd yr ydych yn debygol o ddynodi agweddau o'ch gwaith lle nad oes gennych wybodaeth ddigonol ar rai grwpiau gwarchoddedig, deilliannau, lefelau mynediad ac ati. Os nad oes gennych ddigon o wybodaeth, bydd angen rhoi sylw i'r bylchau.

Adolygu

O bryd i'w gilydd rhaid ichi adolygu trefniadau ar gyfer dynodi a chasglu gwybodaeth berthnasol.

Monitro gwybodaeth sensitif

Ar gyfer rhai grwpiau gwarchoddedig nid yw monitro cydraddoldeb yn fater cyffredin neu mae'n codi rhai cwestiynau penodol. Ceir rhagor o wybodaeth am fonitro'r gweithlu yn Atodiad 2 Côd Cyflogaeth Deddf Cydraddoldeb 2010, sydd hefyd yn berthnasol i fonitro gwasanaethau: www.equalityhumanrights.com

Mae Atodlen A yn cynnwys canllaw ar gasglu gwybodaeth parthed grwpiau gwarchoddedig.

Cyhoeddi: Ble a beth i'w gyhoeddi

Mae'r dyletswyddau penodol yn mynnu eich bod yn cyhoeddi gwybodaeth berthnasol sydd gennych ac yr ystyriwch yn briodol i'w chyhoeddi. Wrth gyhoeddi asesiadau o effaith ar grwpiau gwarchoddedig, mae gofyniad i gyhoeddi crynodeb o'r wybodaeth a ddefnyddiwyd.

Dylech gyhoeddi hefyd yr hyn yr ydych yn ei wneud i roi sylw i unrhyw fylchau gwybodaeth a phwy sy'n gyfrifol am wneud hyn. Efallai y byddai'n ddefnyddiol cyhoeddi'r holl wybodaeth cydraddoldeb mewn un lle, lle y mae'n hwylus hygyrch at ddefnydd mewnol ac allanol. Os yw'n rhan o adroddiad ehangach, byddai'n ddefnyddiol cyfeirio at yr wybodaeth cydraddoldeb a'i darparu ar wefan.

Cyfrinachedd

Mae'n bwysig gofalu fod gofynion y Ddeddf Diogelu Data 1998 yn cael eu bodloni, sef diogelu hawliau cyfrinachedd disgyblion a gweithwyr.

Am ragor o wybodaeth ar gasglu gwybodaeth cydraddoldeb, gwelwch "Gwybodaeth cydraddoldeb: Canllaw ar gyfer cyrff cyhoeddus rhestredig yng Nghymru" ar : www.equalityhumanrights.com a Chod Cyflogaeth Deddf Cydraddoldeb 2010: www.equalityhumanrights.com

8.6 Gwybodaeth cyflogaeth

Beth mae'r ddyletswydd yn ei fynnu ar wybodaeth cyflogaeth

Gall y bobl yr ydych chi, fel y corff sy'n gyfrifol am yr ysgol, yn eu cyflogi gynnwys glanhawyr, gofalwyr tir a chwmseliaid.

Rhaid casglu a chyhoeddi ar sail flynyddol y nifer y:

- bobl a gyflogir gennych chi ar 31 Mawrth pob blwyddyn yn ôl nodwedd warchoddedig
- dynion a menywod a gyflogir, yn ôl:
 - swydd
 - graddfa (ble ceir system raddio)
 - tâl
 - math o gytundeb (yn cynnwys parhaol a chyfnod sefydlog)
 - patrwm gwaith (yn cynnwys amser llawn, rhan amser a phatrymau gwaith hyblyg eraill)
- pobl sydd wedi gwneud cais am swyddi gyda chi yn ystod y flwyddyn ddiwethaf
- cyflogeion sydd wedi gwneud cais i newid swydd yn yr ysgol, gan nodi faint fu'n llwyddiannus yn eu cais a faint nad oedd
- cyflogeion sydd wedi gwneud cais am hyfforddiant a faint fu'n llwyddiannus yn eu cais
- cyflogeion sydd wedi cwblhau'r hyfforddiant
- cyflogeion sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau cwynion naill ai fel achwynydd neu fel y sawl y gwnaethpwyd cwyn yn eu herbyn
- cyflogeion sy'n amodol i weithdrefnau disgyblaethol
- cyflogeion sydd wedi gadael cyflogaeth yr ysgol

Rhaid cyflwyno'r holl wybodaeth uchod ar gyfer pob grŵp gwarchoddedig unigol. Yr eithriad i'r gofyniad hwn yw'r data ar swydd, graddfa, tâl, math o gytundeb a phatrwm gwaith, y mae'n rhaid ei ddioli yn ôl menywod a dynion yn unig.

Gwybodaeth cyflogaeth ar rywedd

Fel gyda'r nodweddion gwarchoddedig eraill, rhaid ichi gyhoeddi'r wybodaeth cyflogaeth angenrheidiol ar rywedd gan roi ciplun o broffil eich gweithwyr ar 31 Mawrth bob blwyddyn.

Mae'r gofynion gwybodaeth ar gyfer rhywedd yn mynd ymhellach na nodweddion gwarchoddedig eraill o ran manylder yr hyn a gyhoeddir. Rhaid ichi gyhoeddi manylion am nifer y gweithwyr benywaidd a gwrywaidd fesul swydd, gradd, tâl, math o gytundeb a phatrwm gwaith. Dylai hyn roi darlun clir o sut mae swyddi'n cael eu dosbarthu ar hyd a lled eich ysgol ac ar ba lefelau. Bydd hyn nid yn unig yn helpu adnabod gwahaniaethau tâl yn ôl rhywedd, ond hefyd faterion cydraddoldeb rhywedd eraill megis arwahanu galwedigaethol.

Pwrpas casglu data gweithlu

Dylech ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd i wreiddio tystiolaeth cydraddoldeb yn eich polisiau ac eich arferion cyflogaeth. Bydd casglu, defnyddio a chyhoeddi gwybodaeth cydraddoldeb am y gweithlu yn helpu:

- deall effaith polisiau, arferion a phenderfyniadau ar staff a chanddynt nodweddion gwarchoddedig gwahanol ac i gynllunio'n fwy effeithiol
- adnabod lle y mae risg o gamwahaniaethu ac adnabod camau i unioni hyn
- adnabod camau posibl i hyrwyddo cydraddoldeb neu feithrin perthynas dda ymhellach
- adnabod materion cydraddoldeb allweddol ar gyfer eich ysgol
- adnabod a yw'r gweithlu yn adlewyrchu'r gymuned mae'n ei gwasanaethu
- datblygu amcanion cydraddoldeb a mesur cynnydd
- gwneud arferion yn fwy tryloyw a helpu esbonio sut a pham y cymerir penderfyniadau
- arddangos i'r cyhoedd yr hyn ydych wedi cyflawni ym maes cydraddoldeb fel cyflogwr
- arddangos i reoleiddwyr ac arolygiaethau eich bod yn deall cyfansoddiad eich staff ac eich bod yn monitro berfformiad
- meincnodi perfformiad yn erbyn ysgolion tebyg yn genedlaethol neu'n lleol

Ni allwch ddibynnu ar y dyletswyddau penodol i fynnu fod rhaid i unrhyw weithiwr neu ymgeisydd ddarparu unrhyw wybodaeth am ei nodweddion gwarchoddedig. Fodd bynnag, mae er eich lles i gasglu gwybodaeth sydd mor gyflawn a chywir ag y bo modd fel bod gennyh broffil llawnach o'ch staff.

Dylech gymryd camau i esbonio pam eich bod yn casglu'r wybodaeth cydraddoldeb a sut fydd yn cael ei defnyddio, a chynnig sicrwydd priodol ar faterion cyfrinachedd.

Yr hyn y mae'r ddyletswydd yn ei ofyn o ran gwahaniaethau tâl

Rhaid:

- wrth lunio amcanion cydraddoldeb, dylid talu sylw dyledus i'r angen am amcanion sy'n delio ag achos unrhyw wahaniaeth tâl rhwng cyflogeion sydd o

unrhyw grŵp gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt, os yr ymddengys i fod yn rhesymol debygol bod y rheswm dros y gwahaniaeth yn gysylltiedig â'r ffaith bod y cyflogeion hynny yn rhannu nodwedd warchoddedig

- gwneud trefniadau priodol i nodi a chasglu gwybodaeth ynglŷn â gwahaniaethau mewn tâl, ac achosion gwahaniaethau o'r fath, rhwng cyflogeion sydd â nodwedd warchoddedig a'r rhai sydd heb. Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon fel y bo'n briodol.

Gwahaniaethau tâl rhywedd

Rhaid:

- cyhoeddi amcan cydraddoldeb parthed delio â gwahaniaeth tâl rhywedd a nodwyd neu gyhoeddi rhesymau i esbonio pam nad ydych wedi gwneud hyn
- gyhoeddi cynllun gweithredu parthed tâl rhywedd yn sefydlu:
 - unrhyw bolisi sydd gennych sy'n ymwneud â'r angen i ddelio ag achosion unrhyw wahaniaeth tâl rhywedd
 - unrhyw amcan cydraddoldeb tâl yr ydych wedi cyhoeddi (yn cynnwys unrhyw adolygiadau). Ble yr ydych wedi nodi gwahaniaeth tâl rhywedd ymysg eich staff, ond heb gyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio ag achosion y gwahaniaeth tâl hwnnw, rhaid i'r cynllun gweithredu sefydlu'r rhesymau dros beidio gwneud hynny
 - datganiad ynglŷn â'r camau yr ydych wedi cymryd neu'n bwriadu cymryd i gyflawni eich amcan tâl rhywedd a faint o amser yr ydych yn disgwyl i hyn gymryd.

Trosolwg ar wahaniaethau tâl

Mae'r dyletswyddau penodol ar gyfer gwahaniaethau tâl yn anelu at gyflawni:

- canlyniadau tâl sy'n well ac yn fwy teg ar gyfer yr holl grwpiau gwarchoddedig
- annog tryloywder ar unrhyw wahaniaethau tâl ar gyfer pobl a chanddynt nodwedd warchoddedig a phobl heb rai
- mynd ati'n benodol i gymell gweithredu er mwyn mynd i'r afael â bylchau tâl rhwng dynion a menywod.

Mae'n rhaid ichi roi sylw dyladwy i'r angen i gael amcanion cydraddoldeb er mwyn mynd i'r afael ag achosion unrhyw wahaniaethau tâl o ran pob nodwedd warchoddedig. Er mwyn bod mewn sefyllfa i wneud y dyfarniad hwnnw'n effeithiol, bydd yn ddefnyddiol ichi gael systemau ar waith i'ch galluogi chi i edrych ar ddsbarthiad pobl a chanddynt nodwedd warchoddedig ar hyd a lled y sefydliad.

Gwahaniaethau tâl yn ôl rhywedd

Mae'r ddyletswydd i fynd i'r afael â gwahaniaethau tâl o ran rhywedd yn mynd ymhellach na'r nodweddion gwarchoddedig eraill. Pan ydych wedi adnabod gwahaniaeth tâl sy'n gysylltiedig â rhywedd a phan nad ydych wedi cyhoeddi amcan cydraddoldeb i fynd i'r afael ag achosion hynny, mae'n rhaid ichi gyhoeddi rhesymau dros beidio gwneud hynny mewn cynllun gweithredu. Mae'r cynllun gweithredu hefyd

yn disgwyl ichi gyflwyno unrhyw bolisiau o ran yr angen i fynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi gwahaniaethau tâl rhywedd.

Dadansoddi gwahaniaethau tâl

Wrth ystyried gwahaniaethau tâl o dan y dyletswyddau penodol, bydd angen ichi ddadansoddi cofnodion cyflogres perthnasol i gael darlun bras o batrymau tâl.

Os oes unrhyw wahaniaethau tâl ar gyfer gweithwyr o grwpiau gwarchoddedig sy'n gwneud swyddi sy'n galw am lefelau cyffelyb o ymdrech, sgiliau, gwybodaeth a chyfrifoldeb, dylech ddarganfod pam mae'r gwahaniaethau'n bodoli. Gallwch ddarganfod, er enghraifft, nad yw'r tâl cychwyn yn debyg bob tro, neu fod gweithwyr rhan-amser yn cael llai o dâl yr awr na gweithwyr llawn-amser.

Gall lefelau gwahanol o ymdrech, sgiliau, gwybodaeth a chyfrifoldeb gyfiawnhau gwahaniaethau tâl rhwng swyddi. Dylai gwahaniaethau tâl fod yn seiliedig ar union ofynion y swyddi a'r union amgylchiadau y cânt eu gwneud ynddynt.

Dylech allu adnabod rhesymau gwrthrychol yn seiliedig ar dystiolaeth dros wahaniaethau tâl rhwng gweithwyr sy'n gwneud swyddi sy'n galw am lefelau cyffelyb o ymdrech, sgiliau, gwybodaeth a chyfrifoldeb.

Tâl cyfartal

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn mynnu fod menywod a dynion yn cael eu talu ar delerau cyfartal pan maen nhw'n cael eu cyflogi ar 'waith cyffelyb' neu 'waith sy'n cael ei ystyried yn gyfartal' neu 'waith cyfwerth'. Dylai'r dyletswyddau penodol helpu adnabod cyfleoedd i fynd i'r afael ag achosion gwahaniaethau tâl nad ydynt yn cael eu cynnwys mewn adolygiadau tâl.

Gall y materion hyn gynnwys arwahanu swyddi (lle y mae dynion a menywod neu grwpiau eraill yn dominyddu ar lefel arbennig yn eich ysgol); patrymau gwaith; dyrchafiad; effaith rhywedd rolau teuluol a gofalu a mathau eraill o stereoteipio; trafod cyflog cychwynnol a chyfleoedd hyfforddiant.

Mae mwy o wybodaeth ar dâl cyfartal ar gael ar wefan y Comisiwn ac yn arbennig felly yn y Côd Ymarfer Statudol ar Dâl Cyfartal: www.equalityhumanrights.com

Beth mae'r ddyletswydd yn ei fynnu ar hyfforddiant staff

Rhaid gwneud trefniadau priodol i:

- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r ddyletswydd gyffredinol a dyletswyddau penodol ymysg eich cyflogeion
- defnyddio unrhyw weithdrefnau asesu perfformiad i nodi a delio ag anghenion hyfforddiant cyflogeion parthed y dyletswyddau

Hyfforddi staff

Mae'n bwysig fod pobl ar hyd ac ar led eich ysgol yn ymwybodol o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol fel eu bod pan yn berthnasol yn cael eu hystyried yn eu gwaith. Dylech ofalu fod eich amcanion cydraddoldeb yn cael eu cyfathrebu'n effeithiol i staff perthnasol a'u bod yn cael eu hadlewyrchu yn eu gwaith yn ôl y galw.

Gallai enghreifftiau gynnwys:

- Staff dysgu – yn y modd maent yn goruchwyllo cynllunio, cyflawni, ansawdd ac effeithiolrwydd y modd o ddarparu addysg
- Llywodraethwyr ysgol – yn y modd maent yn gosod cyfeiriad strategol, adolygu perfformiad a sicrhau llywodraethu da yn eich ysgol
- Staff cydraddoldeb ac amrywiaeth – yn y modd maent yn codi ymwybyddiaeth ac adeiladu cymhwyster ynglŷn â dyletswyddau cyffredinol a phenodol o fewn yr ysgol a sut maent yn cefnogi staff i gyflawni eu cyfrifoldebau
- Staff adnoddau dynol – yn y modd maent yn cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb mewn polisiau a gweithdrefnau cyflogaeth

Dylech ystyried:

- gwreiddio ymwybyddiaeth cydraddoldeb ac egwyddorion y dyletswyddau cyffredinol a phenodol mewn hyfforddiant cynefino
- cynnwys materion cydraddoldeb mewn digwyddiadau hyfforddiant penodol a phroffesiynol
- gwneud dulliau dysgu amgen ar gael, megis modylau hyfforddiant CD, pecynnau dysgu o bell, mentora neu hyfforddi staff

Mae'r ddyletswydd benodol yn anelu nid yn unig at ddarparu hyfforddiant ond mae hefyd yn galw am hyrwyddo dealltwriaeth. Felly, dylech ystyried datblygu ffyrdd o allu dangos fod hyfforddiant wedi arwain at ddealltwriaeth o'r dyletswyddau. Gall hyn gynnwys rhoi ystyriaeth i amcanion cydraddoldeb o fewn systemau arfarniadau staff unigol ac adolygiad cylchol o anghenion hyfforddiant priodol.

8.7 Caffael

Beth yw caffael?

Mae llawer o awdurdodau cyhoeddus yn contractio gyda sefydliadau allanol yn y sectorau preifat a'r trydydd sector i ddarparu gwaith, nwyddau neu wasanaethau. I ddiben y canllaw hwn, 'caffael' yw'r broses gytundebol a ddefnyddir lle bo awdurdod cyhoeddus yn cytuno i un arall gyflawni gwaith a/neu ddarparu nwyddau a neu wasanaethau ar ei ran.

Pryd bynnag bydd y corff sy'n gyfrifol am ysgol yn cymryd rhan mewn caffael nwyddau neu wasanaethau, fe fydd y ddyletswydd benodol hon ar gaffael yn gymmwys.

Cyd-destun Ewropeaidd

Mae caffael cyhoeddus yn ddarostyngedig i egwyddorion cyfraith Ewropeaidd sy'n anelu at sicrhau tegwch rhwng cyflenwyr o'r DU ac aelod wladwriaethau eraill. Mae'r egwyddorion hyn yn cynnwys rhyddid gweithwyr a nwyddau i symud, bod yn dryloyw, cymesuredd a thriniaeth gyfartal rhwng tendrwyr.

Mae'r egwyddorion hyn yn berthnasol i gontractau o bob gwerth. Yn ychwanegol, mae Rheoliadau'r DU sy'n gweithredu Cyfarwydddebau Ewropeaidd ar gaffael cyhoeddus yn cyflwyno rhai cyfyngiadau sy'n berthnasol mewn perthynas â chontractau sy'n uwch na gwerthoedd trothwy arbennig. Bydd angen i awdurdodau

cyhoeddus fod yn ymwybodol o'r cyd-destun hwn a bydd angen iddynt ystyried sut i hyrwyddo cydraddoldeb mewn ffordd sy'n cyd-fynd â rheolau caffael yr UE.

Beth mae'r ddyletswydd yn gofyn amdano o ran caffael

Wrth gaffael gwaith, nwyddau neu wasanaethau gan sefydliadau eraill ar sail cytundeb perthnasol, rhaid ichi

- rhoi sylw dyledus i p'un a fyddai'n briodol i'r meini prawf dyfarnu ar gyfer y contract hwnnw gynnwys ystyriaethau i helpu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol
- roi sylw dyledus i p'un a fyddai'n briodol nodi amodau yn ymwneud â pherfformiad y contract i helpu i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol.

Cytundebau perthnasol:

Mae'r ddyletswydd benodol ar gaffael yn berthnasol i gytundebau contract sy'n 'gytundebau perthnasol' yn unig, sydd yn y cyd-destun hwn yn golygu naill ai dyfarnu 'contract cyhoeddus' neu gwblhau 'cytundeb fframwaith'.

Mae'r Gyfarwydddeb yn rheoleiddio trefniadau sydd ar neu'n uwch na throthwyon dynodedig yr UE.

Cymesuredd

Wrth wario arian cyhoeddus rhaid ichi roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i ddileu gwahaniaethu, hyrwyddo cyfle cyfartal a meithrin perthynas dda. Bydd ystyriaethau yn ymwneud â chydraddoldeb yn fwy perthnasol i rai gwasanaethau, nwyddau neu waith nag eraill.

Trosolwg o'r gofynion caffael

Yr ydych chi'n parhau'n gyfrifol am fodloni'r ddyletswydd gyffredinol hyd yn oed pan fo gwaith neu wasanaethau perthnasol yn cael eu contractio allan i gyflenwr allanol. Mae'n bwysig cynnwys ystyriaethau cydraddoldeb o fewn prosesau caffael.

Bydd angen i awdurdodau cyhoeddus roi ystyriaeth ddyledus yn ystod pob un o gamau'r broses caffael i'r angen i hyrwyddo cydraddoldeb. Er enghraifft:

- hysbysebu a dewis pwy i'w wahodd i dendro
- drafftio'r gwahoddiad i dendro a'r meini prawf gwerthuso
- drafftio manylebau ac amodau contractau
- monitro, rheoli a gorfodi contractau.

Bydd angen ichi asesu polisiau a strategaethau caffael i ystyried a ydynt yn bodloni amcanion y ddyletswydd yn briodol. Dylai polisiau a strategaethau ymdrin â chynllunio a chyflawni gwaith caffael a rheoli a gorfodi contractau yn dilyn hynny. Teclyn defnyddiol i gynorthwyo sefydliadau i ddatblygu eu polisiau a'u strategaethau caffael yw'r Fframwaith Asesu Caffael Cynaliadwy (SPAF), sy'n ymdrin â chydraddoldeb ac yn cynnwys cynlluniau gweithredu ar gyfer gwella.

Asesu perthnasedd

Bydd cyflawni dyletswyddau penodol eraill ynglŷn ag asesu effaith, casglu a dadansoddi gwybodaeth berthnasol ac ymgysylltiad yn helpu chi i nodi'r contractau hynny sy'n fwyaf perthnasol i gydraddoldeb a bodloni'r ddyletswydd gyffredinol.

Mae'n arbennig o bwysig penderfynu yn y cam cynllunio sut y gallai hyrwyddo cydraddoldeb gael ei gynnwys o fewn prosiect caffael unigol. Bydd hyn yn rhoi ffurf ar gynnwys cydraddoldeb y fanyleb a/neu amodau'r contract a bydd yn dylanwadu ar y pwysau a roddir i ystyriaethau cydraddoldeb wrth ddewis tendrwy ac wrth werthuso tendrau.

Gall ymgysylltu â chyflenwyr posibl eu helpu i ddeall gofynion sy'n gysylltiedig â chydraddoldeb. Rhaid i chi roi ystyriaeth ddyledus i'r angen i annog sail cyflenwyr amrywiol, gan gynnwys sefydliadau yn y trydydd sector a sefydliadau sydd wedi eu dosbarthu fel busnesau a gefnogir. (Gellir cael mwy o wybodaeth am hyn ac ystod eang o faterion caffael yn y Wefan Caffael Genedlaethol: www.sell2wales.co.uk)

Teclyn ar gyfer asesu perthnasedd yw'r templed Asesu Risg Cynaliadwy sy'n helpu sefydliadau i ystyried effeithiau cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol gwaith caffael penodol. Mae'r teclyn hwn yn ymdrin ag ystyriaethau cydraddoldeb.

Tryloywder mewn manylebau

Mae'r fanyleb yn ddisgrifiad ffurfiol o'r hyn yr ydych yn ceisio ei brynu. Lle yr ydych wedi penderfynu bod ystyriaethau cydraddoldeb yn berthnasol i'r gwaith, nwyddau neu wasanaethau, dylai'r fanyleb nodi mor eglur â phosibl beth yr ydych ei angen o ran canlyniadau neu fewnbynnau gan y contractwr llwyddiannus.

Gallwch nodi gofyniad mewn dogfennau tendro i gontractwyr arddangos sut y bydd y nwyddau, gwasanaeth neu waith yn cyflawni anghenion grwpiau a warchodir. Gellid ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr fonitro ac adrodd am sut y mae'n bodloni'r canlyniadau hyn.

Gall manyleb tendro gyflwyno pa wybodaeth y bydd angen i'r contractwr ei chasglu ar eich rhan, fel y gall fodloni ei rwymedigaethau ynglŷn â chasglu gwybodaeth berthnasol.

Hysbysebu'n eang

Er mwyn annog sail cyflenwi mwy cynhwysol, yn arbennig i gynnwys sefydliadau llai, mae'r holl gyrff cyhoeddus mawr yng Nghymru wedi cefnogi Drysau Agored: y Siarter ar gyfer Caffael sy'n addas i SME. Un o ymrwymadau allweddol y siarter hon yw y dylai contractau gael eu hysbysebu mor eang â phosibl ac y dylai contractau sy'n werth mwy na £25,000 gael eu hysbysebu ar wefan Sell2Wales.

Dewis pwy i'w wahodd i dendro

Gall caffael gynnwys cam dethol ac yn ystod y cam hwn byddwch yn asesu ac yn dewis cyflenwyr potensial i dendro am gontract arbennig. Caniateir cynnwys meini prawf cydraddoldeb perthnasol yn ystod y cam hwn cyhyd ag y gwneir hyn yn eglur yn yr hysbyseb a bod y meini prawf yn berthnasol i'r contract.

Lle mae cydraddoldeb yn berthnasol iawn i gontract, gall fod yn gymesur cynnwys gofyniad mewn meini prawf dethol fod cyflenwyr potensial yn arddangos eu record o

ran cydraddoldeb yn y gorffennol, mewn geiriau eraill, eu profiad a'u gallu i hyrwyddo cydraddoldeb o fewn cyd-destun contract perthnasol.

Gallwch ymarfer eich hawl i allgau darpar dendrwr os canfu llys neu driwlynys ei fod wedi torri cyfraith gydraddoldeb, ac os ydynt yn methu â darparu tystiolaeth ynglŷn â sut y maent wedi cymryd camau i atal hyn rhag digwydd eto yn y dyfodol. Ond byddai angen i unrhyw benderfyniad o'r fath i allgau rhywun fod yn gymesur a gallai awdurdodau ddymuno gofyn am gyngor cyfreithiol yn yr amgylchiadau hyn.

Mae Cronfa Ddata Gwybodaeth am Gymhwysu Cyflenwyr (SquID) yn cael ei datblygu yng Nghymru fel teclyn ar-lein. Mae SquID yn anelu at symleiddio a safoni'r broses cyn-gymhwysu i gwmnïau sy'n dymuno gwneud cais am gontractau'r sector cyhoeddus. Mae'n cynnwys adran ar gydraddoldeb, gan helpu cyrff cyhoeddus i ddewis cwestiynau dethol priodol.

Meini prawf dyfarnu

Rhaid ichi gyflwyno'r meini prawf dyfarnu manwl y bwriadwch eu defnyddio i asesu gwerth am arian y ceisiadau sy'n cystadlu. Dylid nodi'r rhain yn gynnar fel bod cyflenwyr posibl yn gwybod am y meini prawf y bydd eu ceisiadau yn cael eu hasesu yn eu herbyn. Ar gyfer contractau sy'n ddarostyngedig i gyfarwyddbau caffael yr UE, rhaid i feini prawf y dyfarniad gael eu cyflwyno'n llawn yn hysbysiad y contract.

Derbynnir yn gyffredinol mai gwerth am arian yw'r cyfuniad gorau o gostau oes gyfan ac ansawdd i fodloni gofynion y defnyddiwr. Mae gwerth am arian yn y cyd-destun hwn fel arfer yn cyfateb i'r tendr mwyaf manteisiol o safbwynt economaidd i'r awdurdod cyhoeddus fel y cyflwynwyd hynny yng Nghyfarwyddbau'r UE.

Mae rheolau caffael cyhoeddus yn rhestru enghreifftiau o feini prawf y gellir eu defnyddio i nodi pa dendr a fyddai'n fwyaf manteisiol yn economaidd. Er nad yw'n cael ei restru'n benodol, gall cydraddoldeb ddal i fod yn berthnasol. Er enghraifft, gallai materion cydraddoldeb gael effaith ar 'ansawdd' gwasanaeth neu waith, sy'n faen prawf a restrir.

Dylai'r pwysau yr ydych yn ei roi i gydraddoldeb fel maen prawf gwerthuso (os o gwbl) fod yn gymesur i bwysigrwydd materion cydraddoldeb o fewn y fanyleb yn gyffredinol.

Mae gwefan [sell2wales](http://sell2wales.com) yn cynnig mwy o wybodaeth am hyrwyddo cydraddoldeb drwy gaffael. Mae hyn yn cynnwys Canllawiau Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru, a ddatblygwyd i sicrhau bod caffael cyhoeddus yng Nghymru yn manteisio i'r eithaf ar ei gyfle i ddod â budd i gymunedau lleol.

Amodau contractau

Mae amodau sy'n ymwneud â materion cydraddoldeb yn rhai a ganiateir lle bo hynny'n berthnasol a lle maent yn cyd-fynd â gofynion y Gymuned Ewropeaidd. Dylech ystyried cynnwys amodau contractau sy'n ei gwneud yn ofynnol i'r contractwr gymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod staff, cyflenwyr ac isgontractwyr yn cyflawni'r hyn sy'n ofynnol o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010.

Lle bo ystyriaethau cydraddoldeb yn hynod berthnasol i gaffael, gallwch ystyried amodau ychwanegol. Gallai'r rhain gynnwys er enghraifft, gofyniad i fonitro cyfansoddiad y gweithlu neu gyfraddau tâl.

Monitro perfformiad contractau

Y prawf eithaf o'ch llwyddiant wrth fodloni'r ddyletswydd cydraddoldeb gyffredinol mewn unrhyw broses gaffael yw perfformiad y contract. Ychydig sydd i'w ennill o gynnwys rhwymedigaethau cydraddoldeb yn y fanyleb a/neu amodau'r contract os byddwch yn methu â mabwysiadu dulliau effeithiol o sicrhau bod y rhwymedigaethau hyn yn cael eu bodloni.

Bydd angen ichi gymryd camau i fonitro perfformiad y contract. Mae awdurdod yn cadw'r cyfrifoldeb am y ddyletswydd gyffredinol a bydd angen iddo weithredu'n brydlon os daw yn ymwybodol o berfformiad gwael neu o beidio â pherfformio o safbwynt gofynion cydraddoldeb contract.

Hyfforddiant

Mae'n ofynnol ichi wneud trefniadau priodol i hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o'r dyletswyddau cyffredinol a phenodol ymysg eich gweithwyr ac i nodi ac ymdrin ag anghenion hyfforddi staff. Gall hyn gynnwys hyfforddiant wedi ei dargedu i staff sy'n cael eu cynnwys mewn prosesau caffael.

8.8 Adrodd yn flynyddol a chyhoeddi

Adrodd yn flynyddol

Rhaid i chi gyhoeddi adroddiad blynyddol erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn

Rhaid i'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol gyflwyno yn benodol:

- y camau yr ydych wedi'u cymryd i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- sut yr ydych wedi defnyddio'r wybodaeth hon i fodloni tri nod y ddyletswydd gyffredinol
- unrhyw resymau dros beidio â chasglu gwybodaeth berthnasol
- datganiad am effeithiolrwydd eich trefniadau i nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol
- cynnydd tuag at gyfiawnhau pob un o'ch amcanion cydraddoldeb
- datganiad am effeithiolrwydd y camau yr ydych wedi'u cymryd i fodloni pob un o'ch amcanion cydraddoldeb
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl (oni bai eich bod eisoes wedi cyhoeddi'r wybodaeth hon yn rhywle arall)

Gallwch gynnwys unrhyw fater arall y teimlwch sy'n berthnasol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol a'r dyletswyddau penodol yn eich adroddiadau blynyddol.

Cyhoeddi

Rhaid i chi gyhoeddi ar ffurf hygyrch:

- adroddiad cydraddoldeb blynyddol
- Cynllun Cydraddoldeb Strategol (ac unrhyw ddiwygiadau)

- amcanion cydraddoldeb yn cynnwys datganiadau cysylltiedig parthed amserlenni a gweithredoedd i'w cymryd
- eich rhesymau dros benderfynu peidio â chyhoeddi unrhyw amcan cydraddoldeb parthed un nodwedd warchoddedig neu fwy. Rhaid gwneud hyn hyd yn oed os ydych wedi cyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio ag achosion unrhyw wahaniaeth mewn tâl yn ymwneud â'r nodwedd warchoddedig honno
- eich rhesymau dros benderfynu peidio â chyhoeddi amcan cydraddoldeb i ddelio ag achosion gwahaniaeth tâl ar sail rhywedd os ydych wedi nodi gwahaniaeth mewn tâl rhwng dynion a menywod
- cynllun gweithredu i ddelio â'r gwahaniaeth tâl ar sail rhywedd
- adroddiadau am eich asesiadau o effaith polisïau ac arferion arfaethedig ac unrhyw adolygiadau o bolisïau ac arferion presennol ar grwpiau gwarchoddedig, ble mae'r effaith yn sylweddol. Rhaid i'r adroddiadau gynnwys:
 - pwrpas y polisi neu arfer arfaethedig
 - crynodeb o'r camau a gymerwyd i gyflawni'r asesiad
 - crynodeb o'r wybodaeth a ystyriwyd yn yr asesiad
 - canlyniadau'r asesiad
 - unrhyw benderfyniad a wnaed.
- gwybodaeth benodol am gyflogaeth, yn cynnwys gwybodaeth am hyfforddiant a thâl (gellir cyhoeddi hyn fel rhan o'r adroddiad cydraddoldeb blynyddol)
- unrhyw wybodaeth berthnasol am gydraddoldeb (sydd yn eich meddiant ac ystyriwch yn briodol i'w gyhoeddi)

Gallwch gyhoeddi eich adroddiad blynyddol neu eich Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar wahân neu mewn dogfennau eraill.

Pryd i gyhoeddi

- **Amcanion Cydraddoldeb:** Rhaid cyhoeddi amcanion cydraddoldeb erbyn 2 Ebrill 2012. Gallwch adolygu amcan cydraddoldeb ar unrhyw adeg, ond mae'n rhaid cyhoeddi'r fersiwn newydd (neu ddiwygiadau) cyn gynted â phosibl wedi gwneud unrhyw newidiadau.
- **Cynllun Cydraddoldeb Strategol:** Rhaid gwneud Cynllun Cydraddoldeb Strategol erbyn 2 Ebrill 2012 a'i gyhoeddi cyn gynted â phosibl ar ôl ei wneud. Gallwch adolygu Cynllun Cydraddoldeb Strategol ar unrhyw adeg, ond mae'n rhaid ichi gyhoeddi'r fersiwn newydd (neu ddiwygiadau) cyn gynted â phosibl ar ôl gwneud unrhyw newidiadau.
- **Gwybodaeth am Gydraddoldeb:** Mae'n ofynnol ichi wneud trefniadau priodol i sicrhau eich bod o bryd i'w gilydd yn:
 - nodi gwybodaeth berthnasol sydd yn eich meddiant
 - nodi a chasglu gwybodaeth berthnasol nad yw yn eich meddiant
 - cyhoeddi gwybodaeth berthnasol sydd yn eich meddiant, oni bai y byddai'n amhriodol gwneud hynny.

Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon erbyn 2 Ebrill 2012 a'i hadolygu o bryd i'w gilydd. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys asesiad o bethau a wnaed gan eich ysgol a allai gyfrannu tuag at fodloni eich dyletswydd gyffredinol.

- **Gwybodaeth am gyflogaeth:** Gallai adroddiad blynyddol gynnwys yr wybodaeth ddynodedig am gyflogaeth parthed cyflogeion ac ymgeiswyr ar 31 Mawrth bob blwyddyn. Os nad yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys yr wybodaeth honno, bydd angen ei chynnwys mewn dogfennaeth arall ar sail flynyddol

Rhaid cyhoeddi **adroddiadau cydraddoldeb blynyddol** erbyn 31 Mawrth bob blwyddyn

Lle rydych wedi penderfynu peidio â chyhoeddi amcan cydraddoldeb mewn perthynas ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig rhaid ichi gyhoeddi eich rhesymau am y penderfyniad hwnnw. Rhaid cyhoeddi amcanion cydraddoldeb yn eich Cynllun Cydraddoldeb Strategol. Gallai gynnwys eich rhesymau am beidio â chyhoeddi amcan cydraddoldeb mewn perthynas ag un neu fwy o nodweddion gwarchodedig fel rhan o'ch Cynllun Cydraddoldeb Strategol.

Bydd yr adroddiad blynyddol cyntaf yn cwmpasu'r cyfnod o 6 Ebrill 2011 i 31 Mawrth 2012. Y terfyn amser i'r adroddiad blynyddol cyntaf yw 31 Mawrth 2013. Efallai, y bydd o gymorth ichi gysoni eich adroddiad â'ch cylch busnes arferol yn hytrach nag aros tan y 31 Mawrth canlynol i adrodd ar wahan. O ganlyniad, byddai'r cofnod o gynnydd ar gydraddoldeb yn fwy diweddar ac o'r brif - ffrwd.

Adolygu

Rhaid i chi adolygu:

- eich amcanion cydraddoldeb o leiaf bob pedair blynedd
- eich Cynllun Cydraddoldeb Strategol ac unrhyw ddiwygiadau. Rhaid gwneud hyn gan roi sylw priodol i wybodaeth berthnasol sydd yn eich meddiant ac i unrhyw wybodaeth arall yr ystyriwch a fyddai'n debygol o helpu yn yr arolwg

O ganlyniad i'r broses adolygu, gallwch benderfynu diwygio'ch trefniadau, yr amcanion neu'r Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol. Os gwnewch hynny, rhaid cyhoeddi'r newidiadau hyn eto cyn gynted â phosibl ac mewn modd hygyrch

Rhaid parhau i adolygu eich trefniadau ar gyfer

- monitro effeithiolrwydd eich camau, a'ch cynnydd tuag at gyflawni eich amcanion cydraddoldeb
- nodi, casglu a chyhoeddi gwybodaeth berthnasol
- asesu effaith polisiau ac arferion sy'n cael eu cynnig neu eu hadolygu
- monitro effaith polisiau ac arferion
- hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o ddyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol a phenodol, gan ddefnyddio unrhyw weithdrefnau asesu perfformiad i nodi a delio ag anghenion hyfforddiant cysylltiedig

Hygyrchedd

Rhaid i chi gymryd pob cam rhesymol i sicrhau y cyhoeddir unrhyw ddogfen neu wybodaeth y mae'n ofynnol ichi eu cyhoeddi i fodloni dyletswyddau cydraddoldeb cyffredinol neu benodol ar ffurf sy'n hygyrch i bobl o grwpiau gwarchoddedig

Fel rhan o'ch trefniadau ar gyfer hyrwyddo gwybodaeth a dealltwriaeth o staff mewn perthynas â dyletswyddau cydraddoldeb, dylech ystyried cynyddu ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud â hygyrchedd. Bydd angen i staff gynllunio ymlaen llaw yn eu hamserlen cyhoeddi i sicrhau y gallant neilltuo'r amser ychwanegol a gymer i gael gwybodaeth wedi ei pharatoi mewn ieithoedd eraill a fformatau hygyrch.

Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion wneud addasiadau rhesymol fel nad yw pobl anabl yn cael eu rhoi o dan anfantais sylweddol. Mae hyn yn cynnwys cymryd camau rhesymol i sicrhau y darperir gwybodaeth mewn fformat hygyrch. Mae'r ddyletswydd benodol yn datblygu ar y ddarpariaeth wrth-wahaniaethu hon i bobl anabl, ond mae'n berthnasol i'r holl nodweddion perthnasol a warchodir.

Er enghraifft, bydd angen ystyried nid yn unig fformatau fel Easy Read (ar gyfer pobl gydag anableddau dysgu yn bennaf), ond hefyd ystod o ieithoedd cymunedol gan gynnwys Iaith Arwyddion Prydain. Lle cyhoeddir gwybodaeth ar wefan bydd angen cymryd gofal i sicrhau ei bod yn hygyrch i'r rhai hynny gydag amhariadau ar eu golwg neu amhariadau eraill. Dylid lleoli gwybodaeth mewn dull rhesymegol a chyson a dylai fod yn hawdd i'w chanfod gan ddefnyddio cyfleuster chwilio.

Oherwydd bod pobl o fewn rhai grwpiau gwarchoddedig yn llai tebygol o gael mynediad i'r rhyngwyd, bydd angen ichi gyhoeddi gwybodaeth allweddol mewn print neu mewn fformatau eraill (fel Braille neu CD).

8.9 Enghraifft gyfuno

Yr ydych yn deall o adroddiad Llywodraeth Cymru ar Ffeithiau a Ffigyrau ynghylch Cwnsela mewn Ysgolion bod y mwyafrif helaeth o gwnsela'r ysgol yn cael ei ddarparu i ddisgbylion o gefndiroedd ethnig gwyn. Deallwch fod **gennychn ddyletswydd benodol i fonitro effaith eich polisiau a'ch gweithdrefnau ar eich gallu i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol**. Felly, yr ydych yn penderfynu monitro eich rhaglen ar gwnsela.

Darganfyddwch fod eich rhaglen ar gwnsela yn codi'r un pryderon bod cwnsela yn cael ei ddarparu yn bennaf i ddisgbylion o gefndiroedd ethnig gwyn. Felly, yr ydych yn trefnu **adolygiad ffurfiol o'r polisi ac asesu ei effaith** ar allu'r ysgol i fodloni'r ddyletswydd gyffredinol. Yn benodol, yr ydych am archwilio newidiadau i helpu chi i hyrwyddo cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu nodwedd warchoddedig berthnasol a'r rhai nad ydynt (h.y. ail nod y ddyletswydd gyffredinol).

Unwaith ichi benderfynu i asesu effaith y polisi, mae gennychn ddyletswydd i dalu sylw dyledus i wybodaeth berthnasol sydd gennychn ac i ymgysylltu â phobl briodol.

Yr ydych hefyd yn deall y ddyletswydd i wneud trefniadau priodol ar gyfer nodi'r wybodaeth sydd gennychn. Felly, rydych yn creu templed i ddarparu i staff a chwmsleriaid, yn gofyn iddynt am adborth ar sut y maent yn delio ag ymholiadau disgbylion ynghylch cwnsela a sut y mae ymwybyddiaeth o gwnsela yn cael ei hybu. Gan gofio'r angen i gyfyngu mynediad i wybodaeth sensitif, trefnwch fod y

cwnsleriaid yn adolygu'r holl wybodaeth ac adroddiadau a gofnodwyd ynghylch cwnsela ac eu bod nhw'n asesu'r wybodaeth o ran pob nodwedd warchoddedig (cyn belled ag y gallant).

Mae gan eich ysgol amryw o ddisygblion o gefndiroedd ethnig heb law am rai gwyn. Mae eich dadansoddiad o wybodaeth berthnasol ynghyd â data cenedlaethol yn codi pryderon yn enwedig ynghylch y nodweddion gwarchoddedig o hil a chrefydd.

Wrth ymgysylltu, mae gennych ddyletswydd i gynnwys pobl yr ystyriwch chi sy'n cynrychioli pobl sy'n rhannu un neu'n rhagor o'r nodweddion gwarchoddedig ac sydd â diddordeb mewn gwaith eich ysgol.

Yr ydych yn gwybod am ddwy ysgol arall yn yr ardal sydd ag amrywiaeth tebyg o ddisygblion ac yr ydych yn gweithio gyda nhw wrth ymateb i'r casgliadau cenedlaethol. Gyda'r ysgolion eraill, yr ydych yn cwrdd â NSPCC Cymru/Wales a'r Gymdeithas Brydeinig ar gyfer Cwnsela a Seicotherapi (BACP). Yr ydych hefyd yn ystyried eich disgresiwn i gynnwys ac ymghyngori â phobl sydd yn rhannu un neu'n rhagor o'r nodweddion gwarchoddedig, felly trefnwch drafodaeth gyda nifer o gyn-ddisygblion o gefndiroedd ethnig heb law am rai gwyn yr ydych yn gwybod sy'n weithgar yn y gymuned leol. Yr ydych yn ystyried yr angen, cyn belled ag y bo'n ymarferol, bod y disygblion hynny'n cynnwys amrywiaeth briodol o ran rhywedd, ethnigrwydd a nodweddion gwarchoddedig eraill.

Sicrhewch fod yr ymgysylltu:

- wedi ei strwythuro a'i ffocysu yn dda
- wedi'i adnoddu'n ddigonol ac yn hygyrch
- yn ddylanwadol ac yn dryloyw
- yn parchu cyfrinachedd

Mae'r ymgysylltu'n llwyddiannus ac yn nodi patrymau o anfantais â phroffir gan ddisygblion o gefndiroedd heb law am rai gwyn sy'n gysylltiedig â phroblemau a gellir eu trin trwy gwnsela, er enghraifft, problemau megis gofid a phwysau academaidd. Mae'r grwpiau trafod yn teimlo bod y problemau hyn yn arwain at anfantais megis hunan barch isel, patrymau meddwl negyddol a thangyflawni.

Yr ydych yn llunio amcan cydraddoldeb newydd ar gyfer y nodweddion gwarchoddedig o hil a chrefydd, i sicrhau bod rhagor o ddisygblion sydd â'r nodweddion gwarchoddedig hynny yn derbyn gwasanaethau cwnsela pan fydd eu hangen. Felly, mae'r amcan cydraddoldeb hwn yn nodi'r canlyniadau cydraddoldeb i'w cyflawni a bydd gwireddu'r canlyniadau hynny'n arwain at berfformiad gwell o'r ddyletswydd gyffredinol.

Yr ydych hefyd yn nodi'r camau y byddwch yn eu cymryd er mwyn gwireddu canlyniadau'r amcan cydraddoldeb newydd. Er enghraifft, roedd yr ymarfer ymgysylltu yn pwysleisio'r pwysigrwydd o hybu ymwybyddiaeth o'r ystod eang o broblemau a all disygblion drafod gyda chwnsleriaid yr ysgol, trefnu bod cwnsela ar gael ar amserau hyblyg, addewidion na fydd unrhyw rhag-farnu, atal unrhyw stigma sy'n gysylltiedig â chwnsela, magu ymddiriedaeth disygblion a rhoi addewidion fod sesiynau cwnsela'n gyfrinachol.

Yr ydych hefyd yn gwneud ymholiadau â'r BACP ynghylch y posibilrwydd o ddefnyddio cwnsleriaid o gefndiroedd ething a chrefydd wahanol gan fod cyn-ddisygblion wedi nodi y gallai hyn gyfrannu at fwy o ddisygblion yn derbyn gwasanaethau cwnsela. Rydych yn darparu gwybodaeth sydd yn adlewyrchu pob un

o'r uchod ar eich gwefan a hysbysfyrdau gwybodaeth ac yn ystod gwasanaeth, fel y gall disgyblion dderbyn yr wybodaeth yn hawdd.

Yr ydych yn gofyn i gwnseliaid yr ysgol i hyfforddi staff er mwyn i staff ddelio ag ymholiadau wrth ddisgyblion ynghylch cwnsela mewn ffordd briodol.

Cyhoeddwch yr amcan cydraddoldeb newydd mewn Cynllun Cydraddoldeb Strategol a ddiwygiwyd, ynghyd â'r camau yr ydych yn bwriadu eu cymryd i gyflawni'r amcan. Mae'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol hefyd yn cynnwys eich trefniadau ar gyfer monitro effeithiolrwydd y camau yr ydych wedi'u cymryd, er enghraifft, dadansoddi'r niferoedd sy'n derbyn gwasanaethau cwnsela i weld os ydynt yn ymosod ar yr anghydbwysedd gwreiddiol.

Cyhoeddwch hefyd adroddiad o'ch asesiad o'r polisi gwreiddiol ynghylch cwnsela, gan gynnwys gwybodaeth megis pwrpas y polisi, crynodeb o sut aethoch ati i asesu a'r wybodaeth a ystyriwyd, canlyniadau'r asesiad a'r penderfyniad i lunio amcan cydraddoldeb newydd.

Wrth adolygu'r Cynllun Cydraddoldeb Strategol, mae dyletswydd i dalu sylw dyledus i wybodaeth berthnasol ac i ymgysylltu â phobl briodol eto. Rhy hyn gyfle arall ichi atgyfnerthu'r camau sydd angen ichi eu cymryd ac i ystyried os oes unrhyw wybodaeth newydd ar gael.

Yr ydych hefyd yn cymryd y cyfle i adolygu eich systemau ar gyfer casglu gwybodaeth ynghylch cwnsela, fel bod problemau cyffredin yn cael eu hadnabod yn hawdd ac yn hysbysu'ch gwaith cydraddoldeb. Deallwch fod angen casglu'r fath wybodaeth mewn ffordd sensitif iawn sydd hefyd yn parchu cyfrinachedd.

Mae eich adroddiad blynyddol hefyd yn cynnwys crynodeb o'r cynnydd a wnaethpwyd tuag at cyflawni'r amcanion cydraddoldeb, sut yr ydych wedi nodi a defnyddio gwybodaeth berthnasol, pa mor effeithiol yr ydych wedi bod yn defnyddio'r fath wybodaeth a pha mor effeithiol yr ydych wedi bod yn cyflawni'r amcanion cydraddoldeb.

Yn ystod yr adolygiad cyntaf o'r cofnodion ac adroddiadau cwnsela, fe ystyrioch bob un o'r nodweddion gwarchoddedig ac fe sylweddoloch nad oedd unrhyw anghydbwysedd sylweddol o ran y nodweddion gwarchoddedig eraill megis rhywedd, anabledd, beichiogrwydd a rhywioldeb. O ran disgyblion â'r nodweddion hynny, mae'r ddarpariaeth cwnsela yn gymesur a chytbwys. Felly, gan nad oedd y polisi cwnsela yn cael effaith sylweddol ar y disgyblion o fewn y grwpiau gwarchoddedig hynny, nid oes dyletswydd i gyhoeddi'r asesiad ond yr ydych yn penderfynu cynnwys y fath wybodaeth mewn adroddiad blynyddol ta beth er mwyn dangos tryloywder, arweiniad ac ymarfer da.

Yr ydych yn sicrhau bod yr holl wybodaeth yn cael eu cyhoeddi ar ffurf hygyrch, a all gynnwys ffurfiau amgen ac ieithoedd heb law am Gymraeg neu Saesneg.

Try eich sylw hefyd at y cwnsela sydd ar gael i'ch staff a hybu argaeledd cwnsela. O ganlyniad, mae mwy o staff yn derbyn cwnsela a deallwch o hyn fod gan staff bryderon ynghylch gwahaniaethau tâl.

Deallwch fod dyletswydd benodol i dalu sylw dyledus i'r angen i gael amcan cydraddoldeb i ddelio ag achos unrhyw wahaniaeth tâl rhwng cyflogeion sydd o unrhyw grŵp gwarchoddedig a'r rhai nad ydynt, os yr ymddengys i fod yn rhesymol debygol bod y rheswm dros y gwahaniaeth yn gysylltiedig â'r ffaith bod y cyflogeion hynny yn rhannu nodwedd warchoddedig.

Yr hyn y mae cyfraith cydraddoldeb yn ei olygu i chi fel darparwr addysg yng Nghymru: Ysgolion

Ar ôl ymgysylltu a thalu sylw dyledus i wybodaeth berthnasol, yr ydych yn llunio amcan cydraddoldeb i sicrhau bod unrhyw wahaniaethau tâl yn cael eu dileu.

Yr ydych yn cyhoeddi cynllun gweithredu sy'n nodi eich polisi ar ddelio â'r fath wahaniaethau tâl, yr amcanion eu hunain a datganiad o'r camau yr ydych am eu cymryd i gyflawni'r amcanion o fewn yr amser penodedig.

Atodiad A: Nodweddion gwarchoddedig

Y nodweddion gwarchoddedig i'r darpariaethau ar gyfer ysgolion yw:

- Anabledd
- Ailbennu rhyw
- Beichiogrwydd a mamolaeth
- Hil
- Crefydd neu gred
- Rhyw
- Cyfeiriadedd rhywiol

NID yw oedran a phriodas a phartneriaethau sifil yn nodweddion gwarchoddedig o ran y darpariaethau ar gyfer ysgolion.

Anabledd

Mae person yn anabl (rhywun a chanddo/chanddi nodwedd warchoddedig anabledd) os oes ganddo/ganddi niwed corfforol a/neu niwed meddyliol sydd yng ngeiriau'r gyfraith 'yn cael effaith andwyol sylweddol a thymor hir ar ei (g)allu i gyflawni gweithgareddau beunyddiol arferol'.

Nid oes angen i berson gael achos ac iddo ddiagnosis meddygol am y niwed, yr hyn sy'n cyfrif yw effaith y niwed nid yr achos.

Mewn perthynas â niwed corfforol:

- Mae cyflyrau sy'n effeithio'r corff megis gwynegon, nam ar y clyw neu'r golwg (oni ellir cywiro hyn drwy wisgo sbectol neu wydrau cyffwrdd), clefyd y siwgr, asma, epilepsi, cyflyrau megis heintio â HIV, cancr a sglerosis ymledol, yn ogystal â cholli aelodau o'r corff neu golli defnydd o aelodau o'r corff oll wedi eu cynnwys.
- Mae heintio â HIV, cancr a sglerosis ymledol wedi eu cynnwys o bwynt y diagnosis.
- Mae anffurfio difrifol (megis creithio) wedi ei gynnwys hyd yn oed oni chaiff unrhyw effaith gorfforol ar y person sydd wedi ei anffurfio, ar yr amod y bodlonir y gofyniad tymor hir (gweler isod).
- Mae pobl sydd wedi cofrestru' ddall neu'n rhannol ddall, neu sydd wedi eu hardystio eu bod yn ddall neu'n rhannol ddall gan feddyg llygaid ymgynghorol, yn cael eu trin fel pobl anabl fel mater o drefn o dan y Ddeddf.

Mae niwed meddyliol yn cynnwys cyflyrau megis dyslecsia ac awtistiaeth yn ogystal ag anawsterau dysgu megis syndrom Down a chyflyrau iechyd meddwl megis iselder a sgitsoffrenia.

Y profion eraill cymwys wrth benderfynu a oes gan rywun nodweddion gwarchoddedig anabledd yw:

- Pa mor hir y mae effaith y cyflwr wedi para neu'n mynd i bara: rhaid iddo fod yn gyflwr hir dymor. Golyga 'hir dymor' fod y niwed yn debygol o bara am weddill bywyd y person, neu fod wedi para o leiaf 12 mis, neu lle bo'r cyfnod cyfan y pery'r cyflwr yn debygol o fod yn 12 mis o leiaf. Os nad yw'r person bellach yn dioddef o'r cyflwr ond bod y cyflwr yn debygol o ddychwelyd, neu os nad yw'r person bellach yn dioddef o'r cyflwr, fe'i hystyrir yn berson anabl.
- Pa un a yw effaith y niwed yn ei gwneud hi'n anos ac yn fwy o dreth o ran amser i berson gyflawni gweithgaredd o'i gymharu â rhywun nad yw'n dioddef y niwed, a bod hyn yn achosi mwy nag anghyfleustra pitw neu ddibwys.
- A yw'r gweithgareddau anos i'cyflawni yn 'weithgareddau beunyddiol arferol' yn y gwaith neu ar yr aelwyd.
- Paun a yw'r cyflwr yn cael yr effaith hon heb ystyried dylanwad unrhyw feddyginiaeth mae'r person yn ei chymryd neu gymhorthion neu gyfaddasiadau sydd ganddynt, megis cadair olwyn, ffon gerdded, ci cymorth neu feddalwedd arbennig ar ei gyfrifiadur/chyfrifiadur. Yreithriad i hyn yw gwisgo sbectol neu lensys cyffwrdd lle bo'r effaith trabo'r person yn gwisgo'r sbectol neu'r gwydrau cyffwrdd yn cael ei hystyried.

Er enghraifft: Gall sid ystyried bod anabledd gan rywun sy'n dioddef o ADHD hyd yn oed os yw ei feddyginiaeth yn rheoli ei gyflwr gystal fel mai anaml y bydd yn cael unrhyw symptomau, os byddai effeithiau andwyol hir dymor gan yr ADHD heb y feddyginiaeth.

Mae cyflyrau graddol a'r rheiny ag effeithiau cyfnewidiol neu ailadroddus wedi eu cynnwys, megis iselder, cyn belled â'u bod yn bodloni'r prawf o gael effaith andwyol hir dymor sylweddol ar allu person i gyflawni ei weithgareddau beunyddiol arferol.

Ailbennu rhyw

Proses bersonol (yn hytrach na phroses feddygol) yw ailbennu rhyw yn ymwneud â pherson yn mynegi ei ryw mewn ffordd sy'n gwahaniaethu oddi wrth neu sy'n anghyson â'r rhyw corfforol y ganwyd ef/hi ag ef.

Gall y broses bersonol hon olygu cael triniaeth lawfeddygol neu, fel sy'n debycach yn achos disgyblion ysgol, gall olygu yn hytrach ddewis gwisgo mewn ffordd wahanol fel rhan o broses bersonol o newid.

Bydd person yn warchoddedig oherwydd ailbennu rhyw lle bydd ef neu hi yn:

- Mynegi ei bwriad/fwriad i rywun – ni waeth i bwy, boed rhywun yn yr ysgol neu gartref neu rywun tebyg i feddyg:
 - Unwaith y bydd wedi arfaethu ymgymryd â chael ei r(h)yw wedi ei ailbennu mae'n warchoddedig, hyd yn oed os ydyw yn peidio â chymryd camau pellach neu'n penderfynu ymatal yn nes ymlaen
 - Ni raid iddi/iddo fod wedi cyrraedd penderfyniad di-droi'n ôl y bydd yn cael ei r(h)yw wedi ei ailbennu, ond cyn gynted â'i bod/fod yn mynegi'r bwriad hwn mae'n warchoddedig
- Cychwyn neu barhau i wisgo, ymddwyn neu fyw (yn amser llawn neu'n rhan amser) yn unol a'r rhyw y mae'n uniaethu ag ef fel person
- Cael triniaeth yn ymwneud ag ailbennu rhyw, megis llawdriniaeth neu therapi hormonau, neu
- Derbyn cydnabyddiaeth rhyw o dan Ddeddf Cydnabod Rhyw 2004.

Gall unrhyw un o'r rhain fod yn gymwys i berson gael gwarchodaeth oherwydd nodwedd ailbennu rhyw.

Mae'r canllaw hwn yn defnyddio'r ymadrodd 'person trawsrywiol' i gyfeirio at rywun y mae ailbennu rhyw yn nodwedd warchoddedig ganddo.

Beichiogrwydd a mamolaeth

Mae'r Ddeddf yn rhestru beichiogrwydd a mamolaeth fel nodwedd warchoddedig. Darperir ar gyfer gwahaniaethu ar sail beichiogrwydd a mamolaeth yn [Adran 2](#).

Hil

Mae hil yn golygu:

- lliw, a/neu
- genedl (gan gynnwys dinasyddiaeth), a/ne
- darddiad ethnig neu genedlaethol

person ac mae grŵp hil yn cynnwys pobl sy'n meddu ar neu sy'n rhannu lliw, cenedl neu darddiad ethnig neu genedlaethol.

Mae gan berson nodwedd warchoddedig hil os ydynt yn perthyn i grŵp o hil arbennig, megis 'pobl Prydain'.

Gall grwpiau hil gynnwys dau neu fwy grŵp hil megis 'Asiaid Prydain'.

Crefydd neu gred

Mae nodwedd warchoddedig crefydd neu gred yn cynnwys unrhyw grefydd ac unrhyw gred crefyddol neu athronyddol. Mae hefyd yn cynnwys diffyg unrhyw grefydd neu gred o'r fath.

Ni raid i grefydd fod yn brif ffrwd neu'n adnabyddus i ennill gwarchodaeth fel crefydd. Rhaid iddi, fodd bynnag, fod yn adnabyddadwy a chael system strwythur a chred sy'n eglur. Gellir ystyried enwadau neu sectau o fewn crefyddau fel crefydd. Gellir hefyd ystyried cyltiau a mudiadau crefyddol newydd fel crefyddau neu gredoau.

Mae cred yn golygu unrhyw greddo crefyddol neu athronyddol ac mae'n cynnwys diffyg cred.

Mae 'Credo Crefyddol' yn mynd y tu hwnt i gredoau ynghylch ac ymlyniad wrth grefydd neu ei bannau ffydd canolog a gall amrywio o'r naill berson i'r llall o fewn yr un grefydd.

Gall cred nad yw'n gred crefyddol fod yn gred athronyddol, megis dyneiddiaeth neu anffyddiaeth.

Ni raid i gred gynnwys ffydd neu addoli duw neu dduwiau, ond rhaid iddo gael effaith ar sut y mae person yn byw ei fywyd neu'n gweld y byd.

Er mwyn i gred gael gwarchodaeth gan y Ddeddf Cydraddoldeb:

- Rhaid ei gynnal yn ddidwyll.
- Rhaid iddo fod yn gred ac nid yn farn neu'n safbwynt yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael ar y pryd
- Rhaid iddo fod yn gred yn ymwneud ag agwedd bwysig a sylweddol o fywyd ac ymddygiad dynol
- Rhaid iddo gynnal rhyw lefel o argyhoeddiad, difrifoldeb, cydlynid a phwysigrwydd
- Rhaid ei fod yn deilwng o barch mewn cymdeithas ddemocrataidd
- Rhaid iddo fod yn gydnaws ag urddas dynol a pheidio â gwrthdaro â hawliau sylfaenol pobl eraill.

Rhyw

Mae rhyw person yn cyfeirio at y ffaith eu bod yn wryw neu'n fenyw. Mewn perthynas â grŵp o bobl, mae'n cyfeirio at un ai ddynion neu fenywod neu at fechgyn neu ferched.

Cyfeiriadedd rhywiol

Cyfeiriadedd rhywiol yw'r atyniad y mae person yn ei deimlo tuag at y naill ryw neu'r llall (neu'r naill a'r llall), sy'n pennu pwy y mae'n ffurfio perthynas o natur rywiol ag ef/â hi neu'n ddeniadol iddo/iddi.

- Pobl o'r un rhyw yn unig sy'n ddeniadol i rai pobl (menywod lesbaidd a dynion hoyw).
- Mae pobl o'r naill ryw a'r llall yn ddeniadol i rai pobl (pobl ddeurywiol).
- Pobl o'r rhyw arall yn unig sy'n ddeniadol i rai pobl (pobl heterorywiol).

Gwarchodir pawb rhag cael eu trin yn waeth oherwydd eu cyfeiriadedd rhywiol, pa un a ydynt yn ddeurywiol, yn hoyw, yn lesbaidd neu'n heterorywiol.

Mae gwahaniaethu ar sail cyfeiriadedd rhywiol hefyd yn cynnwys gwahaniaethu yn gysylltiedig â dangos arwyddion o'r cyfeiriadedd rhywiol hwnnw.

Atodiad B: Cyrff cyfrifol ysgolion

Math o ysgol	Corff cyfrifol
Ysgolion annibynnol yng Nghymru, Lloegr a'r Alban	Y perchennog
Ysgolion arbennig yng Nghymru a Lloegr nas cynhelir	Y perchennog
Ysgolion yng Nghymru a Lloegr a gynhelir	Yr awdurdod lleol neu'r corff llywodraethol
Unedau Cyfeirio Disgyblion	Yr awdurdod lleol
Ysgolion awdurdod addysg yn yr Alban	Yr awdurdod addysg
Ysgolion grant yn yr Alban	Y rheolwyr
Academiâu (yn cynnwys Academiâu darpariaeth amgenach nad ydynt yn sefydliadau addysgol annibynnol)	Y perchennog

Atodiad C: Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus

Dyletswydd unigryw yw dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus. Mae'n berthnasol i gyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau addysg, ysgolion sy'n cael cymorth grant, ysgolion a gynhelir, Academiâu ac Unedau Cyfeirio Disgyblion, sydd â chyfrifoldebau cyfreithiol i arddangos eu bod yn gweithredu ar gydraddoldeb wrth lunio polisiau, darparu gwasanaethau a chyflogaeth yn y sector cyhoeddus.

Mae'r dyletswyddau yn gofyn i gyrff cyhoeddus i gymryd camau nid yn unig i ddileu gwahaniaethu ac aflonyddu anghyfreithlon, ond hefyd i hyrwyddo cydraddoldeb yn weithredol.

Nid canolbwyntio ar broses yw pwrpas dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus na chynyddu biwrocratiaeth ond yn hytrach i gynnig dull, sy'n seiliedig ar ddeilliannau, i sicrhau bod ysgolion yn ateb anghenion pob un o'u disgyblion yn y ffordd orau.

Mae'r ddyletswydd yn darparu fframwaith i helpu ysgolion i daclo materion parhaus a hir sefydlog o anfantais, megis bechgyn o rhai grwpiau ethnig yn tangyflawni, ystradebu rhywiol o ran dewis pynciau a phobl ifanc anabl yn dioddef bwlio. Maen nhw hefyd yn darparu ffyrdd strategol a systematig o daclo'r anfantais pennaf sydd wedi hen galedu ar draws y sector.

Yn gynt roedd ysgolion wedi eu rhwymo gan dair ddyletswydd wahanol ar gyfer hil, anabledd a rhyw.

Cyflwynodd y Ddeddf Cydraddoldeb ddyletswydd sengl o ran cydraddoldeb yn y sector cyhoeddus, sy'n berthnasol i bob nodwedd warchoddedig. Mae'n cysoni'r dair ddyletswydd sy'n bodoli eisoes i un ddyletswydd newydd sy'n cynnwys pob un o'r wyth llinyn cydraddoldeb: oed, anabledd, ailbennu rhyw, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. O ran ysgolion, mae oed yn nodwedd berthnasol wrth ystyried eu dyletswyddau yn eu rôl fel cyflogwr ond nid mewn perthynas â disgyblion.

Mae'r ddyletswydd sengl ar gydraddoldeb yn y sector cyhoeddus yn gofyn i awdurdodau cyhoeddus i dalu 'sylw dyledus' i'r angen i:

- ddiddymu gwahaniaethu, aflonyddu ac erledigaeth
- hyrwyddo cyfle cyfartal
- meithrin perthynas dda

Mae talu sylw dyledus i'r angen i hyrwyddo cyfle cyfartal wedi ei ddiffinio yn bellach yn Neddf Cydraddoldeb 2010 fel talu sylw dyledus i:

- cael gwared ar neu leihau anfanteision
- cymryd camau i fodloni anghenion gwahanol
- annog pobl i gymryd rhan ble mae eu cyfranogiad yn anghymesur o isel.

I ysgolion, mae 'talu sylw dyledus' yn golygu, yn benodol:

- Wrth wneud penderfyniad neu weithredu mae rhaid i ysgol asesu p'un ai a allai fod â goblygiadau i bobl â nodweddion gwarchoddedig neilltuol.
- Dylent ystyried goblygiadau cydraddoldeb cyn ac ar yr adeg maent yn datblygu polisiau a chymryd penderfyniadau; ac nid ar ôl ystyried ei wneud a bydd angen eu hadolygu'n rheolaidd.
- Bydd rhaid integreiddio'r ddeddf cydraddoldeb i swyddogaethau ysgolion. Dylai'r dadansoddi sydd ei eisiau i gydymffurfio â'r ddyletswydd gael ei wneud yn drylwyr a chyda meddwl agored – nid mater o dicio bocsys ydyw.
- Mae rhaid i ysgolion wneud hyn eu hunain ac ni allant ddirprwyo rhywun arall i gymryd cyfrifoldeb dros y ddyletswydd.

Yn ychwanegol i ddyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus, mae gan ysgolion a gynhelir yng Nghymru a Lloegr a pherchenogion Academiâu rai dyletswyddau cydraddoldeb penodol. Mae'r dyletswyddau hyn yn wahanol yng Nghymru a Lloegr.

Yng Nghymru, mae gan ysgolion a gynhelir ddyletswyddau penodol helaethach yn ymwneud â'r canlynol:

- Cyhoeddi nodau cydraddoldeb
- Ymgysylltu ag unigolion priodol
- Darparu gwybodaeth berthnasol
- Asesu a monitro effaith polisiau ac arferion
- Casglu gwybodaeth ar gyflogaeth a mynd i'r afael â'r hyn sy'n achosi gwahaniaethau o ran cyflog
- Hyfforddiant
- Gwahaniaethau o ran cyflog a chynlluniau gweithredu
- Cynlluniau Cydraddoldeb Strategol
- Adroddiadau blynyddol
- Datgelu gwybodaeth
- Hygyrchedd gwybodaeth.

Ceir canllawiau ar y dyletswyddau penodol hyn at:

<http://www.equalityhumanrights.com/wales/publications/guidance-on-the-equality-duty-for-the-welsh-public-sector/>

Yn Lloegr, mae gofyn i ysgolion a gynhelir (ac mewn achos Unedau Cyfeirio Disgyblion, yr awdurdod lleol a'i sefyd;odd ac sy'n ei chynnal) ac Academiâu i gyhoeddi gwybodaeth yn dangos sut y maen nhw'n cydymffurfio â deddf cydraddoldeb y sector cyhoeddus a gosod nodau cydraddoldeb. Bydd angen iddyn nhw ddiweddarau'n flynyddol o leiaf y wybodaeth a gyhoeddir a chyhoeddi nodau o leiaf bob pedair blynedd. Ceir gwybodaeth pellach ar gyfer ysgolion ac Academiâu yn Lloegr ar sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yng nghanllawiau'r Comisiwn: *Public sector equality duty guidance for schools in England*.

Yn yr Alban, mae gan awdurdodau addysg a rheolwyr ysgolion sy'n cael cymorth grant y dyletswyddau penodol a ganlyn:

- adrodd ar brif-ffrydio'r ddyletswydd cydraddoldeb
- cyhoeddi deilliannau cydraddoldeb ac adrodd ar gynnydd
- asesu ac adolygu polisiau ac arferion
- casglu gwybodaeth ar gyflogeion a'i defnyddio
- cyhoeddi gwybodaeth ar y bwlch cyflog rhwng y rhywiau
- cyhoeddi datganiadau ar gyflog cyfartal
- ystyried amodau a meini prawf gwobrwyo mewn perthynas â chaffael cyhoeddus
- cyhoeddi mewn modd sy'n hygyrch.

Ceir canllawiau ynglŷn â sut mae dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus yn effeithio ar y dyletswyddau hyn at:

<http://www.equalityhumanrights.com/scotland/public-sector-equality-duty-in-scotland/>
a

<http://www.scotland.gov.uk/Topics/People/Equality/PublicEqualityDuties>

Cysylltiadau

Mae'r cyhoeddiad hwn a'r adnoddau hawliau dynol ar gael o wefan y Comisiwn:
www.equalityhumanrights.com.

I gael cyngor, gwybodaeth neu gyfarwyddyd am gydraddoldeb, gwahaniaethu neu faterion hawliau dynol, cysylltwch â'r Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cydraddoldeb, gwasanaeth annibynnol sy'n rhad ac am ddim.

Gwefan www.equalityadvisoryservice.com

Ffôn 0808 800 0082

Ffôn testun 0808 800 0084

Oriau 09:00 hyd 20:00 (dydd Llun i ddydd Gwener)
10:00 hyd 14:00 (dydd Sadwrn)

Post FREEPOST Gwasanaeth Cyngori a Chefnogi Cydraddoldeb FPN4431

Rhaid cyfeirio cwestiynau a sylwadau am y cyhoeddiad hwn at:

correspondence@equalityhumanrights.com . Mae'r Comisiwn yn croesawu eich adborth.

Fformatau eraill

Mae'r adroddiad hwn ar gael fel ffeil PDF ac fel ffeil Microsoft Word o
www.equalityhumanrights.com . Am wybodaeth ar gael mynediad at gyhoeddiadau'r

Comisiwn mewn fformat arall, cysylltwch â:
correspondence@equalityhumanrights.com.

© 2014 Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol

ISBN 978-1-84206-631-7